
www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 503
Gorffennaf
2022






## Maes Parcio *Gwefreiddiol?*

Bu tro arall yng nghynffon stori safle Canolfan y Mynydd Gwefru, Llanberis wrth i Gynghorwyr Gwynedd gytuno i oedi gwneud penderfyniad ar y cynlluniau i ddymchwel yr hen ganolfan ymwelwyr er mwyn creu maes parcio ar y safle.

Mae Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor am roi cyfle i'r gymuned yn Llanberis drafod y cynlluniau ac opsiynau eraill ymhellach dros yr haf. Bydd y Pwyllgor yn trafod y mater eto ar 5 Medi. Bydd y Cynghorydd Kim Jones yn arwain yr ymgynghoriad.

Mae First Hydro wedi cyflwyno cais i ehangu'r maes parcio ger Llyn Padarn i gynnwys 110 car ychwanegol gan ddadlau y bydd hyn yn lliniaru problemau parcio mewn cyfnodau pan fo llawer o ymwelwyr yn Llanberis.

Mae'r cynllun wedi codi gwrychyn sawl un yn lleol sy'n cwestiynu'r angen am fwy o feysydd parcio yn Llanberis ac yn dadlau bod modd gwneud gwell defnydd o'r safle canolog er budd pobl yr ardal.

Mae hwn yn fater cymhleth a phwysig i'r ardal i gyd ac fe hoffai'r Eco holi ambell gwestiwn, os cawn ni fod mor hy. Os cofiwch, codwyd yr adeilad hwn yn rhodd i'r ardal fel iawndal am flynyddoedd o aflonyddu a diflastod yn ystod gwaith adeiladu Gorsaf Bwer Dinorwig. Mae'n eironi chwerw fod cwmni First Hydro'n bwriadu dymchwel yr adeilad hwn (a agorwyd yn wreiddiol fel Oriel Eryri) ar yr union adeg y mae ardalwyr heddiw'n wynebu blynyddoedd o aflonyddwch eto wrth i geblau newydd o'r un Orsaf Bwer gael eu gosod dan ein lonydd. Diddorol fydd gwybod a fydd iawndal y tro hwn ai peidio!

Un cwestiwn y byddai'n dda cael ateb iddo yw: pwy sydd pia'r safle? Os 'rhoddwyd' y Ganolfan i'r gymuned, sut a phryd aeth yn eiddo i First Hydro? Byddai'n dda cael gwybod beth yn union oedd ystyr 'rhoi'r adeilad i'r gymuned leol' yn y lle cyntaf.

Cwestiwn arall: sut mae adeilad tua 40 oed mewn cyflwr mor wael fel bod angen ei ddymchwel? Mae'r ardal wedi ennill dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn ddiweddar i nodi pwysigrwydd y diwydiant llechi. Mae strwythurau cyfnod y chwareli'n dal i sefyll. Sut bod yr adeilad yma mor simsan? Ydi hi wir yn rhy hwyr i'w achub? Tybed ydy'r dynodiad UNESCO o bosib yn cynnig cyfle am fuddsoddiad i ddatblygu'r gofod?

A chwestiwn arall eto: pam fod y cwmni mor awyddus i ddal gafael ar y safle os nad oes arno bellach angen yr adeilad? Ai er mwyn gwneud elw sylweddol o'r maes parcio newydd, a hynny ar draul meysydd parcio eraill, fel y rhai sy'n eiddo i'r Ganolfan a Chyngor Gwynedd? Tybed a fyddai'r cwmni'n fodlon gwerthu'r adeilad a'r safle am bris rhesymol?

Bu adeilad Mynydd Gwefru'n siop a safle gwybodaeth i ymwelwyr, yn oriel gelf, caffi, amgueddfa, gofod chwarae meddal i blant bach a llawer mwy. Go brin y bu'r adeilad erioed yn adnodd cymunedol mewn gwirionedd, ond mi allai fod, does bosib? Oni fyddai'n wych gweld gofod mawr i gynnal cyngherddau a digwyddiadau yn y pentref? Gofod creadigol i greu ac arddangos gwaith artistiaid lleol o bosib? Canolfan chwaraeon fechan? Gofod ar gyfer rhandir?

Gobeithio'n fawr y bydd syniadau a gweledigaeth wych yn codi o'r ymgynghoriad dros yr haf ac y bydd trigolion Llanberis a'r ardal yn gallu gwneud defnydd o'r adnodd a roddwyd i ni.

## Yn y rhifyn hwn:


- **Cynulliad Cymunedol GwyrddNi Dyffryn Peris - tud 18**
- **Syrfewyr Ordnans Lleol Cynnar - tud 17**
- **Cymru yn mynd i Qatar! - tud 28**
- **Oes o wasanaeth i'r Blaid - tud 7**
- **Ras 5K Llanrug - tud 14**








**Elin Enfys**

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk



# Ein diolch i'n gohebwyr

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau rhifyn amrywiol a hafaidd mis Gorffennaf Eco'r Wyddfa.

Hwn yw rhifyn olaf Eryl Roberts fel gohebydd Llanrug a hoffem ddiolch o galon iddi am ei blynyddoedd o wasanaeth caredig i'r Eco a phobl y pentref. Y mae Ffion Orwig wedi gwirfoddoli i fod yn ohebydd newydd Llanrug; diolch yn fawr i ti Ffion! Mae manylion cyswllt Ffion i'w weld ar y ddalen hon ac yn adran Newyddion Llanrug. Diolch yn fawr i holl ohebwyr, colofnwyr a chyfranwyr Eco'r Wyddfa am rannu eich straeon.

Gobeithio y caiff pawb fis Gorffennaf hyfryd!
Cofion cynnes
Criw Golygyddol Eco'r Wyddfa

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£30 Margaret Williams a'r teulu, Carrog, Penisarwaun, er cof am Gareth
£20 Elwyn a Deilwen Hughes, Bethel
£20 Rachel Thomas, Llanrug
£10 Eurwyn ac Eiddwen, Llanberis
£10 Gwyneth ac Iris
£7 Di-enw, Llanberis

# Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

# Pulpud Awyr Agored – Rhan 2

Bob tro dwi'n gofyn am ymateb i ryw lun neu erthygl yn yr Eco dwi'n meddwl na wneith neb ymateb. O chwi o ychydig ffydd! Cafwyd ymateb yn syth i'r llun, a'n cais am fwy o wybodaeth, am y Pulpud Awyr Agored ger fferm Cefn Coch, Deiniolen yn rhifyn diwethaf yr Eco.

Diolch o galon i Neville Williams am gysylltu a rhannu'r wybodaeth isod:

Ar ôl iddo drafod gyda'r diweddar Dafydd Morris a chwilota yn ein hanes lleol, darganfu mai John Williams fu'n pregethu yno. Adeiladodd ei hen deidiau Cefn Coch, yn ogystal â rhai tai lleol eraill. Adeiladwyd Cefn Coch yn 1825 ond adeiladwyd Pen Cefn (y tu ôl iddo) yn 1841 a bu John Williams yn byw yno. Deuai hen lôn o Ben Cefn allan wrth ymyl lle mae'r pulpud. Roedd tŷ a siop fach o'r enw Cefn Bach ar yr hen lôn. Byddai pobl yn eistedd ar y bont neu'n sefyll i wrando ar y pregethu a galwyd y bont yn Groeslon Saint neu'n Pont y Saint.

Adeiladwyd Capel Cefn y Waun yn 1833 (y cyfnod pregethu). Adeiladwyd Capel Ysgoldy (Methodistiaid) a Chapel Ebeneser (Annibynwyr) a bu'r Methodistiaid a'r Annibynwyr yn ffraeo ymysg ei gilydd.

Ar ôl holi mae gan Gareth Roberts (Antur Fachwen) gofnod bod twll o dan y pulpud i gadw pethau - Beiblau efallai. Ond meddyliwch mewn difri calon a fyddai rhywbeth mor werthfawr â Beibl yn cael i gadw mewn lle tamp fel hyn? Os nad ydach chi'n gwybod yn well wrth gwrs ...

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Awst a Medi | 8 Gorffennaf | 22 Gorffennaf |
| Hydref | 9 Medi | 23 Medi |
| Tachwedd | 14 Hydref | 28 Hydref |

YSGOLION SUL, CICIAU, GRWPIAU CREFFT, CÂN A STORI ARDAL ECO'R WYDDFA A CHAERNARFON



***Dydd Gwener 1af Gorffennaf, 2022***
***am 5.30***
***Cae Ysgol Llanrug***

ECO'r Wyddfa
**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Llythyrau

**Annwyl Ddarllenwyr**

Dyfodol yr Ysgol Sul yng Nghymru? - rhan annatod o'r gymuned Gymraeg ers dros 200 mlynedd!

Ers dros 200 mlynedd y mae'r Ysgol Sul Gymraeg wedi chwarae rhan bwysig ym mywydau plant a ieuenctid ein gwlad, yn eu twf ysbrydol, moesol a chymdeithasol a hynny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd llawer ohonom yn ddyledus am ddylanwad yr Ysgol Sul ar ein bywydau, ac yn ein datblygiad fel personau cyflawn. Fodd bynnag erbyn heddiw ceir cymunedau Cymraeg, mewn trefi a chefn gwlad, lle nad oes darpariaeth Ysgol Sul neu unrhyw weithgarwch Cristnogol arall ar gyfer plant a ieuenctid yn yr ardal.

Bu'r 2 flynedd olaf hyn hefyd yn heriol i ddweud y lleiaf, a gwelwyd nifer yn rhoi'r gorau i gynnal Ysgolion Sul. Y mae Cyngor Ysgolion Sul, sy'n gweithio'n gydenwadol, yn awyddus iawn i weld Ysgol Sul neu weithgaredd Cristnogol arall yn weithredol ym mhob cymuned ac ar gael i bob plentyn yng Nghymru. Rydym yn medru cynorthwyo i sefydlu ysgolion Sul / clybiau plant / gweithgarwch ar ôl ysgol newydd trwy gyfarfod arweinwyr, darparu cefnogaeth, adnoddau ayyb.

Os ydych awydd gweld tystiolaeth Gristnogol i blant ac ieuenctid yn cael ei sefydlu yn eich ardal chi, yna beth am gysylltu â ni, ac fe geisiwn gydweithio'n lleol i ystyried posibiliadau.

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:
Aled Davies, Cyfarwyddwr
aled@ysgolsul.com / 01766 819120
Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan
www.ysgolsul.com

---

**Annwyl gyfeillion,**

Wyddoch chi bod RNIB yn cynnig gwasanaeth trawsgrifio am ddim i unigolion sydd yn methu darllen print cyfredol?

Boed y lle hudolus y mae'ch hoff lyfr yn arfer mynd â chi yno, neu atgofion arbennig sy'n cael eu cloi mewn llythyrau neu gyfnodolion nad ydych chi'n gallu eu darllen bellach, rydym ni'n deall pwysigrwydd a phŵer y gair ysgrifenedig a pha mor anodd mae'n gallu bod i chi  ddarllen yr hyn rydych chi eisiau, pan fyddwch eisiau.

Mae bywyd bob dydd yn llawn print a gall yr anallu i ddarllen hyn gyflwyno rhwystrau sylweddol i arwain bywyd annibynnol. Gall ein tîm helpu i gael gwared ar y rhwystrau hyn. Drwy gymryd eich print a'i drosi i fformat gallwch chi ei ddarllen eich hun – braille, print bras neu sain – gallent eich helpu chi i gadw mewn cysylltiad gyda'ch cymuned leol, parhau i fynychu grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau, mwynhau eich hoff hobi, neu ehangu eich gorwelion drwy addysg neu deithio.

Os am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth, cysylltwch drwy e-bostio cardifftranscription@rnib.org.uk neu ffonio 02922 749668.

Wrth gwrs, er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth arbennig yma, rydym yn dibynnu ar garedigrwydd llu o wirfoddolwyr i roi eu hamser i recordio'r print. Mae prinder darllenwyr Cymraeg ar hyn o bryd, felly rydym yn chwilio am bobl sydd yn mwynhau darllen, gyda llais dymunol a chlir, sgiliau TG da a gydag awr neu ddwy rydd yr wythnos i ymuno â ni. Os

oes diddordeb gennych, e-bostiwch transcriptionportal@rnib.org.uk am fwy o wybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir
Gwenllian Williams
Gwasanaeth Trawsgrifio RNIB

**Annwyl Ddarllenwyr**

**TACLUSO AT ELUSEN**

Tybed a oes gennych chi focs o hen emwaith sydd byth yn cael eu gwisgo. Beth am fynd drwyddo a'i ddidoli ac yna ei roi at achos da?

Eleni, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, bydd gan yr elusen 'Achub y Plant' stondin emwaith. Arni, gwerthir gemwaith ail law o bob math, rhai'n rhad a rhai'n ddrud.

Caiff unrhw ddarnau arian neu aur eu prisio a'u gwerthu am bris realistig a'u harddangos mewn cypyrddau gwydr pwrpasol. Os na werthir hwy yr wythnos honno byddant yn mynd i siop emwaith i'w gwerthu at yr elusen.

Yn 2017, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, llwyddwyd i godi dros £4,000 drwy werthu gemwaith.

Os hoffech chi helpu 'Achub y Plant' a hynny mewn ffordd ddidrafferth, cysyltwch os gwelwch yn dda efo un ohonom…..

Y dyddiad cau am rhoddion ydi 25ain Gorffennaf.

Yn y De - Emma Berry, 07733 328101, walesberry@hotmail.com.

Yn y Gogledd - Alison Wood, 07766 116114, haawood@gmail.com.

Gwerthfawrogir unrhyw eitem.

Diolch yn fawr,
Emma ac Alison,
Achub y Plant.



## Yn ystod y mis aeth heibio...

- **Mangalitza.** Mochyn cynhenid i Hwngari, gyda blewiach hir a'r gallu i ymdopi â thywydd eithafol o arw, wedi ei achub. Dim ond pymtheg yn unig oedd ar ôl ym Mhrydain, ond yn dilyn ymgyrch gan Gymdeithas Moch Prydain, mae bellach dros hanner cant ohonynt yn bridio; y mwyafrif yn Swydd Efrog.
- **Gwastraff.** Mae Cymru yn ail-gylchu bron i 57% o wastraff cartrefi – un o'r goreuon yn y byd. Amcangyfrifir fod hyn wedi atal 400,000 tunnell o garbon deuocsid rhag cael ei ollwng i'r atmosffer.
- **Nythu.** Mae bocs postio llythyrau yn Ucheldir yr Alban yn gartref i bâr o ddrudwy, a phostio wedi ei wahardd nes bydd y cywion wedi gadael y nyth.
- **Aesculapian**. Nadroedd cynhenid i ddeheudir cynnes a sych deheudir Ewrop wedi eu darganfod yng Nghymru – a hynny ers degawdau. Mae Prifysgol Bangor yn monitro'r nadroedd ers 2004 yn ardal Bae Colwyn. Credir i neidr feichiog ddianc o'r sŵ yno, ac i'w hepil fyw yn y gwyllt gan fwydo ar lygod a mân greaduriaid. Mae'r nadroedd yn hollol ddiniwed.
- **Canabis.** Mae Sbaen yn anelu i ddod y wlad ddiweddaraf i ganiatau defnyddio canabis mewn achosion meddygol megis epilepsi a MS.
- **Agatha.** Dyna enw corwynt cyntaf y tymor, sydd wedi taro arfordir deheuol Mecsico a chreu llanastr i drefi twristaidd ar lannau'r Môr Tawel.
- **BachLong**. Dyna enw'r bont wydr hwyaf yn y byd – 2,072 troedfedd o hyd – ac wedi ei hagor yn swyddogol yn Vietnam.
- **Sillafu.** Harini Logan, merch dair-ar-ddeg oed o Texas yn ennill £40,000 mewn cystadleuaeth sillafu, y tro cyntaf i'r gystadleuaeth gael ei chynnal yn gyhoeddus ers y pandemic. Sillafodd 21 o eiriau yn gywir mewn 90 eiliad.
- **Mwynwragedd**. Mae cwmni a sefydlwyd dwy flynedd yn ôl yn Zimbabwe yn gwrthod cyflogi dynion i chwilio am emau *aquamarine*. Erbyn hyn mae 34 o ferched yn cael eu cyflogi mewn gwahanol swyddi, gan gynnwys garddio. Mae'r ferch sy'n gofalu am yr ardd yn tyfu bwyd ar gyfer gweddill y gweithwragedd. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i anfon eu plant i'r ysgol leol.
- **Ffliw adar**. Mae'r haint wedi cael effaith ddifrifol ar fwydydd traddodiadol de-orllewin Ffrainc, gyda phrinder eithriadol o hwyaid a gwyddau.
- **Gwair môr**. Mae'r planhigyn mwyaf wedi ei ddarganfod o dan y môr yng Ngorllewin Awstralia. Mae'r 'ddôl' o wair môr yn gorchuddio 180 cilomedr sgwâr.

# Ti'n cofio mis Gorffennaf 40...30...20...10?

Dros y misoedd dwytha mae'r *Eco* wedi bod yn rhannu atgofion o hen rifynnau o'r papur 10, 20, 30 a 40 mlynedd yn ôl. Gobeithio eich bod wedi cael blas arnynt, a'u bod wedi procio'r cof neu wedi cyflwyno hanesion o'r newydd.

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - www.ecorwyddfa.co.uk - yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am 46 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch weld yr holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau. Ewch i gael cip i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalennau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* mis Gorffennaf 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…


ECO'R WYDDFA

CAU CAPELI LLANBERIS

I GYHOEDDI'R CARNIFALAU

LLWYDDIANT YM MHWLLHELI

REIDWYR ADDAWOL

**Gorffennaf ac Awst 1982**

- Rhifyn 72. Pris yn 20c am 20 tudalen.
- Cawn hanes a lluniau'r gwasanaethau olaf cyn cau capeli Preswylfa a Gorffwysfa yn Llanberis. Caewyd y ddau gapel ym mis Mehefin, gan uno'r aelodaeth a dechrau achos newydd yng Nghapel Coch. Roedd Capel Gorffwysfa eisoes yn mynd o nerth i nerth pan agorwyd Capel Preswylfa yn 1882. Yn wir, un o'r rhesymau dros godi capel newydd oedd prinder lle yng Ngorffwysfa. Cynlluniwyd Capel Preswylfa i fod llathen yn llai o led na Gorffwysfa, ac na fyddai oriel ynddo. Bu cysylltiad clos iawn rhwng y ddau gapel erioed, gan uno i fod yn un ofalaeth yn ystod y pedwardegau. Bu ymgais i gau Preswylfa yn 1969 er mwyn uno gyda Gorffwysfa, ond ymatal a fu. Cafwyd gynnig eto i gau'r ddau gapel yn 1977 ac i symud yr ofalaeth i Gapel Coch, ond arhoswyd fel ag yr oedd. Yn dilyn canmlwyddiant Preswylfa yn 1982 daethpwyd at y penderfyniad trist a therfynol i gau'r ddau.
- Llwyddiannau lu yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhwllheli dros y Sulgwyn. Rhanbarth Arfon ddaeth i'r brig gan ennill tlws coffa R E Griffith am y rhanbarth gyda'r nifer uchaf o farciau.
- Hysbyseb tudalen lawn i ddweud 'Mae SULYN ar y ffordd!!'. Cawn addewid o 'bapur Sul i bobl Gwynedd' ac 'yr unig bapur Sul Cymraeg'.
- Mae rhyfel y Falklands/Malvinas yn gysgod dros y rhifyn hwn. Cawn deyrnged i Raymond Roberts o Lanberis a gollodd ei fywyd yn y rhyfel.
- Mae rhai pethau yn aros yr un fath 40 mlynedd yn ddiweddarach - problemau parcio yn Llanberis! Cawn hanes cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan y Cyngor Cymuned er mwyn gwrthwynebu bwriad y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i godi'r ffordd a'r maes parcio rhwng y ddau lyn gan arwain at y mynydd gwefru. Mae'n debyg bod deddf a basiwyd yn 1973 yn gofyn i'r Bwrdd Trydan drosi'r ardal yn ôl fel ag yr oedd cyn iddynt dyrchu er mwyn creu mynediad i'w gwaith. 9 mlynedd yn ddiweddarach roedd amgylchiadau wedi newid, a phobl Llanberis yn galw am gadw'r maes parcio a'r lôn, gan werthfawrogi ei gyfraniad at leihau problemau parcio.
- 1982 wrth gwrs oedd saith canmlwyddiant marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf, a threfnwyd cystadleuaeth gelf i ysgolion Gwynedd. Cafodd goreuon y gystadleuaeth eu harddangos yn Oriel Eryri, Llanberis.
- Dyma lun o hen bwmp petrol o GareJ Groeslon Marc sy'n dangos pris petrol yn 1945 yn 2/11 a hanner, sef tua 11 ceiniog yn 1982. Nodwyd bod pris galwyn o betrol yn 1982 bellach yn £1.80, ond o ystyried bod 4.5 litr mewn galwyn dim ond 40 ceiniog y litr fyddai hynny. Fedrwn ni heddiw ddim ond breuddwydio am y ffasiwn brisiau!
- Roedd cryn edrych ymlaen at sawl carnifal oedd ar fin eu cynnal yn ystod mis Gorffennaf - Llanberis, Waunfawr a Deiniolen - ac ambell lun difyr o garnifal Llanrug oedd eisoes wedi ei gynnal.




**Gorffennaf 1992**

- Rhifyn 181. Pris 25 c am 20 tudalen.
- Rhybudd y bydd 3 gorsaf heddlu lleol yn cau cyn hir, gan mai dyma'r argymhellion ger bron Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Roedd gorsafoedd heddlu Deiniolen, Llanrug a Waunfawr ymysg 62 o orsafoedd gwledig oedd ar fin cau.
- Dirgelwch y mwnci - cafodd y stori hon sylw gan neb llai na Hywel Gwynfryn pan gyhoeddodd apêl ar Radio Cymru am wybodaeth am fwnci a welwyd ar do tŷ yn Waunfawr efo erial teledu yn ei law. Does dim cofnod o bwy sy'n honni iddynt weld y mwnci hynod chwaith! Ydach chi'n cofio gweld yr epa?
- Ym mis Mehefin cynhaliwyd gyfarfod cyhoeddus gan Antur Padarn er mwyn cyflwyno canlyniadau arolwg o farn trigolion am eu hardal leol. Difyr, neu drist, yw gweld nad yw ein pryderon wedi newid rhyw lawer mewn 30 mlynedd. Y prif faterion oedd angen sylw 30 mlynedd yn ôl oedd - yr amgylchedd, diweithdra a chyflogau isel, angen am feithrinfeydd a chymorth gyda gofal, tai ar gyfer pobl ifanc, ac awydd i greu safle natur yng Nglyn Rhonwy.
- 'Gair o Romania' gan Angharad Williams. Cawn hanes Angharad yn gweithio mewn cartref i blant amddifad, a'i gofal cariadus o fabanod bychain anghenus.
- …a gair o 'Estonia ac yn ôl' gan Dyfan Roberts. Hanes Dyfan yn Tallin er mwyn ymchwilio i ddrama y bwriada ei hysgrifennu. Mae ei ddawn dweud, yn ogystal â'r straeon, yn hynod ddifyr.
- …ac ymhellach i ffwrdd cawn 'Lythyr o Brunai' gan Delyth. Mae hi bron a dod i ddiwedd blwyddyn o ddysgu mewn ysgol yno. Mae ei disgrifiadau o deithiau i'r mynyddoedd yn codi awydd go iawn i fynd i deithio eto.
- Treialon Cwn Defaid Nant Peris - yn ogystal â'r llu o wobrau am ennill campau clodwiw roedd gwobr hefyd i'r ci mwyaf 'anlwcus'. Ci o Lanrug oedd hwnnw! Roedd enwau 4 o'r cystadleuwyr wedi ymddangos ar daflen treialon 1952, felly llongyfarchiadau iddynt ar ddeugain mlynedd o ymarfer eu crefft.


ECO'R WYDDFA

GORFFENNAF 1992

CAU TAIR GORSAF YR HEDDLU

DAU DDIRGELWCH

Caban BT yn cael ei oleuo gan rym Melin Wynt

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD




**Gorffennaf 2002**

- Rhifyn 291. Pris yn 40 c am 20 tudalen.
- - Y golygyddion presennol, John Pritchard ac Iwan Roberts, yn croesawu criw golygyddol newydd i gymryd yr awennau gan ddechrau â rhifyn Medi.
- - Erbyn heddiw rydym yn ailgylchu heb feddwl dwywaith am y peth, ond yn 2002 roedd y trefniadau i gasglu deunyddiau i'w hailgylchu yn dal yn eithaf newydd. Calonogol iawn, er hynny, yw darllen bod trefniadau Antur Waunfawr i gasglu deunyddiau ailgylchu o safleoedd cymunedol yn mynd o nerth i nerth. Erbyn 2002 roedd cynnydd ar y flwyddyn flaenorol o 28% ar bwysau gwydr, 9% ar bapur, a'r cynnydd mwyaf ar ddodrefn.
- - Fred Dibnah, y simneiwr enwog, oedd y gwr gwadd yn agoriad tymor yr haf Rheilffordd yr Wyddfa.
- - Roedd cystadlaethau chwaraeon Tlws yr Eco mor boblogaidd nes bod angen eu rhedeg dros ddwy noson. Bu 12 tîm peldroed ac 8 tîm pel-rwyd yn cystadlu, ac Ysgol Bethel fu'n fuddugol yn y pel-rwyd gyda thlws y peldroed yn dychwelyd i Ddeiniolen.

---

**Gorffennaf 2012**

- Rhifyn 401. Pris yn 50c am 24 tudalen.
- Hanner addewid o gynllun hydro newydd i gynhyrchu trydan gan ddefnyddio twll y Chwarel Fawr ger copa Cefn Du a thwll chwarel Glyn Rhonwy. Roedd cwmni rhyngwladol o'r enw Quarry Battery wedi paratoi cynlluniau manwl er mwyn datblygu'r safle, gan ddefnyddio technoleg debyg i'r hyn a ddefnyddir y tu mewn i'r Elidir yng ngwaith Dinorwig. Fuoch chi yn y cyfarfod cyhoeddus i drafod y cynllun? Pam nad aeth y cynllun yn ei flaen?
- Dathlu o glywed bod S4C wedi dod at eu coed a chytuno i ddarlledu uchafbwyntiau Ras yr Wyddfa. Gwrthodwyd ffilmio'r ras i ddechrau oherwydd bod y dyddiad yn syrthio'r un pryd â dechrau'r Gemau Olympaidd. Newidiwyd dyddiad y ras, ond parhau i wrthod gwnaeth ein sianel - tan y tro pedol, mae'n debyg yn sgil yr anfodlonrwydd cyhoeddus. Da yw gweld bod y ras yn parhau i gael ei darlledu.
- Arwel Lewis o Fethel oedd pencampwr marathon Prydain i redwyr dros 50 oed. Enillodd y teitl mewn ras farathon agored yn Nimbych y Pysgod.
- Ail bencampwr y mis oedd Gareth McGuiness o Lanrug, oedd yn bencampwr beicio ffordd Cymru. Enillodd y gystadleuaeth yn Llanfair ym Muallt mewn ras 57 milltir o hyd.
- Gareth hefyd oedd enillydd yr 'Etape Fawr' mewn amser arbennig o 5 awr, 12 munud a 50 eiliad. Fe gofiwch fod tair ras Etape wedi eu cynnal am sawl blwyddyn - Etape Bach yn 47 milltir, Etape Canolig yn 70 milltir a'r Etape Mawr yn 100 milltir.




## DINORWIG

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n wael eu hiechyd. Bu mis Mehefin fawr o gymorth i godi calon, gan fawr obeithio y daw hindda wedi gwyntoedd cryf ac oerni nos a bore. Hyderaf am dywydd gwell i ddod, a gwellhad i bawb.

**Profedigaeth**
Mae stormydd creulon yn dal i daro teulu Tŷ'r Ysgol. Collodd Mrs Hannah Roberts ei chefnder, Griffith Charles Morris yn 83 oed, un arall o blant yr ardal. Bu'r gwasanaeth yn yr Amlosgfa ym Mangor. Derbyniwch ein cydymdeimlad fel ardal, wedi eich holl brofedigaethau.

**Llwyddiant**
Ni allaf lai na chychwyn y mis hwn heb sôn am lwyddiant Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd yng Nghaerdydd ar y Sul cyntaf o Fehefin. Wedi cyrraedd y tŷ ar ôl bod yn y capel, troi'r teledu ymlaen, a Dafydd Iwan yn barod i ganu "Yma o Hyd". Rhoddodd rhyw angerdd mawr i'r gêm, ac er ei bod yn tywallt y glaw, roedd yn ddechreuad ardderchog i'r noson. Braf oedd clywed y dorf a'r tîm yn canu yn Gymraeg. Daeth y gôl gyntaf yn yr hanner cyntaf, a hynny gan neb llai na Gareth Bale, a hon oedd y gôl enillodd y gêm Wcráin i Gymru. Rhaid hefyd canmol Hennesey, gan iddo chwarae yn wych, ac arbed naw gwaith i gadw Wcráin rhag sgorio. Cafodd Ben Davies a Neco Williams gêm arbennig hefyd, yr olaf yn ddim ond un ar hugain oed. Mae dyfodol llwyddiannus o'i flaen. Ond rhaid canmol pob aelod o'r tîm am gadw Wcráin rhag sgorio tra bod pawb yn gwylio ar ymyl eu seddau. Da iawn bawb am roi Cymru ar fap y byd.

**Y gog**
Dwywaith yn unig y clywais y gog eleni, ac y mae eisoes yn amser iddi ymadael â ni.

***Eisteddfod yr Urdd***
Braf iawn oedd cael dilyn yr eisteddfod ar y radio a'r teledu, a chael gweld a chlywed y gwahanol gystadleuwyr. Llongyfarchiadau i'r rhai a lwyddodd, ond os na ddaeth llwyddiant eleni, peidiwch digalonni. Mae wastad 'y tro nesaf'. Dyfal donc a dyrr y garreg piau hi.

**Y Capel**
Dyma restr oedfaon yr haf:
3ydd Gorffennaf am 3.30PM – Y Gweinidog. 10fed Gorffennaf am 5.00PM – Y Parch Gerallt Evans. 17eg Gorffennaf – Y Gweinidog. 24ain Gorffennaf am 5.00PM – John Roberts. 31ain Gorffennaf am 5.00PM – Y Parch R.O.Jones.
Ni fydd oedfaon yn cael eu cynnal yn ystod mis Awst.
4ydd Medi am 3.30PM – Y Gweinidog. 11eg Medi am 5.00PM – Dr Huw Tegid Roberts.




Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk



## Teyrnged

# Mrs Megan Williams

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Ffordd yr Orsaf, a fu farw wedi gwaeledd byr yn Ysbyty Gwynedd ar 16eg Mai, yn 94 mlwydd oed. Cynhaliwyd angladd preifat i'r teulu ar 26ain Mai, gydag oedfa yng Nghapel y Rhos yn dilyn gwasanaeth ym Mynwent Eglwys Penisarwaun yng ngofal ei mab a'i mab-yng-nghyfraith, y Parchgn Bryn Williams a Dei Rees Roberts, a'r Parchg John Pritchard.

Un o Lanfaglan oedd Mrs Megan Williams yn wreiddiol. Yno y cafodd ei magu, a Chapel y Graig, Llanfaglan oedd ei chartref ysbrydol cyntaf, ac yn y capel hwnnw y dechreuodd chwarae'r organ. (Yn rhyfeddol, roedd wedi dysgu canu piano ar fwrdd y gegin, â nodau piano wedi eu marcio arno gan nad oedd biano yn y cartref). Wedi gadael Ysgol Ramadeg Caernarfon, cafodd swydd ysgrifenyddol ym Mangor, er y gallasai fod wedi parhau â'i haddysg. Yn fuan wedi ei phriodas â Bob Williams, Fron Hywel, Pontrhythallt ym 1948 daeth i fyw i'r ardal hon, i Fron Hywel i ddechrau cyn ymgartrefu yn Tan Gaer. Yno y magodd ei theulu o bump o blant, Carys, Eirian, Bryn, Eleri a Gwen. Wedi cyfnod hir o waeledd, bu farw ei phriod ym 1971. Symudodd hithau'n ddiweddarach i Bron Eryri, lle bu'n hapus iawn hyd y diwedd.

Mae cenedlaethau o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn ei chofio fel ysgrifenyddes boblogaidd yr Ysgol o ganol y Chwedegau hyd ei hymddeoliad. Roedd yn uchel ei pharch yno ymhlith y staff a'r disgyblion. Felly hefyd yng Nghapel y Rhos, lle bu'n aelod ffyddlon a gweithgar, yn organydd, athrawes Ysgol Sul, ysgrifennydd y cyhoeddiadau, ac ers 1981 yn flaenor.

Cafodd ei phlant fagwrfa Gristnogol gyfoethog, ac yr oedd ffydd eu mam yn gadarn a gloyw. Gwerthfawrogai bob cyfle i addoli a phob gweddi, yn y capel ac ar ei haelwyd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ers y Cyfnod Clo cyntaf, ymunodd ag oedfaon a chyfarfodydd gweddi o fwy nag un eglwys trwy *Zoom.* Trysorai'r cyfle a roes *Zoom* iddi gael cydaddoli ag aelodau gofalaeth ei mab Bryn.

Yn gonglfaen ei theulu, bu'n fam a nain a hen-nain gariadus a chadarn. I'w chymdogion a phobl ei hardal, bu'n gyfaill cymwynasgar a charedig. Ac i'w chyd-aelodau yng Nghapel y Rhos, bu'n gefn ac yn esiampl mewn duwioldeb a ffyddlondeb. Mewn gair, roedd yn wraig dduwiol a da. Yn gyson yr un, cadwodd yn ifanc ei hysbryd, yn hardd ei gwedd ac yn gywir ei buchedd. Bu'n ffrind ac yn gefn i lawer, ac yn fawr ei gwasanaeth i achosion da, yn cynnwys blynyddoedd o drefnu casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol yn ardal Llanrug. Roedd ei chefnogaeth i waith yr Efengyl a'i gweinidogion yn fawr. Roedd yn ffrind cywir, a'i gofal am bawb yn ddwfn, yn gywir ac yn gwbl ddiffuant, heb unrhyw ffws na ffwdan ynghlwm wrtho. Yn fwy na dim, wrth gwrs, bu ei gofal yn fawr am ei phlant a'u plant hwythau, a bydd gan y teulu cyfan eu hatgofion melys a chysur y ffydd a'i cynhaliodd hi ar hyd y blynyddoedd.

**John Pritchard**

# Elain yn rhoi £1,000 i Ambiwlans Awyr Cymru

Mae merch ifanc o Lanrug wedi rhoi £1,000 i Ambiwlans Awyr Cymru ar ôl i'w chynlluniau i wirfoddoli mewn ysgol ym Mhatagonia gael eu canslo.

Cafodd Elain Williams,18 oed, ac sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, ei dewis gan yr Urdd i wirfoddoli mewn ysgol gynradd ym Mhatagonia ym mis Hydref 2020. Yn anffodus, cafodd ei thaith ei chanslo oherwydd y pandemig a'i gyfyngiadau.

Er mwyn gwneud taith Elain yn llwyddiant bu rhaid iddi godi arian, a oedd yn cynnwys pacio bagiau yn siop Morrisons, gwerthu dyddiad o ddyddiadur gyda rhodd ariannol i'r enillydd, cynnal bore coffi Dydd Gŵyl Dewi yn Ysgol Brynrefail a gwerthu lluniaeth a raffl yn un o Eisteddfodau lleol yr Urdd.

Roedd Elain wedi codi £1,250 cyn i'r cyfyngiadau ar godi arian a'i thaith gael eu canslo.

Wedyn, cafodd Elain ganiatâd i roi'r arian i elusen a dewisodd roi £1,000 i Ambiwlans Awyr Cymru. Rhoddwyd gweddill yr arian i'r ysgol ac i elusennau lleol eraill.

Dywedodd Elain: "Roeddwn yn siomedig iawn fod y daith wedi gorfod cael ei chanslo oherwydd byddai wedi bod yn brofiad gwych. Roeddwn i'n ffodus iawn o gael fy newis o blith dros 100 o ymgeiswyr. Roedd yn mynd i fod yn drip unwaith mewn oes ac yn rhywbeth roeddwn wedi breuddwydio amdano ers blynyddoedd. Byddai wedi bod yn gyflawniad aruthrol i gael y cyfle i gyfathrebu a gweithio ochr yn ochr â'r diwylliant Cymreig yno.

"Dewisais Ambiwlans Awyr Cymru am fod angen rhoddion arno i allu cynnig y gwasanaeth. Does neb yn gwybod pryd y bydd angen y gwasanaeth hwn arnynt, felly mae'n achos da."

Mae Elain bellach yn cymryd blwyddyn i ffwrdd cyn ystyried mynd i'r brifysgol yn y dyfodol.

Mae Ambiwlans Awyr Cymru yn cynnig gofal critigol uwch a chaiff ei ddisgrifio'n aml fel 'Adran Achosion Brys sy'n Hedfan'. Mae'r meddygon ymgynghorol a'r ymarferwyr gofal critigol yn fedrus iawn, ac yn cario rhai o'r offer meddygol mwyaf arloesol yn y byd. Mae ganddynt y gallu i drallwyso gwaed, rhoi anesthesia a chynnal llawdriniaethau brys ar safle'r digwyddiad, cyn hedfan y claf yn uniongyrchol i gael gofal arbenigol.

Gan fod yr Elusen bellach yn gweithredu 24/7, mae angen iddi godi £8 miliwn y flwyddyn i gadw'r hofrenyddion yn yr awyr.

Cyflwynodd Elain y siec i feddygon Ambiwlans Awyr Cymru yng Ngorsaf Awyr yr Elusen yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

"Gwnes i fwynhau'r ymweliad â'r orsaf awyr ac roedd y staff yn hyfryd iawn ac yn ddiolchgar am y rhodd. Roedden nhw'n barod i ateb unrhyw gwestiynau."

Dywedodd Alwyn Jones, un o Swyddogion Codi Arian Cymunedol Ambiwlans Awyr Cymru: "Rwyf wedi adnabod Elain a'i theulu ers blynyddoedd ac wedi ei gweld o bell yn tyfu i fyny'n ddynes ifanc aeddfed a synhwyrol iawn. Mae hwn yn benderfyniad hyfryd ganddi i ailgyfeirio'r rhan fwyaf o'r arian a godwyd ganddi'n wreiddiol ar gyfer ei thaith i Batagonia i Ambiwlans Awyr Cymru.

"Diolch o waelod calon i ti Elain a phob dymuniad da pan fyddi di'n penderfynu ar dy ddyfodol academaidd/astudiaethau."

Mae sawl ffordd y gall y cyhoedd barhau i gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhoddion ar-lein, ymuno â Loteri Achub Bywydau'r Elusen neu drwy feddwl am eu ffyrdd arloesol eu hunain o godi arian gartref. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.ambiwlansawyrcymru.com.

Fel arall, gellir tecstio'r gair HELI i 70711 er mwyn rhoi £5.






# LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn / e-bost neu alwad personol. Mae'r cyfeiriadau i'w cael o dan Newyddion Llanberis, ar dudalen 2 yr Eco.

Diolch yn fawr.

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w gweld yn yr Eglwys rhwng 10:30AM a 2:00PM o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Gwasanaethau mis Gorffennaf**:
3ydd Gorffennaf, 11AM - Cymun Bendigaid
10fed Gorffennaf, 11AM - Cymun Bendigaid
17eg Gorffennaf, 11AM - Cymun Bendigaid
24ain Gorffennaf, 8 AM - Cymun Bendigaid, 11AM- Gwasanaeth teulu. Croeso i deuluoedd a phlant ymuno â ni am wasanaeth byr gyda chrefftau a lluniaeth.

**Grŵp Pentref Taclus**
Mi fydd grŵp Pentref Taclus Llanberis yn cychwyn casglu sbwriel yn wythnosol o ddydd Sul y 10fed o Ebrill dros gyfnod yr haf. Croeso i bawb ymuno â ni. Mae popeth ar gael i'ch helpu i gasglu.

Cychwyn am 10.00AM o siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr a gorffen yno am 12.00PM, gyda phaned a bisged i orffen.

**Capel Coch:**
Dyma drefn yr oedfaon yn Capel Coch am fis Gorffennaf:

3ydd: Y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor; 10fed: Y Gweinidog; 17eg: Mr Robert Morris, Penygroes; 24ain: Y Gweinidog; 31: Oedfa.

Mae'r Ysgol Sul wedi cyfarfod bob pythefnos dros y misoedd diwethaf a diolchwn i bawb a fu'n helpu i arwain y gwaith hwn. Daw tymor yr Ysgol Sul i ben yn fuan dros yr haf a byddwn yn ail ddechrau wedyn ym mis Medi. Cysylltwch â'r Gweinidog, John Pritchard (01286 872390) i gael manylion am drefniadau'r Ysgol Sul yn ystod mis Gorffennaf.

Byddwn yn croesawu cyfarfod yr haf o Henaduriaeth Arfon i Gapel Coch nos Fawrth, Gorffennaf 12.



**Y Festri**
Dydd Llun diwethaf, gwahoddwyd Thomasine Tomkins, gan fentrau cymdeithasol Llanberis CircoArts a'r elusen Y Festri, i fynychu eu digwyddiad i ddathlu'r Wythnos Wirfoddoli a derbyn gwobr am ei gwaith.

Dywed Thomasine, "Roedd yn anrhydedd fawr i dderbyn gwobr weithredol, noddwyd gan Brif Swyddog Gweithredol Mantell Gwynedd, Bethan Russel Williams. Roeddwn dan deimlad wrth wrando ar araith Bethan amdana i a'r holl waith mae'r Festri a CircoArts wedi ei wneud yn ystod y covid. Trwy gydol y pandemig dyfarnwyd tri grant i ni, a alluogodd ni i gadw mewn cyswllt â'r gymuned. Buom yn cynnal zooms, dosbarthu offer celf a syrcas a chreu prosiectau cyfranogiad cymunedol, oedd yn dathlu natur, ein hamgylchedd, hanes a diwylliant. Roedd yn ostyngedig i weld gwerth Y Festri a CircoArts yn cael ei gydnabod ac yn anrhydedd go iawn i'n timau, a roddodd gymaint o amser mewn i'n cadw ni'n weithredol, felly fe wnaethom oroesi a dod drwyddi'n gryfach."

Dywedodd Bethan Russel Williams, "pob blwyddyn dwi'n cael y fraint i noddi unigolyn ar gyfer y gydnabyddiaeth arbennig i Brif Swyddogion, felly eleni noddwyd Tammy am ei holl waith yn Y Festri ac am sicrhau parhad cyfleoedd creadigol i blant, pobl ifanc ac oedolion."



**Merched y Wawr Llanberis a Nant**
Trefnwyd trip yr Haf ar gyfer mis Mehefin - y trip cyntaf ers sefydlu'r gangen ar ddechrau'r pandemig. Roedd pawb wedi mwynhau ar y gamlas yn Llangollen, a'r haul wedi dod i wenu ar y cwch. Aeth pawb ymlaen wedyn i Gaer i siopa a chrwydro.

Ar ddechrau'r mis hefyd cafwyd y newyddion bod Cangen Llanberis a Nant wedi ennill Tlws Cynnydd Aelodaeth y Gogledd. Mae'r croeso'n parhau i aelodau newydd ymuno. Bydd y cyfarfod nesaf ym mis Medi ar nos Fercher y 7fed yn y Ganolfan, Llanberis.




ECO'r Wyddfa

Cysylltwch â'n
Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

## DEINIOLEN

**Diolchiadau**

Dymuna Rhiannon, 5 Ffordd Marchlyn Caernarfon (Maes Gwylfa, Deiniolen gynt) ddiolch o galon i'w holl deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**


Llongyfarchiadau mawr i Mary Catherine Jones Clwt y Bont ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar Fehefin yr 2il.

**Beiciau Eryri**

Dychwelodd dros gant o feiciau modur i Ddeiniolen ar y 15fed o Fai. Roedden nhw i gyd yno er cof am Hywel Wyn, Garnedd. Cychwynnwyd trafod y digwyddiad cyn Covid-19, pan fu farw Hywel yng nghanol yr anfadwch. Penderfynodd Richard Jones (Jonjo) o Bwyllgor Pentref Deiniolen ac Andy Carson, dyn sydd wedi ei fagu yn y pentref ac sydd hefyd yn rhedeg Clwb Beicio Eryri, gynnal y digwyddiad er cof am Hywel ac ar yr un pryd godi arian at Ysgol Gwaun Gynfi a Chlwb Ieuenctid Deiniolen. Roedd pobl y pentref allan yn eu degau, ella yn eu cannoedd, er mwyn gweld yr holl feiciau modur ac yn ddiolchgar bod rhywbeth gwahanol yn digwydd yn y pentref a phawb yn hapus gan fod Covid-19 wedi rhoi straen ar lawer o ddigwyddiadau yn ystod y pandemig.

Cychwynnodd yr holl feicwyr o'r ysgol ddydd Sul am 11.00AM, gan ddechrau ar daith o dros 90 milltir o gwmpas Eryri, gan ddarfod ym Maes Awyr Caernarfon, gyda phawb wedi cyrraedd yn saff. Bydd y digwyddiad yma'n digwydd pob blwyddyn o hyn ymlaen, oherwydd iddo fod yn llwyddiannus dros ben.







Hoffwn i Jonjo, ddiolch i bawb ar y Pwyllgor Pentra - Deborah, Lyndsey a Sophie a'r holl *marshals* oedd mor barod i helpu ar ein hochor ni o'r pentref a hefyd diolch mawr i Andy Carson o Feicwyr Eryri a'r holl *marshals* oedd ganddo ar y daith. Diolch yn fawr i Eifion Roberts o Feicwyr Llŷn oedd yn help mawr i ni, gan mai hwn oedd y reid gyntaf i gael ei gynnal gan Feicwyr Eryri. Mae Eifion wedi cynnal degau o ddigwyddiadau fel hyn a bu'n andros o help i ni.


Hefyd mawr ddiolch i'r holl noddwyr a phawb wnaeth gyfrannu at y raffl, a hefyd diolch yn fawr i bawb ddaru gyfrannu at y digwyddiad 'r holl bobl brynodd docyn raffl.

Edrych ymlaen at y tro nesa'n barod - gan gofio bydd dau achos da arall yn cael cyfle i dderbyn arian fydd yn eu cynorthwyo.







*Mae Plaid Cymru wedi chwarae rhan amlwg ym mywyd **Phyllis Ellis** o Penisarwaun ers degawdau. Yn ddiweddar fe aeth Glyn Tomos i'w holi am ei chyfraniad oes i waith y Blaid, yn lleol ac yn genedlaethol.*

# OES O WASANAETH I'R BLAID AC I'W CHYMUNED

Mynd yn blentyn gyda'i mam i gyfarfodydd y Blaid yn lleol oedd cychwyn cysylltiad Phyllis Ellis â Phlaid Cymru. Yr adeg hynny, ym mhedwar degau'r ganrif ddiwethaf, plaid wleidyddol yn ei phlentyndod oedd Plaid Cymru, yn ceisio ei sefydlu ei hun fel plaid y gallai pobl ymddiried ynddi a phleidleisio drosti.

Bryd hynny, nid ar chwarae bach oedd rhywun yn cyfaddef eu bod yn aelod o Blaid Cymru, gan fod ardaloedd y chwareli'n driw eu cefnogaeth i'r Blaid Lafur. Wrth iddi fynd i'r bwth pleidleisio gyda'i mam, yr hyn y mae'n ei gofio fel plentyn yw gweld nifer o ddynion yn sefyll o flaen yr orsaf bleidleisio'n gwisgo rosetiau coch, a'u dylanwad yn fawr. Roedd yn ddigon i godi braw ar un oedd mor ifanc.

Unig blentyn y diweddar William Thomas Ellis ac Ellen (Nel) Jones yw Phyllis. Roedd ei thad yn cadw siop gig ym Mona House ar Stryd Fawr, Deiniolen (neu Ebenezer fel y gelwid y pentref hwnnw tan 1926), busnes oedd wedi bod yn nwylo ei dad yntau cyn hynny. Yn ogystal â chadw'r siop mi fyddai'n cludo cig o gwmpas yr ardal yn ei fan. Rhoddodd ei thad y gorau i'r busnes ar ddechrau'r chwedegau. Roedd tair siop gig yn Neiniolen pan oedd ei thad yno, ac mae Phyllis yn cofio ei mam ar nos Wener Cyfrif Mawr yn mynd i fyny i Ddeiniolen i helpu ei thad gan fod y siop yn llawn dop o bobl yn disgwyl eu tro i brynu cig. Ar nos Wener o'r fath byddai holl siopau'r pentref ar agor tan ddeg y nos a'r lle'n llawn bwrlwm a phrysurdeb mawr.

Roedd ei mam, ar y llaw arall, yn dod yn wreiddiol o Niwbwrch, Ynys Môn, a thra'n gweithio fel nyrs ardal yn Neiniolen y cyfarfu ac y priododd â'i gŵr. Fferm o'r enw Coch Hir ym Mhenisarwaun oedd eu cartref, ond pan oedd Phyllis yn un ar bymtheg oed fe symudodd ei rhieni a hithau i Rhos Fair, Penisarwaun, sydd yn gartref iddi hyd heddiw.

Cafodd Phyllis ei haddysg gynradd yn Ysgol Penisarwaun cyn symud i'r ysgol uwchadd, sef yr hen Ysgol Brynrefail. Dal bws bob dydd i'r Ysgol, ond am ba bynnag reswm sydd yn dal yn ddirgelwch hyd heddiw iddi, byddai plant Penisarwaun yn cael eu gollwng ar y ffordd adra yn Glyntwrog, Llanrug gan nad oedd y bws yn mynd i gyfeiriad Penisarwaun. Yr unig ddewis wedyn oedd cerdded y ddwy filltir olaf adra. Ar ddiwrnodau braf, byddai hi ac Enid ei ffrind, oedd yn byw wrth ymyl, yn mynd nôl a blaen ar eu beics i'r Ysgol.

Gyda'i bryd ar fynd yn athrawes, cafodd ei derbyn i Goleg y Santes Fair ym Mangor, ac ar ôl cymhwyso aeth yn athrawes i ysgol gynradd yn Dartford, tua deunaw milltir tu allan i Lundain. Bryd hynny roedd rhaid mynd i ffwrdd o'r ardal i weithio fel athrawes cyn cael swydd dysgu yn ôl yng Nghymru. Bu hi yno am dair blynedd cyn dychwelyd adref yn dilyn marwolaeth ei mam. Cafodd swydd yn Adran Babanod Ysgol



Maesincla, Caernarfon ac yna ei phenodi yn Bennaeth yr Adran honno. Bu'n gweithio yno am 30 mlynedd cyn ymddeol.

Mynd i gyfarfodydd Cangen Llanrug o'r Blaid gyda'i mam fyddai Phyllis, a'r rheiny bryd hynny'n cael eu cynnal yn Isgaer, Llanrug, cartref rhieni Olwen Roberts (Jones ar ôl priodi), a ddaeth yn ddiweddarach yn wraig i J. E. Jones, trefnydd Cenedlaethol y Blaid yn dilyn marolwaeth H. R. Jones. Mae gan Phyllis gof plentyn o glywed enw Emrys ap Iwan am y tro cyntaf yn un o'r cyfarfodydd hyn, ac mae'r atgof hwnnw wedi aros gyda hi ers hynny.

Saunders Lewis oedd arwr ei mam, a'r stori gan y teulu yw mai ef dalodd am dâl aelodaeth cyntaf Phyllis gyda'r Blaid. Tydi Phyllis ei hun ddim yn cofio'r digwyddiad gan mai plentyn bach oedd hi ar y pryd. Ei mam oedd wedi mynd â hi i un o gyfarfodydd y Blaid ac wedi taro ar Saunders, ac yntau'n holi a oedd yr hogan fach wedi ymaelodi gyda'r Blaid.

Cyswllt arall gyda Saunders Lewis oedd bod chwaer mam Phyllis, sef Modryb Margiad, yn byw yn Lerpwl ac yn ffrind i Miss Thomas oedd yn fodryb i Saunders. Hi oedd yn cadw'r tŷ wedi i Saunders golli ei fam. Roedd tad Saunders yn Weinidog yn Lerpwl. Pan symudodd teulu Saunders o Lerpwl i Abertawe i fyw, fe aeth mam Phyllis gyda hwy, gan i'r teulu ofyn iddi eu helpu gyda'r symud, er nad yw'n cofio am ba hyd y bu iddi aros yno. Arferai ei mam aros yn aml gyda'i modryb yn Lerpwl. Y syniad oedd iddi ddysgu cael byw yn bell o'i theulu a gwella ei Saesneg.

Yn ogystal â chysylltiadau ei mam gyda Saunders Lewis, fe chwaraeodd ei thad ran fechan yn ystod ymddangosiad llys y tri yng Nghaernarfon yn dilyn llosgi'r Ysgol Fomio yn Llŷn. Yr hanes oedd bod y dorf mewn rali ym Mhwllheli wedi ceisio ymosod ar y tri, a'r ofn oedd y byddai hyn yn cael ei ail-adrodd yng Nghaernarfon. Er mwyn sicrhau na fyddai hynny'n digwydd, trefnwyd bod ei thad yn parcio'i fan gig ar stryd ochr y Llys yng Nghaernarfon rhag ofn y byddai'n rhaid hebrwng y tri oddi yno ar frys. Fel y digwyddodd nid oedd angen y fan gan i'r tri gael eu cario o'r llys yn fuddugoliaethus ar ysgwyddau'r dorf.

Ar ôl dychwelyd o Lundain i Benisarwaun, ail ymunodd Phyllis gyda Changen y Blaid yn Llanrug a dod yn Ysgrifennydd y Gangen. Yna yn 1967 daeth yn ysgrifennydd Pwyllgor Etholaeth Arfon. Cafodd ei pherswadio i ymgymryd â'r swydd hon gan y Parchg John Price Wynne ar ôl iddo gynnig teipio'r cofnodion ar ei rhan gan nad oedd gan Phyllis deipiadur ar y pryd. Bu iddi aros yn y swydd tan y penodwyd Trefnydd Llawn Amser i'r Blaid yn Arfon. Mae Phyllis hyd heddiw'n parhau yn aelod o Bwyllgor Etholaeth Arfon. Yna, ym 1972 cafodd ei dewis yn Llywydd Cenedlaethol Merched y Blaid, oedd yn golygu wedyn bod ar Bwyllgor Gwaith y Blaid. Arhosodd yn y swydd hyd nes y penderfynwyd flynyddoedd yn ddiweddarach i ddod â'r swydd i ben.

Ym 1974 cafodd ei hethol fel aelod Plaid Cymru ar Gyngor Plwyf Llanddeiniolen, y ferch gyntaf i wneud hynny. Ar y pryd, roedd dwy sedd y Cyngor yn Penisarwaun yn nwylo'r Blaid Lafur, ond gyda llwyddiant Phyllis daeth y traddodiad hwnnw i ben. Am flynyddoedd, hi oedd yr unig ferch ar y Cyngor, ond erbyn hyn, merched sydd yn y mwyafrif. Bellach mae hi wedi bod ar y Cyngor ers 48 o flynyddoedd.

Ar ôl iddi ymddeol o ddysgu bu'n ymddiriedolwr ar Fwrdd Rheoli Nant Gwrtheyrn, yn ddirprwy drysorydd cenedlaethol y Blaid ac yn Gadeirydd Pwyllgor Llywio'r Gynhadledd a Chynrychiolydd Talaith y Gogledd. Hi tan ychydig fisoedd yn ôl oedd Cadeirydd y gangen leol.

Yr hyn sydd wedi rhoi'r pleser mwyaf iddi dros y blynyddoedd yw gweld llwyddiannau'r Blaid ar sawl lefel o Lywodraeth – Senedd Cymru, San Steffan, Cynghorau Sir a Chymuned. Yn ogystal, mae'n falch o weld lleihad mawr yn y cecru chwerw a'r gwenwyn cyson a aferai fod rhwng y Blaid a Phlaid Lafur am flynyddoedd. Bryd hynny, roedd unrhyw fater a godai'r Blaid am y Gymraeg yn cael ei ystyried yn rhy boliticaidd os nad oedd yn dod o du'r Blaid Lafur.

Heb os, mae'n cyfrif buddugoliaeth etholiadol hanesyddol cyntaf Gwynfor Evans ym mis Gorffennaf 1966 fel uchafbwynt, ac yna llwyddiant Dafydd Wigley fel Aelod Seneddol Cyntaf y Blaid yn Arfon. Dywed fod Robyn Lewis yn anad neb wedi cyfrannu tipyn at ddenu pleidleisiau i'r Blaid cyn y fuddugoliaeth yn Arfon gan iddo gyflwyno trefn o ran canfasio a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus.

Er ei chyfraniad mawr i'r Blaid, nid yw Phyllis yn barod eto i eistedd nôl. Ei bwriad yw sefyll unwaith yn rhagor fel aelod ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen ym mis Mai eleni, a pharhau i wasanaethu ei chymuned a'r Blaid yr un mor anrhydeddus ag y mae hi wedi'i wneud trwy gydol ei hoes.

# Ysgol Brynrefail





**Lansiad Dathliadau Hannercanmlwyddiant yr Amgueddfa**

Aeth cynrychiolwyr dosbarth blwyddyn 7 i lansiad dathliadau hannercanmlwyddiant Amgueddfa Lechi Llanberis ar ddiwedd mis Mai. Roedd hyn yn dilyn wythnosau o gydweithio rhwng disgyblion blwyddyn 7 a'r Amgueddfa mewn gwersi Cymraeg a Chelf. Uchafbwynt y lansiad oedd fideo yn dangos eu gwaith celf arloesol gyda'r ffotograffydd - a'r cyn-ddisgybl - Rhys Grail, a chyflwyno cymeriad newydd sbon Wil Ffitar, a grëwyd gan holl ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Brynrefail mewn cyfres o weithdai yn ystod tymor y Gwanwyn. Roedd y ganmoliaeth i waith y disgyblion yn sylweddol, a'r modd y bu iddynt ymddwyn yn glod i'r ysgol.

## Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Roedd hi'n fendigedig bod Eisteddfod yr Urdd yn ei hôl ar ôl blynyddoedd llwm y pandemig. Teithiodd sawl un o'r ysgol draw i safle braf yr eisteddfod yn Nyffryn Clwyd i gystadlu. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol ar eu llwyddiant: Martha Nel 1af – Unawd Chwythbrennau bl.7,8 a 9

Mared Haf 1af Llefaru Unigol dan 19eg oed

Martha Nel a Nanw Llwyd yn 1af ar y Ddeuawd Offerynnol dan 19eg oed Parti Llefaru blynyddoedd 7, 8 a 9 wedi dod yn 3ydd.

Diolch i chi am eich gwaith caled i sicrhau eich bod yn cyrraedd y brig!

Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Lewis a Miri Siôn o flwyddyn 8 ar eu llwyddiant yn y cystadlaethau Celf a Chrefft. Mae Siôn yn dipyn o ffotograffydd a chafodd Miri lwyddiant ym maes ffasiwn a gemwaith. Hefyd, llwyddodd chwaer fawr Siôn, Elain sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 11, i ennill dim llai na 5 gwobr ffotograffiaeth! Da iawn chi!







**Gardd Ysgol Brynrefail**

Mae llawer o sôn ar hyn o bryd am bwysigrwydd garddio i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Yn dilyn ceisiadau gan y disgyblion trwy'r Cyngor Ysgol rydym yn raddol yn ystod y flwyddyn yma wedi bod yn gweithio ar ddatblygu garddio yn yr ysgol. Mae Mr Alun Pritchard a rhai o ddisgyblion yr Hwb wedi bod yn gweithio'n galed yn y lle cyntaf i ddatblygu gardd fechan mewn cwad yng nghanol yr adeiladau Technoleg gan ddefnyddio dim byd ond deunyddiau wedi eu hailgylchu i ddal y blodau a'r planhigion a blannwyd ganddyn nhw.

Yn fwy diweddar penderfynodd Mrs Catherine Bailey ddatblygu'r prosiect garddio ymhellach gan atgyfodi'r ardd oedd yn arfer bod gennym wrth ochr y Neuadd ond wedi tyfu'n wyllt. Dros wyliau'r Pasg daeth criw o ddisgyblion a gwirfoddolwyr at ei gilydd am ddeuddydd i gael trefn ar yr ardd honno a'i pharatoi ar gyfer plannu blodau a chnydau yn nhymor yr haf. Mae lluniau ohonynt yma wrthi'n brysur gyda'r gwaith. Ers gwneud y gwaith cychwynnol yma mae Clwb Garddio Ysgol Brynrefail wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod unwaith yr wythnos i barhau'r gwaith. Eisoes mae'r ardd yn ffynnu! Diolch i bawb am eu gwaith caled yn datblygu'r gwaith garddio yma yn yr ysgol.







### Hysbysfwrdd y Capel

Er i'r Eglwys Bresbyteraidd yma ym Mrynrefail uno â Chapel y Rhos, Llanrug yn ddiweddar, dymuniad yr aelodau oedd peidio â thynnu i lawr yr Hysbysfwrdd a fu yn sefyll am saith deg o flynyddoedd – hanner cant a thair ohonynt tu allan i adeilad y Capel ac ers 2005 ger mynedfa Caban lle bu'r aelodau yn addoli am ddwy flynedd ar bymtheg.


Ni fu Hysbysfwrdd o flaen y Capel cyn yr un arbennig hwn. Cafodd ei osod yno yn 1952, yn fuan wedi dyfodiad y diweddar Barch. Glyn Meirion Williams yn weinidog ar yr Eglwys a'i enw ef oedd y cyntaf i ymddangos arno ac yn ddiweddarach bedwar o Weinidogion a'i dilynodd i wasanaethu'r Eglwys hyd 2021.

Y ffaith hynod ar y pryd oedd na wyddai neb pwy fu'n gyfrifol am ei wneuthuriad a'i osod o flaen y Capel. Bu'n ddirgelwch am beth amser pwy gyflwynodd y rhodd hardd hon i'r Eglwys.

Ai cywir yw tybio, pan gafwyd rhyw achlust flynyddoedd yn ddiweddarach, mai rhodd y diweddar Elisabeth Jones, Llwyn Helyg fu'r Hysbysfwrdd? Y dŷb oedd yn ôl y sôn mai aelod o'i theulu hi a oedd yn grefftwr mewn gwaith coed a'i creodd, a'r deunydd yn amlwg o ansawdd a gwneuthuriad arbennig i'r hysbysfwrdd oroesi'r holl flynyddoedd.

Tybed a oes rai o'i disgynyddion yn yr ardal yn gallu cadarnhau a datgelu'r gyfrinach?


Erbyn hyn, mae'r arysgrif wedi ei hail–ddylunio unwaith yn rhagor i adlewyrchu parhad ein tystiolaeth Gristnogol ac i gyfleu'r arwydd o bresenoldeb yr Eglwys Bresbyteraidd yma yn ein plith.




### Sefydliad y Merched

Yng nghyfarfod mis Mai cawsom drafod yr argymhellion fydd gerbron Cyfarfod Blynyddol Cenedlaethol Sefydliad y Merched a gynhelir eleni yn Lerpwl. Croesawyd ein Llywydd Pat Jones a dymuno yn dda iddi ar ôl ei llawdriniaeth. Darllenwyd llythyr y mis a thrafod ein Trip Blynyddol fis Mehefin a fydd yn ddiwrnod yn Tweed Mill, Llanelwy gyda phryd o fwyd. Gêm o Bingo a gafwyd gweddill y noson gyda'r gwobrau hyfryd ar y thema Blodau Mis Mai – diweddglo hwyliog gyda Nicola yn galw a phaned a theisen wedi eu paratoi gan Janice a Sheila.

Gair i atgoffa hefyd am y Gwerthiant Crefftau a drefnir gan Sefydliad Brynrefail yn y Ganolfan Llanberis 23ain Gorffennaf a'r gwahoddiad i unrhyw un i osod bwrdd i werthu eu cynnyrch am y gost o £10.00. Cysyllter â Carol Houston 07867 630730/e-bost houston336@btinternet.com neu Pat Jones 07881 960558 e-bost cae.coch@btinternet.com



### Priodas

Llongyfarchiadau i Bethan Williams, Meini Gleision a Dyfrig Williams o Gaergeiliog, Ynys Môn ar eu priodas yn Nant Gwrtheyrn yn ddiweddar.

Maent wedi cartrefu yn Llangefni, Ynys Môn.

Pob hapusrwydd ac iechyd da i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

## YR ALLT DDU

**At ddôr y ponciau drwy'r Allt Ddu, – beunydd**
**bu henwyr yn camu'n**
**igam-ogam rhag llwgu;**
**er peswch llwch, to i'r llu.**

**Richard Lloyd Jones**

# BETHEL A SEION

**Cydymdeimlo**
Yn Ysbyty Gwynedd wedi salwch hir bu farw Beryl Elizabeth Parry, Hafod Elen, Saron. Roedd Beryl yn wraig i'r diweddar Dafydd, mam a 'chwaer fawr' amhrisiadwy i Delyth a Carys, a nain a hen-nain ofalus i'w hwyrion a'i hwyresau. Roedd yn un o hoelion wyth Saron a Chapel Saron dros sawl blwyddyn. Yn rhyfeddol, yn Hafod Elen y ganwyd Beryl hefyd. A chanddi ddawn gwnïo, bu'n gweithio mewn nifer o ffatrïoedd yn ardal Caernarfon a hefyd am gyfnod gyda'i chwaer Mona yn Ysgol Bethel.

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Buddug Hughes, Vaynol Cottages, Llanberis a fu farw yng nghartref ei merch a'i mab yng nghyfraith Glenda a Gwyndaf yn 7, Stad y Rhôs, Bethel.

Danfonwn ein cofion at Brian Sharpe, Ael y Bryn.

**Amlygu hen gŵyn**
Oherwydd tyfiant, rhoddwyd ail doriad i lwybr Tan y Ffordd. O wneud y gwaith, amlygwyd unwaith eto mai dyma lwybr poblogaidd o hyd i wasgarwyr baw cŵn. Oes, mae biniau yno; ond i be'? Ai colli'r frwydr yn gyfan gwbl yw peidio â sôn am yr un hen broblem o fis i fis, a derbyn bellach fod rhai perchnogion cŵn heb unrhyw barch tuag at eu cyd-bentrefwyr?

**Oedfaon Gorffennaf**
**Cysegr**: 3ydd: Dorothy Williams; 10fed: Huw Tegid Roberts; 17eg: Y Parchg. Eric Jones; 24ain: Undebol yng Nghapel y Rhos.
**Saron :** 3ydd: Arwel Williams; 10fed: Ellie Jones; 17eg: Robert Morris; 24ain: Richard Gillion (S)
**Bethel**: 3ydd: Y Parchg. Ioan Gruffydd; 10fed: Huw Tegid Roberts; 24ain: Donald Pritchard
Ni fydd gwasanaethau'n cael eu cynnal yn y Cysegr, Saron na Chapel Bethel yn ystod mis Awst eleni.







**Eisteddfod yr Urdd**
Fuoch chi yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych, neu buoch chi'n dilyn gwasanaeth arbennig S4C yn ddyddiol o'r Maes? Oedd y dulliau newydd di-ragbrawf yn plesio? A'r seremonïau yn yr awyr agored? Bydd llawer ohonom yn trysori profiadau Eisteddfod y Canmlwyddiant. A'r torfeydd o 120,000? Anhygoel. Cafwyd grant o hanner miliwn o bunnoedd oddi wrth Lywodraeth Cymru er mwyn medru cynnig mynediad am ddim i'r Maes. Gobeithio y pery hyn, yn enwedig pan fydd yr Eisteddfod mewn ardal lai Cymreig ei hiaith. Manteisiwn ar y cyfnod yma – mewn sawl maes – lle daeth Cymru a Chymreictod i sylw ehangach.

Ac oedd, roedd dau ddisgybl o Ysgol Bethel yn rhan o'r llwyddiant. Fel trwbadŵr go iawn, fe fentrodd Ollie Fraser Jones i'r llwyfan dawns disgo / hip hop. Â'r wên yn llenwi'r wyneb, dawnsiodd yn egnïol ac ysgafndroed i gipio'r fedal aur a'r clod haeddiannol.

Yn yr adran Gwaith Cartref, daeth gwobr gyntaf ac ail i Lleucu Evans yn yr adran Tecstilau. Gwelir rhan o'i gwaith yn y darlun atodol.

Llongyfarchiadau Ollie a Lleucu. Ie, BGT: *Bethel's Got Talent*.

**Adran yr Urdd**
Ar nos Wener yr 20fed o Fai, cafwyd noson Bingo hwyliog o dan ofal Einir a Gwenno. Cafodd pawb noson dda, a rhai yn lwcus iawn o ennill! Diolch yn fawr, Einir a Gwenno.

Llongyfarchiadau mawr i Olly am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth ddawnsio Bl 6 ac iau. Rydan ni i gyd yn falch ohonot ti, ynghyd â Greta a Lleucu hefyd. Roedden nhw yn fuddugol ar nifer o gystadlaethau Celf a Chrefft. Da iawn chi!

Ni fu llwyddiant i'r parti Cerdd Dant, ond cawsant fwynhau'r profiad o fod ar y llwyfan yn y Babell Goch.

Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth barod ac i gangen Merched y Wawr am eu rhodd garedig. Bwriadwn gynnal dwy noson eto cyn diwedd y tymor, un noson chwaraeon ac un noson Cwis. Felly, gobeithio gweld cefnogaeth dda i'r ddwy! Bydd y manylion yn dilyn.

**Merched y Wawr**
Bore Mercher, Mehefin 8fed, ymunodd aelodau a ffrindiau'r Gangen ar y daith i Lerpwl – taith i gloi gweithgareddau'r Gangen am y flwyddyn. Ein harhosiad cyntaf oedd yn Oriel Lady Lever yn Port Sunlight. Roeddem wedi gwirioni at y pentref hynod a adeiladwyd gan William Lever o 1888 ymlaen ar gyfer gweithwyr y ffatri sebon a sefydlodd. Ei weledigaeth oedd creu pentref addas i'w weithwyr. Roedd dŵr poeth ac oer yn y tai, ystafell ymolchi, a dwy neu dair ystafell wely. Yn y pentref adeiladwyd ysgol, eglwys, theatr, neuadd bentref, pwll nofio allanol a dan-dô, ysbyty bach a gorsaf drenau. Braf oedd mynd heibio'r ysgol a gweld plant allan yn chwarae ar yr iard o hyd.

Cafodd pawb gyfle i weld y llun enwog 'Salem', a gomisiynwyd gan Lever ac a beintiwyd gan Sydney Curnow Vosper yn 1908. Roedd amryw yn cofio gweld print o'r llun yng nghartref rhieni neu nain a taid ers talwm. Yng Nghymru, rhannwyd y lluniau wedi i'r bobl hel talebau wrth brynu'r 'Sunlight Soap' ac yna



cael y print gan y cwmni.

Ymlaen wedyn ar y bws i Woodside ger Birkenhead, lle cawsom daith hyfryd i fyny ac i lawr ar y fferi sy'n croesi Afon Merswy. Yna glanio yn y Pier Head yn ninas Lerpwl. Amser braf am gwpwl o oriau i siopa yn y ddinas cyn cychwyn adref. Diolch arbennig i Derek y gyrrwr, ac i gwmni Arvonia am eu gofal a'r trefniadau.

Diolchodd Anne Elis i'r aelodau am eu ffyddlondeb i holl weithgareddau'r flwyddyn, a diolchodd hefyd i Gyngor Gwynedd ac i Gronfa'r Loteri Genedlaethol am y grant wnaeth ariannu'r wibdaith yma a'r Bore Coffi Gŵyl Ddewi.

Cyhoeddwyd fod Taith Gerdded yn cael ei threfnu gan y Pwyllgor Rhanbarth ar Orffennaf 5ed. Bydd y daith yn ymlwybro o Lanberis am 1.00PM, i Ben Llyn a chael paned yn y Caban ym Mrynrefail. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Liz, Gwyneth neu Anne erbyn Mehefin 30ain.

Llongyfarchwyd Anita, sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis. Dymunwyd yn dda i Mair Price a'i thîm wrth drefnu gweithgareddau'r tymor nesaf. Diolchwyd hefyd i Rhianwen, Pat ac Olwen am eu cyfraniad i'r Raffl. Mae ein diolch yn fawr i Jen am dynnu'r holl luniau ym mhob gweithgaredd a'u harddangos ar wefan Merched y Wawr, Bethel.

[Diolch i chwi fel Cangen am adroddiadau cynhwysfawr, amrywiol a hynod ddiddorol dros y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at dymor 2023. Gol. Pentref.]





**Wythnos Mish-Mash Mehefin**
Unwaith eto, bu Pwyllgor Mish-Mash a'u cefnogwyr yn darparu fflyd o weithgareddau. Roedd edrych ymlaen mwy nag erioed eleni, gyda'r mwyafrif o rwystrau cymdeithasu Covid wedi eu rhoi i un ochr. Unwaith eto, cafwyd amrywiaeth o weithgareddau'n apelio at bob oedran.

Dechreuodd y rhaglen ar y nos Fercher gyda sesiwn Bingo yn y Neuadd. Ar y nos Iau, roedd un o uchafbwyntiau arferol yr wythnos, sef Ras Bethel 7K o gwmpas y Felinheli ac yn ôl i Fethel. Yn anffodus, roedd y dyddiad ar adeg anghyfleus eleni gan fod Ras Nantlle ar nos Fawrth a Ras 5K Llanrug y noson ganlynol. Cafwyd cefnogaeth dda i'r ddwy ras yma, ond ni chaed cefnogaeth arferol y clybiau eleni ym Methel. Dim ond 15 ddaeth i'r llinell gychwyn ym Methel. Braf oedd gweld tri o'r ffyddloniaid, Arwel Lewis, Dafydd Emrys ac Iwan Morris yn herio'r gelltydd a'r gwynt unwaith eto. Hefyd yn rhedeg roedd Riley O'Donnell (Bl.7) a Llyr Elwyn (Bl.8). Fe gwblhaodd y ddau'r cwrs heriol mewn amseroedd yn y tri degau cynnar o funudau. Roedd Iwan Morris eto eleni wedi denu nifer parod o noddwyr. Llwyddodd i godi dros £1000, a chaiff yr arian hwn ei rannu rhwng elusennau lleol. Mae Iwan a'r teulu'n diolch i bawb am eu nawdd hael eto eleni. Daeth criw mwy niferus i gystadlu yn y ras filltir o gwmpas y pentref i blant. Diolch arbennig i'r cefnogwyr ffyddlon fu'n stiwardio'r ras.

Roedd dau ddigwyddiad yn ein haros ar y dydd Gwener. Yn y prynhawn, o 12.30PM ymlaen cynhaliwyd Tê Pnawn i'r oedran 60+. Roedd cryn edrych ymlaen at y danteithion a'r cyfle am glonc



a sgwrs hamddenol dros baned. Y mae i'r gair 'gwledd' sawl ystyr, ac ar wahân i'r danteithion bwyd cawsom ein diddori gan dalentau naturiol rhai o ddisgyblion yr Ysgol Gynradd. Diolch i Gwion Owen, y staff a'r disgyblion am eu parodrwydd i'n diddanu. Cafwyd parti llefaru, cerdd dant, dawnsio gwerin a dull dysgu cyfleu stori ar lafar ac ysgrifenedig gan ddefnyddio symbolau coffa. Dull diddorol iawn o ddysgu. Ac roedd ein cyhyrau ni'r hen begors yn gwichian dim ond wrth wylio Olly yn mynd drwy ei gampau yn y dawnsio disgo.

Gyda'r nos, daeth y grŵp 'noson lawen' Tri Gog a Hwntw yn ôl i'n diddori, a chafwyd noson hwyliog braf fel arfer.

Diwrnod yr Orymdaith oedd y Sadwrn. O 12.00PM bu llawer o bob oedran yn eu gwisgoedd ffansi creadigol yn ymlwybro o'r Ysgol i lawr i'r Neuadd ar gyfer beirniadu'r gwahanol gystadlaethau. Ynghyd â'r gwisgoedd unigol, roedd hefyd gystadlaethau addurno beics a phramiau. Roedd rhai cystadleuwyr yn dangos cryn ddychymyg.

I gloi'r gweithgareddau, am 2.00PM bnawn Sadwrn cynhaliwyd Gig Mish-Mash gydag Elis Derby a'r grŵp hynod boblogaidd Gwilym ymysg y rhai oedd yn diddanu.




**Achlysur**
Ddechrau'r mis cafodd carfan bêl-droed dan 9 Bethel wahoddiad i ymweld â chyfleusterau gwych Academi C.P.D. Lerpwl yn Kirkby. Roeddent yn chwarae cyfres o gemau yn erbyn carfan dan 9 Lerpwl. Mewn cyfres o 4 gêm yn erbyn Academi Lerpwl enillwyd o 12 gôl i 9 gôl ar gyfanswm. Yna, curo tîm o un o ardaloedd Glannau Merswy o 5-0.

Un a fydd yn cofio'r achlysur yw Logan, a sgoriodd 6 gôl dros gyfnod y gemau. Braidd yn ifanc am Qatar, ond pwy a ŵyr am y dyfodol? Da iawn nhw; a stop yn McDonald's yn wobr ar y ffordd adref. Efallai i rai ohonoch gofio rhyw 30+ mlynedd yn ôl i lond bws o glwb ieuenctid pêl-droed Bethel a'u rhieni fynd draw i chwarae yn erbyn timau Man City, a mynd i wylio gêm yn yr 'hen' Maine Road wedyn. Wel, does ond un peth ar ôl – Bethel i Ewrop!

**Ymddeoliad Hapus**
Gwawr cynnar golau, gwyntoedd cryf a chawodydd trymion. Côr y Wig a fan John Llefrith. Dyma fu cloc larwm nifer ohonom ym Methel ers sawl blwyddyn. Wedi blynyddoedd o wasanaeth a sawl sgwrs stepan drws ar nosweithiau Gwener 'setlo mawr', mae John Williams, Bryn Difyr wedi penderfynu ymddeol. Diolch iddo am ei wasanaeth; a mwynha dy ymddeoliad, John.

**Cofiwch!**
Wedi'r rhifyn hwn ni fydd cyhoeddiad eto o'r Eco tan rifyn Mis Medi. Rwy'n siŵr y cytunwch fod y golygyddion penigamp yn haeddu hoe fach cyn cydio yn yr awenau unwaith eto. Mwynhewch chwithau'r haf, a chadw unrhyw stori i'w chyhoedd ym mis Medi.

Tafarn Y Glyntwrog Llanrug
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser

671191

**Gohebydd Pentref**
O'r diwedd, braf cael dweud fod gohebydd i'r pentref wedi dod ymlaen. Gyda diolch o galon i Ffion Orwig am gymryd y dasg ond hoffwn innau ddiolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth a gefais dros lawer iawn o flynyddoedd, ond yn awr, braf eistedd yn ôl a darllen yr Eco heb boeni chwilio am newyddion!

Dyma fanylion Ffion fel cyswllt, ond cofiwch y byddaf ar gael os fyddwch wedi anghofio lle i anfon eich newyddion!

Ffion Orwig, Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Leah a Phil Lynes, Glanffynnon ar enedigaeth Elsa Gwyn. Mae Nain a Taid Llanrug wedi gwirioni wrth groesawu wyres fach newydd – mwynhewch Albert a Carol Lynes, Tŷ Newydd a Nain a theulu Bethel.

**Profedigaeth**
Yn sydyn iawn, bu farw Tony Jones, 21 Glanffynnon yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i Beryl, ei wraig, y plant a'r wyrion a'r wyresau. Trist iawn, bydd colled enfawr i chi gyd fel teulu a ffrindiau.

Wedi gwaeledd hir, bu fawr Selwyn Hughes, 2 Gwêl Fynedd. Cydymdeimlwyn yn fawr ag Ellen ei wraig a'r plant i gyd. Colled iddynt ynghyd â'i ffrindiau triw.

Cofiwn yn ddiffuant am Carrie Owen, Tŷ Fry, a fu fawr ym Mhlas Pengwaith tra yn cael gofal ysbaid yno. Dymunwn gofio at Dewi, Manon a'u teuluoedd a'i brodyr a'u teuluoedd i gyd. Bydd colled fawr iddynt ac i'r Capel, Hafan Elan a Merched y Wawr.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Ffordd yr Orsaf a fu farw, yn 94 mlwydd oed, ar Fai 16eg wedi cyfnod byr o waeledd. Bydd colled enfawr ar ei hôl yng Nghapel y Rhos ac yn y gymdogaeth.

**Digwyddiadau ym mis Gorffennaf**
Dyma'r digwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer mis Gorffennaf gyda'r elw yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023.

**Taith Gerdded** ar gyfer Pawb o bob oed Brynhawn Sul, 3ydd Gorffennaf bydd taith gerdded hanesyddol o dan arweiniad Gareth Roberts yn cychwyn o gae chwarae Pwll Moelyn am 2 o'r gloch. Y tâl am ymuno â'r daith fydd £3 y pen gyda phlant o dan 12oed yn cael ymuno yn ddi-dâl.

**Dewch am dro i Ardd Bethanne**. Ar ddydd Mawrth 12fed Gorffennaf, os bydd y tywydd yn caniatau, bydd Bethanne Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf yn agor ei gardd ar gyfer ymwelwyr o 10 y bore hyd at 4 o'r gloch y prynhawn. Sylwer mai 12fed Gorffennaf yw'r dyddiad cywir ac nid 14eg Gorffennaf fel yr ymddangosodd yn rhifyn mis Mehefin o'r Eco. Y tâl mynediad fydd £3 y pen.

**Arwerthiant o Ddillad Ail-law**. Cynhelir sêl ddillad yn y Sefydliad Coffa ar ddydd Sul, 17eg Gorffennaf o 12 hyd at 5 o'r gloch a bydd paned ar gael hefyd. Os oes gennych ddillad i'w rhoi yn y sêl cysylltwch â Donna Taylor ar 07789 738 649 ac mae Donna yn barod i gasglu dillad gennych hefyd. Bydd gwir angen dillad babanod a phlant bach a bydd croeso i ddillad ar gyfer rhai o bob oed. Bydd yn gyfle hefyd i rai ohonoch ddod a dillad ysgol a chofiwch fod posibl cyfnewid.

**Sioe Ddawnsio.** Cynhelir sioe ddawnsio yn Theatr Seilo, Caernarfon ar nos Fawrth, 26ain Gorffennaf. Bydd nifer o ferched ifanc ardal Llanrug yn cymryd rhan a bydd cyfran o elw'r noson yn mynd at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023.

Cofiwch ddilyn tudalen gymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.

**Carrie**
(Teyrnged gan ei brawd, Gwilym Morris Jones)
Yn dawel ar Fai 23, yng nghartref gofal Plas Pengwaith, bu farw Carrie Prys Owen, Tŷ Fry, Ffordd yr Orsaf yn 88 oed. Priod annwyl y diweddar Evan Owen; mam addfwyn Dewi a Manon; mam-yng-nghyfraith Hollie a Geraint; nain a hen nain garedig Gethin, Lowri, Lois, Betsan, Gareth, Sian, Elsi, Nansi, Madog, Gwyn, Eban a Twm.

Ganed Carrie ar Orffennaf 7fed, 1933, yr hynaf o bump o blant John a Mary Awstin Jones, Penrhos, Waunfawr, perchnogion becws a siop yn y pentref. Roedd yn chwaer i Rheon, Gwilym a'r diweddar Sion ac Eluned. Pan oedd yn flwydd oed, symudodd y teulu o'u cartref yn Nhŷ Gwyn, Waunfawr i'w cartref newydd ym Mhenrhos yng nghanol y pentref a bu fyw yno hyd ddydd ei phriodas ag Ifan yn 1959.

Derbyniodd Carrie ei haddysg yn Ysgol Gynradd y Waunfawr ac Ysgol Ramadeg Syr Hugh Owen, Caernarfon. Wedi gadael ysgol, aeth i Goleg Hyfforddi Wrecsam i astudio cwrs arlwyaeth, ac ar ddiwedd tymor 1952, enillodd gwpan arian am y gwaith gorau yn ystod y tymor.

Gyda phrysurdeb y becws a'r siop yn cynyddu dychwelodd adre i ymuno â'r teulu i helpu ac ysgwyddo'r gwaith caled o bobi bara a gwneud teisennau. Byddai'r archebion am wahanol fathau o deisennau'n cyrraedd yn rheolaidd, ac yn aml gwelid teisen benblwydd neu deisen briodas wedi ei harddunо'n hardd ganddi ar fwrdd y becws.

Yn ystod y pumdegau cynnar ymunodd â chwmni drama'r diweddar William Vaughan Jones (Wil Fôn) gan gymryd rhan a serennu mewn nifer o berfformiadau. Roedd Cwmni Drama Waunfawr ym mhedwar a phumdegau'r ganrif ddiwethaf yn un o'r cwmniau mwyaf llewyrchus a llwyddianus yng Ngogledd Cymru, a dramau fel 'Brwyn ar Gomin', 'Cyw o Frid', 'Dwylo Blewog', 'Y Merlyn Main', 'Y Saeth Coch' a 'Y Nogio ym Mhenygarn' yn hynod boblogaidd. Gwelid llawer o festrioedd a neuaddau ymhell ac agos yn orlawn cyn agor y llenni. Byddai Carrie wrth ei bodd yn ymweld â'r lleoliadau hyn, yn enwedig Aberdaron lle byddai'n manteisio ar y cyfle i "fynd am ryw dro bach ar hyd y traeth i ymlacio ychydig cyn camu ar y llwyfan!"

Bu am flynyddoedd yn organydd yng Nghapel Bethel, Waunfawr, ac yn ogystal â'r gwasanaethau ar y Sul byddai'n canu'r organ mewn priodasau ac angladdau. Ambell waith yn ystod yr wythnos, byddai (chwedl hithau) "yn picio draw i'r capal i gael rhyw bractis bach yn barod ar gyfer y Sul!"

Un o'i hoff bleserau oedd bod yng nghwmni aelodau Clwb Pobl Ifanc y Waunfawr dan arweiniad y gweinidog, y Parchg Harri Williams, Bryn Teg. Byddai'r criw hwyliog yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod yr haf i grwydro'r fro i astudio byd natur ynghyd â gwrando a cheisio adnabod sŵn yr adar yn canu. Yn ystod y daith byddai'r




SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

criw'n ymgynnull yn un o'r caeau cyfagos i gael picnic a gwrando ar y gweinidog yn esbonio ac enwi rhai o'r planhigion a'r blodau gwyllt.

Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, cyfarfu â'i darpar ŵr, Evan Owen. Un o Benisarwaun oedd 'Ifan Cae Corniog' fel ei hadwaenid, a deuai i weld Carrie yn y Waun ar glamp o foto-beic Aerial, GCC 590, a golygfa gyfarwydd fyddai'r ddau ar yr Aerial yn gwibio drwy'r pentref – Ifan wrth y llyw a Carrie ar y piliwn yn gafael yn dynn am ei ganol, a'r cwlwm 'headscarf' dan ei gên yn bygwth datod a hedfan i'r awyr!

Priodwyd Ifan a Carrie yn 1959. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Salem, Betws Garmon, a'r wledd yn dilyn yn hen Ysgol Salem y Betws yng nghwmni aelodau'r teulu a nifer o ffrindiau. Yn dilyn y briodas, ymgartrefodd y ddau am gyfnod yn Hafod-y-Rhug, tŷ fferm gyfochrog â chartref John ac Elena Jones. Roedd Carrie ac Elena'n gyfnitherod ond yn fwy na dim yn ffrindiau pennaf, ac yn ôl Carrie yn fwy fel dwy chwaer na dim arall.

Wedi cyfnod yn yr Hafod, symudodd y ddau i'w cartref newydd yn Nhŷ Fry, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ganwyd eu plentyn cyntaf Dewi ym mis Mai 1960, a'u hail blentyn Manon ym mis Mai 1964. Ymhen amser wedi cyfnod o fagu'r plant, dychwelodd i weithio yn y siop a'r becws, ac wedi ymddeoliad ei rhieni ym 1969, cymrodd hithau, gydag Ifan a Sion ei brawd, drosodd yr awennau a'r cyfrifoldeb o redeg y busnes.

Un o hoff bleserau Ifan a Carrie oedd mynychu treialon cŵn defaid ac roedd y trip i'r 'International' yn yr Alban yng nghwmni rhai o'r cymeriadau hwyliog ar y bws yn llawn hwyl a chwerthin. Un stori fach fyddai Carrie yn hoff o'i hadrodd oedd yr un am un o'r ffermwyr oedd yn arw am ei gwrw. "Un noson a phawb wedi hen fynd i'w gwlâu, mi arhosodd hwn yn y bar a chario mlaen i yfed. Ymhen hir a hwyr, mi fentrodd yn sigledig i fyny'r grisia, ond wrth fod o mor chwil fedra fo yn ei fyw ddod o hyd i ddrws ei 'stafall. Nefi! Chlywyd rioed y ffasiwn rympans! Ro'dd o'n stryffaglio ar hyd y coridor yn rowlio o barad i barad bob yn ail a baglu draws ei 'sgidia! Siwr gen'i fod o wedi deffro pob enaid oedd yn yr hotel y noson honno. Drwy drugaradd mi ddoth y 'night portar' o rwla, ac mi fedrodd hwnnw'i lusgo fo at y drws a'i wthio fo'i mewn! Ta waeth, y bora wedyn pwy oedd yn rhannu bwrdd brecwast efo ni yn flin fel tincar, ond y wraig yn bytheirio nad oedd hi, "wedi cysgu'r un winc wir ar gownt y chwildryn diog yn rhychu'r gwely a chwyrnu fel baedd nes bod y walia'n crynu! Mi gysgodd fel roedd o yn ei ddillad chi! Tasa gen'i dwca, mi faswn wedi i hannar i flingo fo, y llwdwn meddw!"

Stori fach arall gan Carrie oedd yr un am un o hen gymeriadau'r Waun fyddai'n galw o bryd i'w gilydd yn y siop. Bryd hynny, roedd Ifan yn disgwyl galwad i fynd am driniaeth i Ysbyty Clatterbridge a Carrie yn poeni'n arw yn ei gylch. Tra'n sôn wrth yr hen gymeriad am ei phryder, meddai yntau mwyaf di-gyffro, "Ylwch, peidiwch chi â phoeni dim, achos mi fu perthynas i mi yno 'chydig fisoedd yn ôl ac mi oedd hwnnw'n canmol y lle i'r cymyla. Ew, champion o ginio yno medda fo, llond plât o datws, bîff, moron a cabaij a DIGON o grefi!" Meddai Carrie wedyn. "Finna'n poeni ar gownt Ifan druan, a'r hen greadur yma'n canmol Clatterbridge fel tasa'r lle yn hotel fawr grand!"

Er mai ym mhentref Llanrug y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes, roedd ei chalon yn ddwfn o hyd yn y Waunfawr. Cymerai ddiddordeb mawr ym mhob peth oedd yn mynd ymlaen yn y pentref ac roedd ganddi stôr o hanesion difyr am rai o'r hen gymeriadau lliwgar a gofiai. Yn aml clywyd hi'n dweud, "W'st ti be, wa'th be ddeudi di, hen amsar difyr o'dd o ... ew ro'dd na gymeriada' pan feddyli di...."

Ond yr ergyd dostaf oll oedd marw Ifan ac yntau yn nydd ei nerth. Roedd ei farwolaeth ym mis Hydref 1993 wedi gadael bwlch mawr yn ei bywyd. Ond, gyda chymorth Dewi a Manon ynghyd â gweddill y teulu llwyddodd i gario mlaen â'i bywyd. Ymhen amser dechreuodd gymryd diddordeb mewn nifer o wahanol weithgareddau ac roedd bod yn aelod o gangen Merched y Wawr Llanrug yn golygu cymaint iddi. Roedd ganddi feddwl mawr o'i hwyrion a'i hwyresau, a byddai bob amser wedi gofalu "lapio'r presanta penblwydd a'r 'Xmas bocsys' yn barod rhag i betha fynd yn rhy hwyr!"

Ym mis Ebrill eleni, gyda'i hiechyd yn dirywio, derbyniwyd Carrie i gartref gofal Plas Pengwaith lle cafodd ofal a charedigrwydd twymgalon hyd y diwedd. Cofiaf y pnawn Sul diwethaf i mi fod yn ei chwmni a hithau'n gofyn, "Sut ma petha tua'r Weun 'na erbyn hyn, a pryd fuost di yno ddwytha? Ydi'r hen betha diarth 'ma yn dal i ddŵad a newid enwa'r hen dyddynod bach 'ma? Dacia nhw! Cofia pan fyddi di'n dŵad tro nesa ddŵad a thipyn o hanas i mi be sy'n mynd ymlaen yno efo chdi"

Ond yn anffodus ni ddaeth "tro nesa". Yn gynnar fore trannoeth daeth y newydd trist fod Carrie wedi'n gadael yn yr oriau mân.

Roedd colli Carrie yn dipyn o ysgytiad i'r wraig a minnau ond yn fwy byth i Dewi a Manon a'u teuluoedd o golli mam a'r annwyl 'Nain Llanrug.'

Mawr fydd y bwlch a'r golled am un mor arbennig a hoffus ei chymeriad.

Gwyn ei byd.

**Clwb Clychau'r Grug**

Dymunir diolch i Nia am drefnu pnawn pleserus yng Ngardd Fôn, Y Felinheli ar 9fed Mehefin. Anfonnir ein cydymdeimlad dyfnaf i Delyth a Carys yn eu profedigaeth o golli mam annwyl.

Brynhawn Mercher, 4ydd Gorffennaf am 2 o'r gloch y pnawn byddwn yn cyfarfod yng ngharafán Heulwen ym Mae Colwyn. Bydd cyfarwyddiadau o sut i gyrraedd yno ar ap y Côr. Edrychwn ymlaen at amser hwyliog llawn atgofion.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Glenys a Siencyn i lawr yn y De, a phob dymuniad da i Carys Williams ar ei phen-blwydd arbennig ar y 19eg o Fehefin.

**Merched y Wawr**


Estynnwyd croeso cynnes i bawb ar brynhawn Mawrth, 14eg Mehefin, gan Nan ein Llywydd, i fwynhau pryd o fwyd i orffen y tymor, yn 'Y Felin' Pontrug. Derbyniwyd gair o ddiolch gan Eurgain Haf, Swyddog Cyswllt Elusen Achub y Plant, am y cyfraniad ariannol hael tuag at Apêl Ŵcrain gan gangen Merched y Wawr Llanrug. Mae'r elusen yn gweithio'n ddiwyd i gyfrannu tuag at yr anghenion sylfaenol fel dŵr, bwyd, lloches ddiogel i blant allu chwarae a bod yn blant. Bydd yr arian yn help mawr i allu parhau â'r gwaith yn y tymor byr a hir. Diolch o waelod calon.

Bydd bwrdd gwerthu, 'Gemau Ail Law', gan yr Elusen yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron (breichledau, tlysau gwddf, modrwyau, gwregysau ayyb) ac mae Ann Ifans, Sycharth, Penisarwaun yn fodlon eu derbyn. Cysylltwch ag Ann trwy ffonio 01286 872407. Bydd Eurgain Haf yn dod i'w casglu ar 9fed Gorffennaf. Mae croeso i'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r gangen i gyfrannu os dymunant. Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Anfonnir ein cydymdeimlad llwyraf i deulu Carrie Owen, gwraig ei diweddar briod, mam a nain werthfawr ac un o aelodau ffyddlonna'r gangen ers blynyddoedd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar yr ail ddydd Mawrth ym Medi dan lywyddiaeth Mair Huws, gyda Meirwen yn ysgrifennydd. Croeso twymgalon i aelodau newydd.



# Ysgol Gynradd Llanrug

**Ras 5k Llanrug**
Daeth cannoedd o bobl a phlant draw i Lanrug ar gyfer y ras hwyl 1k a 5k. Roedd y ras yn rhan o bencampwriaeth 5k Gogledd Cymru a llawer wedi dod o bell. Cynhaliwyd ras hwyl y plant yn gyntaf gyda phawb yn cael medal ac yna yr oedolion. Daeth yr enillydd Ryan Davies i mewn gyda amser anhygoel o 15:37 a'r ferch cyntaf Katie Raynolds mewn 19:09. Cafwyd rhodd o wyau i'r enillwyr gan Plas Tirion a pawb wedi gwironi efo'r wyau! Mae lluniau i'w gweld ar safle we SportspicturesCymru.







# Gweithgareddau iechyd a lles




**Trip Llanberis**
Rydym wedi cael mis prysur iawn gyda'r plant yn cael llawer o brofiadau arbennig. Bu i ni gael pythefnos o weithgareddau Iechyd a Lles. Dechreuwyd y gweithgareddau gyda thrip i Lanberis a chael crwydro a dod i adnabod yr atyniadau.



**Karate**
Cafwyd cyflwyniad i sgiliau karate gyda Marvin Pritchard. Y plant wedi canolbwyntio yn arbennig o dda.



**Diwrnod dim sgrin**
Cafwyd diwrnod dim sgrin a bu'r plant yn mwynhau chwarae gemau bwrdd ac allan yn yr awyr agored.



**Troedio**
Daeth Anwen Thomas o Troedio i gynnal gweithdy adweitheg. Cafwyd sesiwn ardderchog gyda blwyddyn 6 yn dysgu technegau gwahanol fel ymarfer anadlu.



**Barddoni**
Daeth Osian Owen, bardd a llenor o'r Felinheli draw i gynnal gweithdy barddoni fel rhan o ddathliadau 500 Eco'r Wyddfa. **Trowch i dudalen 29 i ddarllen y cerddi penigamp.**



**Sioe**
Cafodd yr Adran Iau sioe werth ei gweld gan Beca Llwyd a Moli Williams o'r Asiantaeth Safonau Bwyd.



**Ras am fywyd**
I ddiweddu'r tymor bu i bob plentyn redeg ras am fywyd a chodi arian at ymchwil cancr. Diolch i pawb am eu cyfraniad**.**









**Casglu Sbwriel**
Aeth dosbarth Y Glyder i barc Glanmoelyn i gasglu sbwriel. Diolch yn fawr i'r plant am eu gwaith caled.



**Hoci**
Cafwyd prynhawn braf o Hoci yng Nghanolfan Brailsford a phawb wedi mwynhau cymysgu a gwneud ffrindiau newydd.






**Byd Natur**
Daeth Janie o Keyhoe A Jim o Naturewalk i ddysgu mwy am fyd natur.



**Dathlu hanner can mlwyddiant yr Amgueddfa Lechi**
Roedd hi'n braf cael bod yn lansiad dathliadau hanner can mlwyddiant Amgueddfa Lechi Llanberis. Pleser oedd gweld cyfraniad gwych plant y dalgylch. Llongyfarchiadau mawr i'r amgueddfa.

**Dawnsio**
Cafwyd pnawn o symud gyda Hudoliaeth. Diolch i Chloe ac Iola am yr hwyl a'r sbri






**Cystadleuaeth Gymnasteg**
Llongyfarchiadau mawr i Guto Williams am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth gymnasteg.




**Yoga**
Cafwyd sesiwn yoga gyda Wendy Osler. Pawb wedi ymestyn ac ymlacio.

## CWM-Y-GLO

**Eisteddfod Genedlaethol 2023**
**Digwyddiadau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf**
Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer Mehefin a Gorffennaf. Bydd yr elw o'r digwyddiadau hyn yn mynd tuag at Gronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023.

Cewch ragor o fanylion o dan 'Newyddion Llanrug', yn rhifyn hwn yr Eco. Cofiwch ddilyn tudalen cymunedol Llanrug - Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr am fwy o hanes digwyddiadau.

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Gorffennaf:-
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 9.30AM. Bydd Gwasanaeth Teulu ar ddydd Sul 3ydd Gorffennaf am 4.00PM. Croeso i deuluoedd ymuno â ni am wasanaeth byr gyda chrefftau a lluniaeth. Hefyd cynhelir naill ai gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11.00AM.

## Cornel Ddarllen

Oeddech chi'n gwybod bod y siop lyfrau Palas Print yn 20 oed eleni ar 1af o Orffennaf? Mae'r siop yn gwerthu llyfrau Cymraeg a Saesneg o bob math - ac os ydach chi am lyfr mae mwy na digon o ddewis yno. Mae Eirian a Selwyn yn diolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd - yng ngeiriau Eirian "… heb ein cwsmeriaid, fysa ni ddim dal yma!"

Dyma restr o werthwyr gorau Palas Print rhwng 8fed Mai a 8fed Mehefin 2022:

1. *Pridd*, nofel fer drawiadol gan Llŷr Titus £8.95, Gwasg y Bwthyn

2. *Drift*, nofel gyntaf Caryl Lewis yn Saesneg. Stori gariad hudolus, llawn dirgelwch a swyn y môr, £14.99, Doubleday

3. *The Blue Book of Nebo*, addasiad Manon Steffan Ros o'i nofel hynod lwyddiannus ac enillydd Medal Ryddiaith 2018, Llyfr Glas Nebo, £7.99, Firefly Press

4. *Welsh (Plural)*, llyfr aml-gyfrannog am berthyn i Gymru a'r hyn mae'n golygu i wahanol bobl. £12.99, Repeater Books

5. *Y Mae y Lle yn Iach*, cyfrol wych Elin Tomos, Nant Peris am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymunedau ardal Chwarel Dinorwig, £8.00, Gwasg Carreg Gwalch

6. *Pumed Gainc y Mabinogi*, cyfrol o straeon byrion gan Peredur Glyn, wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ein chwedlau cynharaf. £8.99, Y Lolfa

7. *Paned o De yn Georgia*, llyfr taith sy'n rhoi cip ar gyfnod yn hanes Rwsia gan awdur o Lanfaglan, Wendy Jones. £9.95, Gwasg y Bwthyn

8. *Cerdded y Caeau*, cyfrol hardd sy'n datgelu hanes enwau lleoedd, ffermydd a chaeau Ardudwy gan Rhian Parry. £19.99, Y Lolfa

9. *Anturiaethau Mistar Urdd*, Tair stori am anturiaethau Mistar Urdd mewn cyfrol liwgar i blant o bob oed. £4.99, Y Lolfa

10. *Sara Mai a Lleidr y Neidr*, ail stori hyfryd Casia Wiliam am Sara Mai, sy'n byw mewn sw, ar gyfer plant tua 7-10 oed. £5.99, Y Lolfa

Os ydach chi am ddisgrifiadau llawn o'r teitlau uchod gallwch fynd at wefan y siop am wybodaeth bellach.

www.palasprint.com


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru




Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn
CWMNI SIOE GERDD
WYT TI'N HOFFI CANU, ACTIO NEU DDAWNSIO?
WYT TI'N HOFFI PERFFORMIO?
Ym mis Medi eleni, bydd Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn yn cychwyn Cwmni Sioe Gerdd ar gyfer pobl ifanc o Fl 7 – 13.






Bwriedir llwyfannu sioe ym mis Ebrill 2023 ac eto yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.
Os hoffech fod yn rhan o'r prosiect cyffrous yma – anfonwch ebost at gwenda@cerdd.com yn cynnwys eich enw, ysgol, blwyddyn ysgol, ebost a rhif ffôn cyswllt rhiant erbyn 29 o Orffennaf os gwelwch yn dda.
Y Tîm Cynhyrchu: Lowri Mererid, Eleri Fôn a Huw Griffiths


Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.
Cyslltwch â ni: 07599 813777
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: www.tyddynteg.com




# Syrfewyr Lleol Cynnar – “an English Ordnance Surveyor”

Tybed faint ohonom sy’n ddiolchgar am wahanol fapiau’r Ordnance Survey (O.S.) i’n tywys ar wyliau yng Ngwledydd Prydain? Mae hanes y corff hwn sy’n gyfrifol am fapio pob rhan o wledydd Prydain yn deillio o’r angen, ganrifoedd yn ôl bellach, i gael gwybodaeth am y dirwedd er mwyn cynnal ymgyrchoedd milwrol llwyddiannus. Yr oedd tirwedd fynyddig yr Alban a Chymru yn creu trafferthion arbennig, oherwydd yn y dyddiau cynnar, ‘darlunio’ mynyddoedd a wneid ar fapiau yn hytrach na defnyddio cyfuchlinau, techneg a ddatblygwyd yn llawer diweddarach.

Dechreuwyd o ddifrif ar wneud Arolwg Trigonometrig o Gymru yn ystod Rhyfeloedd Napoleon ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gŵr o’r enw Richard Mudge oedd yn bennaf gyfrifol, ond syrfewr o’r enw Robert Dawson a wnaeth y gwaith helaethaf ar dirwedd Eryri. Y sustem driongliant a ddefnyddid, ac yr oedd Aberystwyth yn un gongl o’r triongl tua’r gogledd, gyda Rhuddlan a Moelfre yn ei gwblhau. O fewn y triongl hwn roedd mynyddoedd Eryri, a bu’n rhaid cario theodolite 200 pwys i gopa’r Wyddfa, a hynny ar lwybr anhygyrch iawn yn y dyddiau hynny.


Yr oedd Robert Dawson yn arlunydd da, a dyna un o’r manteision o’i gyflogi i wneud y gwaith. *“It is easier to teach young map-makers to survey than to draw”* oedd un o’r argymhellion wrth benodi gan yr O.S. Roedd cynllun Dawson o Eryri yn barod erbyn 1816.

Un o’r problemau – os nad y brif broblem – wrth fapio Cymru yn y cyfnod cynnar hwn oedd yr iaith Gymraeg. *“The language barrier was like the Himalayas”* meddai un syrfewr, gan fod y mapwyr cynnar hyn (a’r mwyafrif ohonynt yn ddi-Gymraeg) yn ddibynnol ar ynganiad lleol o enwau. Roedd Lewis Morris wedi cwyno flynyddoedd ynghynt fod *“English map-makers are murdering the Welsh language.”*

Bu cryn ddadlau am fap cynnar o Sir Gaerfyrddin a oedd yn cynnwys pedwar sillafiad gwahanol o dref Llanymddyfri. Ac yn y de yn enwedig, roedd ‘lan’ a ‘llan’ yn cael eu cymysgu. Yn rhan o’r ddadl hon roedd un o syrfewyr yr O.S. oedd yn gweithio yn Aberystwyth. Mae’n cael ei ddisgrifio fel *“an English Ordnance Surveyor with a sophisticated knowledge of Welsh.”* Pwy felly oedd y Sais hwn, ac o ble daeth ei wybodaeth drylwyr o’r Gymraeg?

Ei enw llawn oedd John Ralph Haslam, ac fe’i bedyddiwyd (ynghyd â dau frawd arall) ddiwedd Medi 1805 yn Eglwys Llanrug. Roedd ei rieni yn byw ar fferm Bodrual, a’i dad yn cadw Melin Bapur Bodrual ar lannau’r afon Saint. Un o Swydd Amwythig oedd ei dad, mab Joseph Haslam, melinydd papur o Market Drayton. Roedd ei fam yn hannu o deuluoedd ar y Gororau, ac yn arbennig o Groesoswallt, ond wedi ei magu ym Miwmares. Ganddi hi -Ann Skye yn wreiddiol - y cafodd John Ralph wybodaeth drylwyr o’r Gymraeg.

Roedd cefndir a chysylltiadau Cymreig cryf gan fam John Ralph. Ei thaid oedd y Parch John Skye, a fu’n brifathro Ysgol Croesoswallt, ac a ddilynwyd gan Gymro arall, sef y bardd, Goronwy Owen o Fôn. Ei thad oedd John Skye arall, a fu’n rheithor Llansilin a Llansanffraid ym Mechain. Priododd â Mary Hanmer, ac yr oedd tir o’u heiddo ar Fynydd y Bryn, Llansilin, lleoliad Sycharth. Bu farw Mary, ac ail-briododd John Skye ag Ann Griffith o Groesoswallt, sef mam Ann Skye. Bu John Skye farw pan oedd Ann yn ifanc iawn ac ail-briododd ei mam â Richard Poole a symud i fyw i Fiwmares. Priododd Ann Skye gyda John Haslam yn Eglwys Llanbeblig yn 1800, sef y flwyddyn y ganed John Ralph.



***Y Theodolite Mawr 200 pwys a gariwyd i gopa’r Wyddfa.***

Does dim sicrwydd pendant ble cafodd John Ralph ei addysg, ond gellir tybio mai yn Ysgol Ramadeg Biwmares y bu hynny, o sylweddoli cysylltiadau’r fam a theulu Poole â’r dref. Roedd John Haslam, y tad, wedi bod yn aelod o Filisia Amwythig, ond wedi ymddiswyddo yn 1805 a dod yn gyfrifol am Filisia Sir Gaernarfon. Roedd hanner brawd i fam John Ralph hefyd wedi dal swydd uchel ym Milisia Amwythig. Mae’n bosib mai’r cysylltiadau militaraidd hyn a fu’n gymorth iddo ymuno â’r Ordnance Survey.

Prin yw’r cyfeiriadau at waith John Ralph Haslam fel syrfewr i’r Ordnance Survey. Yr oedd yn byw yn Aberystwyth yn 1832 pan gafodd mab iddo ei eni. Caiff y tad ei ddisgrifio fel *“of the Ordnance Survey”.* Nid i’r O.S. yn unig y bu’n gweithio. Sefydlodd ei fusnes ei hun, gan symud i fyw i Borthaethwy. Yn 1839 fe’i hapwyntiwyd gan Gomisiynwyr y Degwm i fod yn gyfrifol am wirio mapiau Degwm holl blwyfi Môn.

Mae cofnod cynharach o 1829 yn creu peth penbleth. Sonnir am waith J. W. Haslam fel peiriannydd sifil, ac yn ei ddisgrifio fel *“late of the Ordnance Trigonometrical Survey.”* Hawdd credu mai at John Ralph y cyfeirir, ond nid felly. Ei frawd ieuengach, Joseph William Haslam yw hwn, (bedyddiwyd yn Llanrug yn 1807) ac mae’n amlwg iddo yntau hefyd gymhwyso i fod yn syrfewr ac iddo weithio i’r O.S. O bosib mai dilyn ôl troed ei frawd mawr a wnaeth, ac i’r cysylltiadau teuluol fod o gymorth iddo yntau yn ei yrfa hefyd.

Os mai dadlau ynglŷn â chywirdeb y Gymraeg ar fapiau cynnar yr O.S. roedd y brawd mawr, roedd y brawd iau yn edrych ar ôl buddiannau teithio dyffryn Peris, oherwydd ef a fu’n gyfrifol am fesur tir a llunio llinell y ffordd gyntaf i fyny Bwlch Llanberis. Roedd Ymddiriedolaeth Tyrpeg Sir Gaernarfon wedi cychwyn ar y gwaith o wella priffyrdd, ond yn anffodus, does dim o’u cofnodion cynnar wedi goroesi. Mae’n bosib mai gweithio ar eu rhan hwy roedd Joseph William, er bod teulu Glynllifon a phlwyfolion Llanrug wedi talu cyfran o arian at wella’r ffordd dros y Clegir i’r Ddôl islaw Castell Dolbadarn. (Rhaid cofio fod plwyf Llanrug yn cyrraedd at Ynys Wen, Llanberis yn y cyfnod hwn). Glynllifon hefyd (ac efallai mewn cydweithrediad â’r Ymddiriedolaeth Tyrpeg) a fu’n gyfrifol am adeiladu ffordd newydd o Gwm y Glo heibio Craig yr Undeb ac ymlaen am rannau isaf Chwarel Glyn Rhonwy.

Ond Joseph William Haslam yw’r enw amlycaf yng nghynllunio’r ffordd o Gastell Dolbadarn drwy’r hen Lanberis ac i fyny’r Bwlch. Gŵr ifanc yn ei ugeiniau cynnar oedd bryd hynny, ond ef gafodd y gwaith o gynllunio ffordd i gysylltu â’r ffordd dyrpeg o Nant Gwynant i Gapel Curig. Fe’i canmolwyd am ei waith mewn llythyr a ymddangosodd yn y *North Wales Chronicle* ym mis Tachwedd 1830 pan oedd y ffordd wedi ei chwblhau: “*I was particularly pleased with a beautiful line of road now forming from the village to the junction of the Capel Curig road. The engineer, Mr J. W. Haslam of Caernarvon has gained to himself the highest credit for a display of his talents in planning a road of easy ascent through a country that has hitherto appeared as impracticable to any local Turnpike Trust.”*

Roedd llwyddiant y gwaith yn amlwg, gan fod y goets fawr yn teithio ar y ffordd o fewn y degawd nesaf. Yr oedd tollborth Gwastadnant yn bod erbyn Awst 1831, a rhwng y mis hwn a diwedd y flwyddyn ariannol ar ddechrau Ebrill 1832 roedd £27-5-3 wedi ei dderbyn. Dyblodd y swm o fewn wyth mlynedd, a’r cyfan oherwydd llwyddiant cynllun y gŵr ifanc o Bontrug.

Dau frawd o ardal Pontrug a Bodrual – y naill yn canolbwyntio ar waith cynnar yr O.S. yng Nghymru, ac yn dadlau ynglŷn â ffurfiau’r Gymraeg, a’r llall yn gosod llinell y ffordd newydd i fyny Bwlch Llanberis, gan ddefnyddio’i brofiad cynharach yn gweithio i’r O.S. Syrfewr a pheiriannydd sifil a haeddant eu cofio am eu gwaith arloesol mewn mapio a chynllunio ffyrdd.

**Ymosodiad gan neidr wrth bysgota.**

Ym mis Gorffennaf 1898 roedd un neu ddau o drigolion Llanberis wedi cerdded dros Fwlch Maesgwm i bysgota yn Llyn y Gader. Mae’n amlwg eu bod yn gyfeillion â rhai o lanciau Rhyd-ddu, ac aeth y criw allan mewn cwch ar y llyn gan obeithio am brynhawn llwyddiannus o bysgota.

Ond nid felly y bu. Wedi rhwyfo allan am tua 200 llath o’r lan, gwelsant lysywen fawr yn nofio tuag atynt. Dim ond ei phen yn unig oedd allan o’r dŵr, a phan oedd tua ugain llath oddi wrth y cwch, cododd y creadur ei hun lawn troedfedd o’r dŵr a pharatoi i neidio i’r cwch. Bryd hynny y sylweddolodd y pysgotwyr mai neidr anferth oedd hon ac nid llysywen. Cafodd ei tharo â rhwyf gan un o’r pysgotwyr, ond nofiodd o amgylch y cwch a chodi eilwaith fel pe bai’n barod i ymosod ar y criw. Unwaith yn rhagor cafodd ei tharo â rhwyf, a llyddwyd i’w lladd. Rhwyfwyd i’r lan, a chael fod y neidr dros lathen o hyd, a’i chorff yn naw modfedd o drwch.

Yn ôl yr adroddiad papur newydd, roedd y neidr yn cael ei harddangos yn Rhyd-ddu, a’r bwriad oedd ei chadw. Ni roddir unrhyw eglurhad ynglŷn â pha fath o neidr oedd hi. Tybed oes unrhyw un o bysgotwyr y fro wedi cael profiad tebyg?

A dyna ddigon i gnoi cil arno dros yr haf. Os oes gennych unrhyw ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol ardal bro’r “Eco”, yna cysylltwch drwy ffonio Dafydd Whiteside Thomas ar 01286 673515, e-bostio ar dafydd.wthomas@btinternet.com neu anfonwch lythyr i Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA.

# Darganfod Erthyglau Glan Rhyddallt

Rhai misoedd yn ôl, roedd fy nai a'i deulu'n ymweld â ffrindiau yn Aberhonddu. Yn ystod yr ymweliad fe dynnwyd allan lyfr lloffion oedd nain y teulu wedi ei greu gyda'r bwriad o'i yrru i'w chwaer oedd wedi mudo i'r Unol Daleithiau. Ond aros yng Nghymru wnaeth y llyfr.

Roedd teulu'r ffrindiau – nain, mam, merch – i gyd wedi eu geni yn Llanberis ac wedi cadw cysylltiad clos á'r pentref.

Wrth i fy nai fynd drwy'r llyfr lloffion, fe ddaeth ar draws erthygl papur newydd oedd yn cyfeirio at y ffotograffydd o Lanberis, Isaac Hughes. Gan ei fod yn gyfarwydd â'r diddordeb sydd gan y pentref yn y ffotograffydd yma, fe dynnodd lun o'r erthygl, ac wedi dod adref fe ddaeth á chopi ohoni i mi gan obeithio cael mwy o wybodaeth amdani.

Wedi peth ymchwil, fe ddarganfyddais mai erthygl gan y bardd a'r chwarelwr Glan Rhyddallt yn yr Herald Gymraeg ym 1934 oedd wedi dal sylw fy nai. Ar ôl i mi ddarllen yr erthygl gyflawn, roedd yn amlwg fod gan y bardd gysylltiad agos á phentref Llanberis. Ganed Glan Rhyddallt [Isaac Samuel Lloyd (1875-1961)] yn Tŷ Newydd, Clegyr, Llanberis, yn fab i William a Mary Lloyd. Enw gwreiddiol Tŷ Newydd oedd Penrallt. Er bod lluniau'r mwyafrif o'r enwogion oedd yn bodoli dros ganrif yn ól, ar gael, prin iawn yw gwybodaeth am eu lleisiau. Roedd Gareth Roberts, Menter Fachwen, yn falch iawn o'r disgrifiad o lais, wynepryd a lleoliad parcio, carafán Isaac Hughes, gan nad oedd y wybodaeth yma wedi dod i'r amlwg cyn hyn. Dyma'r erthygl felly, dan y teitl anghyffredin 'Y Gwawlarlunydd' (sy'n golygu 'Y Ffotograffydd').

**Y Gwawlarlunydd**

*Mae llawer o newid ar drigolion Dyffryn Padarn er yr amser pan oeddem yn yr ysgol gynt. A ydych yn cofio'r hwyl rydem yn gael gydag Isaac Hughes, y tynnwr darluniau, oedd yn byw mewn carafan arhosol wrth dalcen Thomas Street, Llanberis? Nid ei ddigrifwch ef yn unig a'i gwnâi'n ddiddorol i ni, ond yn hytrach ei ddull o siarad. Siaradwr myngus ydoedd, sef siarad yn ei wddw, a thrwy ei drwyn, a thafod tew ganddo hefyd. O'r gair mwng (gwddw) y daeth myngus. Byddai "l" yn "dd" ganddo, "wedd" am "wel", a "deddyn" am "dderyn" etc.*

*Wrth dynnu ein lluniau, rhoddai ei fys ar wydr y camera, gan ddweud: "Spiwch chi add hwn mi gewch wedd-d deddyn".*

Ynghyd á'r disgrifiad o Isaac Hughes yn yr erthygl, roedd cyfeiriad at y defnydd a wnaed o'r "Market Hall" yn Llanberis, cyn iddi ddod yn Bictiwrs. Mae gennyf gof o'r hen *stagers*, yn cynnwys fy mam, yn dal i gyfeirio at y Pictiwrs, fel yr "Hall"! Mewn erthygl am "Yr Hall", mae Glan Rhyddallt yn cyfeirio at berson o'r enw Hughes Druggist. Roedd hwn yn berson blaenllaw iawn yn y pentref, perchennog gwesty Dól Peris, perchennog Siop Druggist yn yr un lle, pregethwr Bedyddwyr Capel Seion a'r cynghorydd y galwyd pont fwyaf adnabyddus y pentref ar ei ól, sef Pont Hughes Druggist!

Dyma'r erthygl honno gan Glan Rhyddallt.

**Yr Hall**

*Nid oes cymaint o hwyl yn yr hen adeilad a elwid Concert Hall Llanberis yn awr á phan oeddem ni yn fechgyn. A ydych yn cofio Simon y Swynwr yno, yn rhoi ei hud ar y bechgyn a aeth i fyny ato i'r llwyfan? Hypnoteisio y galwai rhai y peth. Gwnai iddynt gysgu i ddechrau, ac yna byddent at ei alwad i wneuthur y peth a fynnai, hyd yn oed ymolchi mewn blawd peilliad (blawd mán).*

*Methodd, er ceisio'i orau, á gwneuthur i Alaw Gwyrfai gysgu, a helodd ef i lawr o'r llwyfan, wedi gwylltio.*

*A ydych yn cofio'r noson y daeth dyfais newydd Edison, sef y "Ffonograff", i'r Hall am y tro cyntaf i'w harddangos?* ['Roedd y "Ffonograph" yn medru 'recordio' sŵn, ac yn gallu ail-ddarlledu'r hyn a recordiwyd.]

*Gwahoddodd y gŵr oedd gyda'r peiriant rai o blith y dyrfa i ddod i'r llwyfan i areithio, neu i adrodd i'r peiriant, gan hysbysebu y rhoddai'r peiriant y cwbl allan mewn 'chydig amser. Aeth John Ty'n Fawnog i fyny ac adrodd hanes gweinidog yn bedyddio plentyn yn Sir Fôn, gan broffwydo pethau mawr iddo fel bachgen ond, wedi gofyn i fam y plentyn am ei enw, brawychodd pan atebodd honno mai ei enw oedd 'Catrin Mary Jane'!*

*Aeth Mr Hughes, y Druggist, i wneuthur araith! Cyn dechrau, pesychodd yn gryf i gael ei wddw'n glir. Ail adroddodd y peiriant bopeth a ddywedwyd wrtho ond, yn yr ail adrodd, pesychiad Mr Hughes a greodd fwyaf o hwyl i bawb oedd yno. Roeddem ni'r bechgyn yn disgwyl am y pesychiad hwnnw, mewn hwyl.*

**Eifion Roberts, Llanberis**

# Cynulliad Cymunedol GwyrddNi Dyffryn Peris

Wnaeth fy ymdrech i geisio achub y blaned ddim cychwyn yn rhy dda wrth i mi orfod gyrru'r daith dair milltir mewn car o Gwm-y-Glo i Ganolfan Llanberis ar gyfer Cynulliad Cymunedol cyntaf GwyrddNi yn Nyffryn Peris ar nos Fawrth y 17ef o Fai. Y gwynt a'r glaw enbyd oedd y bai – a sawl un yn edrych yr un mor euog â minnau wrth i ni guddio ein goriadau car ym mhocedi ein cotiau glaw! Ond buan y daeth gosteg, a daeth yr haul i dywynnu ar yr ysbyty chwarel oedd i'w weld drwy'r drws agored. A chynhesu gwnaeth yr awyrgylch tu mewn hefyd wrth i griw o tua 50 o ddieithriaid gael bowlen o lobsgows bendigedig a dechrau cael dod i adnabod ein gilydd. Digrif oedd i mi gael sgwrs â gŵr sy'n byw tri drws o'm cartref am y tro cyntaf – a buan daeth i'r amlwg fod dod i adnabod a pharchu ein cymdogion yn well yn elfen bwysig iawn o amcan y Cynulliad. Mewn undod y mae nerth – ac fel cymuned unedig y gallwn roi newidiadau ar droed er budd pawb.

Bwriad y pum Cynulliad dros ogledd orllewin Cymru yw dod â chymunedau at ei gilydd i ddechrau trafod ein hardaloedd lleol – gan ganolbwyntio ar fyw yn fwy cynaliadwy ac ar liniaru effaith yr argyfwng hinsawdd. Gosodwyd map anferthol o'r ardal ar y wal, a chawsom gyfle i nodi'r newidiadau yr ydym ni wedi sylwi arnynt oherwydd y newid hinsawdd. Digalon oedd gweld fod llifogydd wedi effeithio ar bron bob un pentref yn y gymuned, bod ambell rywogaeth bywyd gwyllt yn prinhau, a bod tywydd eithafol yn cael effaith dirfawr ar iechyd a llesiant unigolion – yn aml yr unigolion mwyaf bregus. Cafwyd sgyrsiau angerddol am y gwasanaethau bws (neu eu diffyg!), am ein hawydd i weld llwybr beics yn arwain o Lanberis i Gaernarfon, ac am yr angen am randiroedd cymunedol i dyfu bwyd. Cawsom sgwrs ysbrydoledig gan Ceri Cunnington o Gwmni Bro Ffestiniog – rhwydwaith o fentrau cymdeithasol sy'n gweithio er lles datblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Arweiniodd hyn at sgwrs ddifyr ar ein bwrdd ni ynglŷn â chreu diwydiant twristiaeth mwy cynaliadwy yn ardal Llanberis a fyddai'n ddibynnol ar fwy o gydweithio rhwng busnesau bach, a gwell chefnogaeth i'r isadeiledd gan y Cyngor a'r gymuned.

Braf oedd cael dychwelyd i'r Ganolfan fel criw y diwrnod canlynol – a'r haul yn caniatáu cyrraedd ar droed y tro hwn. Cawsom drafod rhinweddau'r ardal leol, o gopa ein mynyddoedd i'r caeau, a hyd yn oed yr hyn sy'n llechu dan y dyfroedd, a chael help llaw siaradwyr gwadd arbennig – sef y naturiaethwr a golygydd Llên Natur, Duncan Brown a Nia Jones o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. O weld cyfoeth eithriadol ein hamgylchedd yn llenwi posteri ar bob wal, mwy penderfynol fyth yr oeddem ni fel Cynulliad fod angen gweithredu i'w warchod.

Byddwn yn parhau i gwrdd fel Cynulliad, a thrafod ar y cyd syniadau i'w rhoi ar waith yn lleol – ac edrychwn ymlaen at gael rhannu mwy o'r hanes yn y man.

**Leusa Llewelyn**

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 5

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, ychydig dros flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Mae cathod wrth reddf yn greaduriaid sy'n byw ar eu pennau eu hunain a'r rhan fwyaf o gathod gwyllt yn byw fel unigolion. Disgynyddion o fleiddiaid, sy'n byw mewn grwpiau teuluol, yw cŵn ar y llaw arall. Fodd bynnag gall cathod dof ffurfio cyswllt agos iawn at bobl ac weithiau'n datblygu cyfeillgarwch efo anifeiliaid eraill megis cŵn. Dros amser gall cathod ddod i ddibynnu ar gwmni pobl, sy'n gallu ar adegau prin ddatblygu i fod yn bryder gwahanu os yw eu perchennog yn eu gadael am gyfnod hir neu gefnu arnynt. Tybed ydy hynny'n rhan o'r ymddygiad rydan ni'n ei weld yn Bob weithiau? Chawn ni byth wybod felly dyma Bob yn cario mlaen efo'i stori:



"Dwi'n synhwyro bod rhywbeth ar bawen y bore 'ma. Na dim byd i wneud efo'r tywydd, mae hi'n oer ac yn chwythu yma fel arfer, ond o leiaf does dim diferion glaw i'w gweld yn erbyn y ffenest uchel na'r ffenest fach yn y drws heddiw. Mae hi wedi bod i mewn yn gynharach ac fel arfer bydd yn rhoi bwyd i mi a llnau'r lle chwech, ond chefais i ddim brecwast, mae'n rhaid bod hi wedi anghofio. Fuodd o i mewn wedyn, yn eistedd ar stôl fach ac yn mwydro siarad efo fi am sbel, dwi wedi arfer efo fynta bellach ac er bod o'n dal, dydw i ddim ei ofn o bellach. Un gair dwi'n ei glywed gan y ddau ohonynt dro ar ôl tro ydy 'Bob'; dwi'n meddwl felly mai dyma eu henw nhw arna i. Fawr o ots gen i wir, dwi'n meddwl mai 'Orion' oedd y bobl lle roeddwn i'n byw o'r blaen yn fy ngalw fi. Mmmm… mae'n rhaid bod y deu-goesiaid yma'n rhoi enw ar bethau byw. Ond dwi'n crwydro, mae'r ddau rywsut yn fwy nerfus na maen nhw fel arfer efo fi a dydw i ddim wedi ymosod ar eu coesau nhw hyd yma heddiw.

Mi ydw i'n gadael iddyn nhw roi mwythau i mi, yn enwedig pan dwi'n cael bwyd neis o dun efo grefi arno fo, ond dwi'n dal i fynd yn rhwystredig weithiau achos dydyn nhw ddim bob amser i weld yn deall be 'dwi isio. Wir yr, dydw i ddim yn trio eu brifo nhw ond jest weithiau dwi'n colli'n limpyn efo nhw, ond wedyn mae hi'n siomedig a dwi'n teimlo'n gas. Mae'r ddau wedi diflannu'n ôl i'r tŷ a dydw i dal ddim wedi cael brecwast ac mae'r ddesgil bisgedi'n wag hefyd.

Aha! Mae'r ddau'n dod yn ôl i fyny'r llwybr ond does dal dim arwydd o fwyd i mi, ym mhawennau blaen yr un o'r ddau. Mae'r drws yn agor ond dydyn nhw ddim yn dod i mewn i'r cwt maen nhw'n troi'n ôl i lawr y llwybr a thrwy'r drws arall sy'n mynd i mewn i'w tŷ nhw. Brensiach y bratiau be sy'n digwydd? Dwi'n mentro at y drws ac yn arogli'r hyn sydd y tu allan, oglau da, mae hi'n oer ond dim ond awel ysgafn yn teimlo'n braf ar fy mlew cringoch trwchus. Ydyn nhw wedi anghofio cau'r drws? Ydw i'n cael mynd allan?

Dwi'n mentro i lawr y llwybr, mae yna wair ar yr ochr, dwi heb deimlo gwair o dan fy mhawennau ers hydoedd. Dwi'n dod yn nes at ddrws eu tŷ nhw… Haleliwia! Mae yna bowlen yma efo bwyd ynddi a bisgedi a phowlen ddŵr. Allai ddim clywed oglau'r un gath arall felly mae'n rhaid mai i mi maen nhw. Dwi fawr o dro yn claddu'r bwyd a rhai o'r bisgedi. Mae yna ystafell arall, yn fanno maen nhw ill dau. Dwi'n cofio ystafell fel hon o'r blaen, roeddwn i'n cael bwyd ar y 'working top' fel oedd fy mherchennog blaenorol yn ei alw fo. Dwi'n neidio i fyny i weld ond och a gwae mae hi yn gafael yndda i ac yn fy ngosod yn ôl ar y llawr. Rhag ei chywilydd hi! Dwi'n neidio i fyny eto ond unwaith eto dwi'n ôl ar y teils yn hollol ddiseremoni. Ocê! Efo mhawen ar fy nghalon wnâi ddim neidio i fyny eto.

Maen nhw'n dal i siarad efo fi a dwi'n gweld bod un ystafell arall dwi heb fod ynddi eto ac mae honno i'w gweld yn gynhesach na'r lleill. Tybed beth sydd yn fanna?

Mae'r lle yma'n ddiddorol. Ella gai'i aros yma."

## WAUNFAWR

**Gohebydd:** Iola Llewelyn Gruffydd
Tegannedd – 01286 650 035
iolallew@hotmail.co.uk

**Eisteddfod yr Urdd –** Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y pentref a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Un o'r rhai fu'n llwyddiannus oedd Nan Roberts a ddaeth yn ail efo gwaith argraffu Blwyddyn 3 a 4 yn yr Adran Celf, Dylunio a Thechnoleg. Y peth gorau am gael y wobr yn ôl Nan oedd "cael mynd i faes y 'Steddfod a gweld ei gwaith wedi cael ei fframio ar y wal a chael medal".



**Gwellhad buan –** cofion cynnes at Mrs Enid Williams, Heli, Nelma Pritchard, Stad Croesywaun ac Eleri Dale, Stad Tŷ Hen, sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hefyd, dymuniadau gorau am wellhad buan i Gwenno Kerr, syrjeri, sydd hefyd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar.

**Pob Lwc –** i Shaun Brown, 2 Bryn Golau gynt, sydd yn ymgymryd â her arbennig y mis yma er mwyn codi arian i elusen Motor Neurone Disease – bydd yn rhedeg 21 milltir pob wythnos drwy gydol mis Mehefin. Gallwch gyfrannu at yr elusen drwy dudalen Facebook Shaun.

**Fformiwla 1** – Pleser oedd clywed Glenys Jones, Stad Tŷ Hen ar Radio Cymru yn trafod Fformiwla 1 yn ystod y mis. Mae'n amlwg bod Glenys yn dipyn o arbenigwraig ar y gamp, gyda barn gref ar gryfderau a gwendidau rhai o'r enwau mawr. Ond gobeithio nad oedd Lewis Hamilton ei hun yn gwrando, gan nad oedd llawer o ganmol arno yn ystod y sgwrs!

**Cydymdeimlo:** Yn ystod y mis aeth heibio bu farw Gareth Jones, Stad Bodhyfryd. Rydym yn cydymdeimlo gyda Jennifred ei wraig, Gwenan ac Aeron y plant a'r teulu ehangach.
Rydym yn cydymdeimlo gyda theulu Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen, ei merched, Carys, Glenys a Nerys a'r teulu ehangach.
Rydym hefyd yn cydymdeimlo gydag un o gyfranwyr cyson y golofn hon sef Gwilym Morris Jones (Mois). Bu farw Carrie, chwaer Mois oedd yn byw yn Llanrug. Bydd pentrefwyr yn cofio Carrie fel un o deulu Penrhos, merch y diweddar Mary a John Austin.

**Diolchiadau**
Hoffai Meira Turner ddiolch i deulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd. Pen-blwydd hapus hwyr i chi Meira!




**Tîm Achub Mynydd Aberglaslyn**
Cafodd y tîm achub mynydd arbennig yma eu hanrhydeddu yn ddiweddar drwy dderbyn medal Jiwbilî Platinwm y Frenhines. Mae tri aelod o'r tîm yn byw yma yn Waunfawr, sef Terry Parry, Ian Williams a Mathew Gosset. Mae'r gwaith maent yn ei wneud yn gwbl wirfoddol, ac yn gofyn am ymroddiad enfawr. Mae'n wych gweld eich gwaith caled yn cael ei gydnabod. Llongyfarchiadau i chi gyd.

# Ysgol Waunfawr









**Penwythnos Glan-llyn**
Bu 32 o ddisgyblion am benwythnos llawn antur i wersyll yr Urdd Glan-llyn yn ddiweddar. Yr oedd yn bleser gweld y plant yn mwynhau pob math o weithgareddau, gan gynnwys dringo, cyfeiriannu, canŵio a bowlio deg. Cawsant fodd i fyw yn gwylio sioe adar ysglyfaethus hefyd. Yn sicr y bydd yn atgof arbennig iddynt, yn enwedig y rhai fydd yn mynd i'r Uwchradd yn fuan, a hwythau wedi llwyddo drwy gyfnodau clo yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.




**Cywion**
Diolch yn fawr i Kerry mam Luca ac Alfie am ein cynorthwyo gyda deor wyau hwyaid yn ddiweddar. Yr oedd plant y Meithrin a Derbyn wrth eu boddau yn gweld yr wyau yn deor a'r cywion yn tyfu dros gyfnod o amser. Mae 'Melyn' ac 'Eli' yn gwneud yn dda iawn a'r plant a staff wedi dysgu cymaint am fyd natur.






**Criced**
Llongyfarchiadau i'r tîm criced am gystadlu mewn gŵyl arbennig ym Mangor yn ddiweddar. Yr oeddynt wedi mwynhau pob eiliad ac wedi llwyddo i ddod yn 5ed.

**Blwyddyn 6**
Pob lwc a phob dymuniad da i'r 12 disgybl fydd yn ein gadael yn yr Haf. Diolch hefyd i'r rhieni a fuodd yn gefn i'r ysgol yn ystod y cyfnod.

**Pontio**
Bu i flynyddoedd 3, 4 a 5 deithio i Pontio i weld Sioe Twm Siôn Cati yn ddiweddar – diolch i'r Cyngor Celfyddydau am eu nawdd i dalu'r gost.

**Archifdy**
Diolch i Mrs Gwenda Williams am ei chyflwyniad am yr ysgol 'ddoe a heddiw'. Yr oedd y plant a staff wrth eu boddau yn pori drwy'r lluniau ac yn rhyfeddu gweld y newidiadau.



# CAEATHRO

**Capel**
Ar y 3ydd o Orffennaf, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Megan Williams am 2:00 PM. Gweinyddir y Cymun yn ystod y Gawasanaeth hwn. Ar yr 17eg o Orffennaf, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Huw Dylan Jones am 2:00 PM. Bydd Cyfarfod Arweinwyr i ddilyn y Gwasanaeth ac i gychwyn am 3:00 PM.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i drafod y posibilrwydd o wahodd Gweinidog newydd i Gapel Caeathro a'r ofalaeth ehangach. Mae'r Blaenoriaid a'r Swyddogion yn y broses o gasglu'r manylion cyfredol, yn ogystal ag ystyried goblygiadau ariannol y cynnig hwn, er mwyn gallu darparu'r gynulleidfa gyda'r wybodaeth briodol a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniad drwy fwrw pleidlais. Pwysig yw nodi y bydd gofyn i unrhyw un sy'n bwriadu pleidleisio i fod yn bresennol ar y dyddiad penodedig – bydd Newyddlen yn cael ei rhannu gyda'r wybodaeth briodol a'r holl ddyddiadau allweddol maes o law.

**Teulu Tŷ Gwyn**
Os ydych yn crwydro Pen Llŷn, beth am alw heibio Oriel Glyn y Weddw ar y ffordd i'r traeth? Yn Ystafell Madryn (ar y llawr cyntaf), gallwch ddod o hyd i luniau o deulu Tŷ Gwyn, yn cynnwys Mair a Gwyneth!

**Cydymdeimlo**
Trist oedd clywed am farwolaeth Meurig Hughes o Drawsfynydd. Un o frodorion Caeathro, cafodd ei fagu yn Nhŷ Mawr gyda'i frodyr, y diweddar Ifor a Deiniol. Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf at y teuluoedd yn dilyn eu profedigaeth.

**Cyfarfod – Apêl Codi Arian i'r Eisteddfod**
Gydag Eisteddfod Genedlaethol 2023 Llŷn ac Eifionydd ar y gorwel, mae bellach yn amser trafod sut yr ydym fel ardal yn mynd i gyrraedd ein targed ariannol. Bydd cyfarfod agored yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Y Capel, Caeathro ar nos Fercher y 29ain o Fehefin am 7:30 PM i drafod syniadau. Byddem yn gwerthfawrogi eich presenoldeb yn y cyfarfod. Os nad oes modd i chi fynychu, cofiwch fod modd cyfrannu rhoddion a/neu syniadau drwy gysylltu gyda'n Cynghorydd, Menna Jones – ei chyfeiriad e-bost ydi MennaJones@gwynedd.llyw.cymru.

**Apêl am Newyddion**
Os oes gan unrhyw un ohonoch newyddion/lluniau yr hoffech eu cynnwys yn yr Eco, byddwn yn hynod ddiolchgar pe gallech gysylltu gyda mi drwy'r e-bost arferol os gwelwch yn dda. Diolch.

## PENISARWAUN

**Diolch**
Dymuna deulu Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad wedi iddynt golli gwraig, mam a nain arbennig. Diolch mawr i Huw Tegid Roberts am arwain gwasanaeth teimladwy ar ddiwrnod yr angladd. Gwerthfawrogir y trefniadau arbennig gan Meinir Griffith, Tros y Waen hefyd. Diolch o galon am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Cymdeithas PSP er cof am Carolyn.

Dymuna Margaret, Arwel, Dylan a Iola ddiolch i bawb am y cardiau, arian a galwadau a dderbynwyd ar ôl colli Gareth, oedd yn dad a thaid arbennig. Diolch hefyd i gwmni Dylan Griffiths am eu gwasanaeth arbennig.

**Pwyllgor y Neuadd Gymuned**

**Cydymdeimlad**
Fel ym mis Ebrill, bu Mai yntau'n fis o golli anwyliaid i deuluoedd yn y pentref. Ar 26ain Mai, ac yntau ond yn 43 mlwydd oed, bu farw'r amryddawn Dyfrig Wyn (Topper) mab amhrisiadwy Glenys a Gwynfor, priod, tad, llys-dad, ŵyr, brawd, ewythr a nai arbennig.

Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf at deulu Penygroes ac at Eric, Wil, Phil, Douglas a'r holl deulu. Fel y cyfeirir yng ngholofn Manon Steffan Ros yn y cylchgrawn 'Golwg', …"Tra pery'r gân a'r gair a'r wên yn ein meddyliau mae'r hen fyd yma'n le gwell am fod Dyfrig wedi bod yma."

Yr un yw'r golled enfawr o glywed am farwolaeth yr anwylaf Eirian, Bryntirion gynt, a hynny hefyd ar 26ain o Fai a hithau ond yn 49 mlwydd oed. Merch gariadus Bryan a Megan, chwaer amhrisiadwy a ffrind i lawer. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dyfnaf i chwi oll.

**Gwellhad**
Hip! Hip! Hwrê! Rydym mor falch o glywed fod Jean (Anti Jean) Bryntirion wedi gwella'n dda ers ei thriniaeth i'w chlun yn Ysbyty Gobowen. Rydym fel aelodau'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at ei chwmni rhadlon yn ein gweithgareddau.

Llongyfarchiadau i Gwenllian Carr Herd ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Pob dymuniad da hefyd i Eurgain Haf, 'Rhiwen', Pontypridd fydd yn dathlu'r un pen-blwydd ar 17eg Gorffennaf. Llongyfarchiadau i Cian Harri, mab Eurgain Haf ac Ioan, ŵyr Ann a Dafydd am ddarogan buddugoliaeth i dîm Cymru ar Radio Cymru, bnawn Sul, 5ed Mehefin yn erbyn yr Wcráin. 3 - 2 oedd dyfaliad ei dad ond 1 - 0 i Gymru meddai Cian. Da iawn Cian am ddyfalu'n gywir. Cafodd faner Radio Cymru i'w thrysori a mawr fu'r canu gorfoleddus o, 'Yma o hyd,' gyda Dafydd Iwan, Gareth Bale a'i arwyr a chefnogaeth fyddarol y Wal Goch.

Llongyferchir y Cynghorydd Elwyn Jones, Rhiwlas ar gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd 2022 - 2023. Yn y cylchgrawn Annibynnol Cymraeg, 'Y Faner Newydd', bu Glyn Tomos yn holi Phyllis am ei chyfraniad diflino i waith y Blaid yn lleol a chenedlaethol. Er ei chyfraniad mawr, nid yw'n barod eto i eistedd yn ôl, gan barhau i wasanaethu'r un mor anrhydeddus. Yn sicr mae ei chyfraniad i'r pentref hwn yn amhrisiadwy, bu ac y mae'n llywio'n gadarn bwyllgorau'r pentref, yn llywodraethwr yr Ysgol Gymuned, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd Gymuned, yr Eisteddfod Bentref, pwyllgor codi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol a Diffibrilyddion. Fel Cadeirydd cadarn ynghyd ag aelodau gweithgar y Pwyllgor a Neuadd Gymuned a chefnogaeth gref y pentref, ymhyfrydir fod gennym yr Ysgol a Neuadd Gymunedol fwyaf llewyrchus yng Ngwynedd. Diolch o galon Phyllis.

**Dalier Sylw**
Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor Eisteddfod Bentref nos Fawrth 12fed Gorffennaf yn y Neuadd Gymuned am 7.00PM. Dilynir y cyfarfod gyda 'Cyfarfod Cyhoeddus' am 7.30PM i drefnu Pwyllgor i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2023 ym Mhwllheli. Erfynnir am eich cefnogaeth arferol.

**Llwyddiant Addysgol**
Dymunir llongyfarch Caitlin Lamb, 7 Bryn Eglwys ar dderbyn Gradd Meistr, Dosbarth Cyntaf mewn Busnes. Mae William ei brawd, eisoes wedi derbyn graddau Dosbarth Cyntaf a bellach yn astudio Gradd PhD mewn 'Astro Physics' yn America. Mae'r ddau yn ddiolchgar am gefnogaeth gref eu rhieni a'r teulu ynghyd â'r Ysgol Gymuned, Ysgol Brynrefail a'u Prifysgolion.

Llongyferchir unrhyw un arall sydd wedi llwyddo mewn amrywiol arholiadau.

## CHWILAIR MIS GORFFENNAF - LLYSIAU'R ARDD

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| FF | B | W | E | Y | S | G | E | W | Y | LL | C |
| B | A | C | M | O | R | O | N | N | CH | A | E |
| CH | E | FF | E | U | E | D | H | D | FF | R | N |
| Y | H | A | R | D | FF | O | RH | M | S | S | N |
| S | L | D | LL | E | B | N | U | T | A | B | I |
| E | I | R | Y | W | NG | O | DD | O | R | I | N |
| R | M | I | S | O | T | I | Y | C | W | G | P |
| F | N | NG | U | N | A | N | G | T | D | O | S |
| D | TH | O | E | M | T | L | L | P | A | G | D |
| O | C | O | R | B | W | M | P | E | N | L | A |
| L | PH | T | D | S | S | E | I | Y | Y | Y | E |
| B | E | T | Y | S | C | O | CH | T | LL | S | N |

**BETYS COCH**
**BLODFRESYCH**
**CENNIN**
**CORBWMPEN**
**FFA DRINGO**
**FFA FFRENGIG**
**MAIP**
**MERLLYS**
**MORON**
**NIONOD**
**RHUDDYGL**
**RWDAN**
**SPIGOGLYS**
**TATWS**
**YSGEWYLL**

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Dyma'r eirfa yn Saesneg i'n darllenwyr sy'n dysgu Cymraeg:

| | | |
|---|---|---|
| betys coch - beetroot | ffa Ffrengig - French beans | rhuddygl - radish |
| blodfresych - cauliflower | maip - turnips | rwdan - swede |
| cennin - leeks | merllys - asparagus | spigoglys - spinach |
| corbwmpen - courgettes | moron - carrots | tatws - potatoes |
| ffa dringo - runner beans | nionod - onions | ysgewyll - sprouts |

## ATEBION I CHWILAIR MIS MEHEFIN - BLODAU GWYLLT

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | L | O | D | Y | N | Y | G | W | Y | N | T |
| R | A | N | A | W | H | Ch | D | F | E | Ff | S |
| I | T | P | U | S | Th | Y | A | I | B | C | T |
| A | E | I | D | U | G | S | N | O | Dd | L | C |
| Ll | G | D | E | R | W | G | T | L | Y | Y | L |
| U | E | Y | L | A | Y | A | Y | E | D | Ch | U |
| W | I | N | A | N | Dd | Ll | Ll | D | Y | A | S |
| A | R | Y | G | Y | F | N | E | M | D | U | T |
| R | I | G | N | C | I | A | W | Y | A | R | Y |
| Dd | A | O | E | O | D | G | U | R | G | G | G |
| F | N | G | P | E | L | T | S | E | y | O | A |
| Ll | Y | G | A | D | E | B | R | I | Ll | G | Th |

**BLODYN Y GWYNT**
**BRIALLU**
**CLUST Y GATH**
**CLYCHAU'R GOG**
**DANT Y LLEW**
**FIOLED**
**GRUG**
**GWYDDFID**
**LLYGAD EBRILL**
**LLYGAD Y DYDD**
**PENGALED**
**PIDYN Y GOG**
**SURAN Y COED**
**TEGEIRIAN**
**YSGALL**



# Garddio

## GORFFENNAF

Ar ôl mis Mai oer a dechrau Mehefin oer a gwyntog mae'n hen bryd i ni gael dipyn o dywydd poethach ym mis Gorffennaf. Ond er gwaetha'r tywydd mae popeth i'w weld yn dal i dyfu. Mi ydan ni fel garddwyr weithiau'n rhy brysur i fwynhau a sylwi ar harddwch ein gerddi, felly cofiwch eistedd yn ôl ambell waith, mae'n syndod ar beth wnewch chi sylwi arno hefyd. Dwi'n sicr yn edrych ymlaen at gael hoe fach ac eistedd yn yr ardd i'w mwynhau, ar ôl yr holl waith caled. Mi ydw i'n hoffi cadw'r planhigion sydd wedi blodeuo i barhau i edrych yn dda trwy dorri'r hen flodau oddi arnyn nhw, joban fach handi i'w gwneud yn gynnar yn y bore neu gyda'r nos pan nad yw'r haul yn rhy lethol.

Mae'r gwynt yn sychu'r pridd ac os cawn ni haul bydd angen sicrhau bod unrhyw blanhigion newydd eu plannu yn cael digon o ddŵr. Os am ddyfrio dyfriwch yn iawn, sociwch y pridd go iawn. Bydd llai o angen dyfrio pob dydd felly, ac mae'n llawer gwell i'r planhigion gan fod y gwreiddiau'n gorfod treiddio'n ddyfnach i'r pridd i ganfod dŵr. Mae yma sawl casgen ddŵr, sy'n well i'r amgylchedd (ac yn arbed arian os oes ganddoch fesurydd dŵr). Mi wnaiff dŵr golchi llestri yn iawn (gyda'r bonws o'r sebon yn lladd unrhyw fân bryfetach megis y pryf gwyn a gwyrdd. Fel y nodwyd y mis diwethaf, mi fydd hofio'n rheolaidd i gadw'r chwyn dan reolaeth yn talu ar ei ganfed. Un peth rydw i wedi ei wneud i helpu efo cadw'r chwyn draw ydy symud y bwydwyr adar ymhellach i ffwrdd o'r gwely blodau, fuasech chi ddim yn coelio gymaint o chwyn gafwyd o'r hadau nad oedd yr adar wedi eu bwyta!

**Tasgau**

**1.** Tacluswch farf yr hen ŵr [*clematis*] ac unrhyw blanhigion eraill sy'n dringo a chlymu fel bo'r angen.

**2.** Gallwch fentro rhoi planhigion oedd mewn ystafell haul (*conservatory)* allan. Mae gen i goeden orennau a choeden pinwydd yn y gegin, sy'n cael eu haddurno gyda goleuadau dros y Nadolig a chyfnod y gaeaf, sydd wrth eu boddau'n cael bod allan ar y patio dros yr haf a dechrau'r hydref (cyn belled nag ydy hi'n rhewi). Mae'r cactws sy'n blodeuo dros y Nadolig yn hoff iawn o gael bod allan am gyfnod hefyd, ond cadwch lygaid allan am y malwod.



**3.** Cofiwch fod angen dyfrio'r planhigion newydd, a chofiwch mae potiau neu gynwysyddion yn sychu allan yn gyflymach na'r borderi. Mae bwyd hylifol yn llesol i blanhigion sydd mewn potiau (cofiwch roi soser bwrpasol neu gynhwysydd arall sy'n dal dŵr o dan bob pot) fel nad ydych yn gwastraffu dŵr. Bydd hefyd angen cadw llygaid ar lefel y dŵr yn y bath adar (a'i lanhau yn aml os yw'n mynd yn fudr). Byddai'n syniad hynod o dda hefyd i osod dysglau neu soseri isel efo dŵr ynddynt i'r adar a'r creaduriaid gwyllt sy'n ymweld â'r ardd.



**4.** Torrwch yr hen flodau oddi ar y planhigion er mwyn ymestyn y tymor blodeuo yn enwedig y mynawyd y bugail '*geraniums*'.

**5.** Daliwch ati i dynnu'r lladron oddi ar y tomatos a chofiwch ddyfrio'n gyson. Dydach chi ddim eisiau sychder a llifogydd neu mi all y tomatos hollti neu ddatblygu '*blossom end rot*'. Bwydwch nhw efo gwrtaith hylifol pwrpasol pan yw'r ffrwythau cyntaf wedi ffurfio, hyd nes bo'r swp (*truss*) olaf wedi ffurfio gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y cynhwysydd gwrtaith. Mi ydw i am drio un organig gwymon eleni, mi fydd yn ddiddorol gweld sut fydd y tomatos yn tyfu efo hwnnw.

**6.** Torrwch y corbwmpen [*courgette*] yn ifanc maent yn fwy blasus ac mi gewch gnwd gwell. Cadwch y tir yn llaith, dyfriwch o'u cwmpas fodd bynnag yn hytrach na drostynt. Cofiwch eu bwydo bob pythefnos efo gwrtaith hylifol neu wrtaith tomato unwaith mae'r ffrwythau'n dechrau ymddangos. Gallwch hefyd fwyta'r blodau (rhywbeth na fedrwch chi eu prynu'n aml mewn siop).

**7.** Astudiwch eich catalog er mwyn archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf - joban i'w gwneud wrth eistedd yn yr haul yn mwynhau eich gardd efallai.

**8.** Rhowch fwyd i'r lawnt, yn arbennig os na roesoch fwyd iddi yn y gwanwyn.

**9.** Dyma amser da i roi llyfiad o baent neu staen i unrhyw waith coed.

**10.** Cofiwch gynaeafu eich llysiau fel maen nhw'n barod. Mae sawl un yn well o'u bwyta pan ydynt yn ifanc a melys na'u gadael i dyfu'n anferthol. Mi ydw i wedi plannu llysiau rydw i'n eu hoffi eleni, hunanol efallai, ond gan mai fi sy'n gwneud y gwaith caled mae'n rhesymol mai fi a'r gŵr sy'n cael y pleser i'w bwyta nhw. Os oes llysiau a pherlysiau dros ben, byddaf yn eu rhannu efo'r teulu, ffrindiau a'r cymdogion. Mae'r cymdogion hefyd yn rhannu llysiau efo fi, yn enwedig y rhai nad ydw i'n gallu eu tyfu!

Os oes dal rhai ar ôl mi fyddai'n eu rhewi nhw. Cofiwch gall y rhan fwyaf o deulu'r bresych aros yn y ddaear tan fod angen eu defnyddio.



**HELP!**

Oes gan unrhyw un ohonoch chi gyngor i mi ar sut i ddal y twrch daear sy'n chwalu fy morder newydd ac yn gwneud i'r lawnt suddo mewn llefydd?

Mae gen i drap ond mae'r cenna bach yn ei osgoi o. Clywais fod gosod darnau o'r ddraenen ddu yn ei draul yn achosi iddo waedu a gan nad yw ei waed yn ceulo bod hynny'n ei ddifa. Mae'n swnio'n gas ond byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw syniadau ar sut i gael gwared â'r tyrchwr tanddaearol!

***Rhosyn Mynydd***



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

# Ar ben arall i'r lein

Mae hi fel tiwn gron hefo'r pysgota eleni, mis arall wedi diflannu a dim digon o ddŵr i godi ychydig ar yr afonydd, felly dal yn segur mae genweiri nifer o gwmpas yr hen le ma. Fodd bynnag mae tipyn o oleuni yn dod oddi wrth y rhai sydd wedi mentro allan.

Fis diwethaf cyfeiriais fod nifer o sîls y gôg, y rhai mawr arian 'ma 'di rhain, wedi dechrau dangos eu hunain yn yr afon. Pleser mawr yw adrodd fod nifer go dda wedi eu bachu ar Padarn, sy'n newyddion ardderchog, ac o bosib nid yw'r orsaf cynhyrchu trydan yn effeithio cymaint ar eu magwraeth. Pe buasai archwiliadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud ar yr Afon Peris a'i llednentydd buasai tystiolaeth wedi dod i'r fei fod y feithrinfa fagu sîls yno yn weddol iach. Felly be oedd achos y dirywiad yn y pysgodyn hardd yma?

Fy marn bersonol yw mai'r llygredd ar ddyfroedd Padarn oedd y tu ôl i hyn i gyd, yn union fel digwyddodd gyda dirywiad y torgoch. Er mwyn dilyn eu taith i'r dŵr hallt rhaid i'r sîls dramwyo drwy Padarn, a gyda safon y llyn yn prysur wella mae'r amgylchedd unwaith eto yn addas i'w cylch bywyd. 'Roedd adroddiadau ar gyflwr Padarn wedi egluro, gyda stocio y buasai cynnydd yn y torgoch i'w weld mewn ychydig iawn o amser, ond gyda'r pysgod mudol yma, ble mae ei stocio wedi ei wahardd, mi fuasai'n cymryd rhwng 5 ac 8 mlynedd cyn gweld unrhyw gynnydd yn y niferoedd. Mae hynny wedi ei brofi yn berffaith wir.

Un peth sy'n werth cofio ydi ei bod yn hanfodol i ni oll fod yn wyliadwrus gan y gall safon y llyn ddirywio mewn ychydig o amser. Dyma engraifft –

Yn ystod diwedd y 1980au fe dynnwyd sylw'r awdurdodau fod newid gweledol yn safon y dŵr, a'r ateb oedd bod popeth yn iawn a bod hyn yn naturiol. Yn 1992 fe ddaeth tyfiant algai gwyrdd oherwydd gor-arllwysiadau o waith carthffos Llanberis. Fe fu'n rhaid i'r cwmni dŵr wneud gwaith i geisio atal hyn, a do fe fu rhyw welliant am ychydig, ond eto o 2005 ymlaen fe fu'r gymdeithas unwaith eto yn tynnu sylw'r awdurdodau fod y safon ddyfrol yn gwaethygu. Wyddoch i be, cafwyd yr union ateb a gafwyd bymtheg mlynedd ynghynt "Mae popeth yn iawn, mater naturiol sydd ar waith". Wel mae pawb yn gwybod be ddigwyddodd yn ystod 2009. Tydwi ddim am ymhelaethu ar hyn eto, ond fe fu'n rhaid i Ddŵr Cymru fynd i'w poced a gwario oddeutu £8,000,000.00 i wella'r broblem. Diolch i'r drefn mae hyn i weld wedi gweithio, ond dyma pam 'rydym fel clwb yn eich annog i fod yn wyliadwrus.

Dros yr wythnosau diwethaf mae'n amlwg nad ydi dŵr y llyn mor glir ag y mae wedi bod. Mae cerrig y glannau hefyd wedi eu gorchuddio a rhyw *'sludge'* brown, yr union beth a oedd wedi rhoi rhybudd ar ddau achlysur dros y 30 mlynedd diwethaf. 'Rydym unwaith eto wedi tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru at hyn, a dyma'r un ateb yn dod eto - "Mae popeth yn iawn, mae hyn yn naturiol". Wel tydi hyn ddim yn digwydd ar yr un o'r llynoedd eraill, fel Cwellyn a Nantlle, felly be 'di'r achos?

Un teclyn o gymorth mawr i fesur glendid a lefelau ocsigen ar waelod y llyn yw'r orsaf fesur sydd wedi ei gosod ar y platfform sydd wedi ei angori ynghanol y llyn, dros y ffordd i'r Afon Goch. Ar 24 Mai fe eisteddodd Grŵp Cynghori Pysgodfeydd Lleol Gogledd Cymru, ac fe driais fy lwc drwy godi'r pryderon unwaith eto ynglyn â'r llyn, a holi am y canlyniadau ar y mesurydd. Wel doedd neb yn disgwyl y fath ateb, a dyma fo i chwi "Tydi'r mesurydd ddim yna mwy, felly does dim ffordd o ddarganfod be sydd yn mynd ymlaen". Felly dyna paham mae'n rhaid cadw llygaid barcud ar be sy'n mynd ymlaen, achos yn ôl pob golwg does dim cymorth yn dod gan yr awdurdodau unwaith yn rhagor – cofiwch pe bai'r nofwyr a chriw'r canws yn cwyno yna mwyaf tebyg y buasai sylw yn cael ei roi.

Yn anffodus mae materion fel hyn yn cael eu hanwybyddu drwy'r wlad, ac mae i fyny i ni fel pysgotwyr geisio codi ychydig o gywilydd ar yr awdurdodau. I ddechrau arni mae'r *'Angling Trust'* wedi sefydlu *'Rhwydwaith monitro ansawdd dŵr'* gyda'r gwaith yn dechrau ar yr Afon Gwy ble mae problemau difrifol. Bydd gwahoddiad yn ei dro yn dod i gymdeithasau eraill drwy Gymru, a chawn weld be a ddaw o hyn. Mae'r pecynnau profi yn cael eu cynhyrchu drwy gymorth Cymdeithas yr Afon Gwy a Phrifysgol Caerdydd.

Efallai y buasai'n well i mi droi rhyw ychydig at y pysgota. Unwaith eto seren yr holl ddyfroedd yw Llyn y Dywarchen, mae safon y pysgod a'r pysgota yno yn arbennig. Mi fum yn rhan o griw oedd yn stocio wythnos olaf Mai, ac mi oedd y brithyll brown mae criw y ddeorfa wedi eu magu o'r safon uchaf. Mae gwaith y criw bach yma'n glodwiw. Diolch i chwi oll am eich ymroddiad.



Brithyll brown o safon o ddeorfa Crawia

Yr amser yma o'r flwyddyn mae cryn waith i gynnal a chadw ein heiddo yn daclus ac o safon. Eto, mae criw bach wrthi'n brysur, ac rydym yn diolch i chi am eich gwaith caled. Mae angen mwy i roi eu hysgwyddau at y gwaith, felly os oes gan rywun amser ar eu dwylo, ac eisiau mwynhau awyr iach a rhyfeddodau natur, yna dowch am dro i'r ddeorfa, mae digon a waith ar eich cyfer!!



Mynedfa i'r angorfa ar Lyn Nantlle



Camfa newydd ger yr hen reilffordd

Cyfeiriais ychydig yn ôl ein bod yn cysidro trefnu cynllun gwahoddiad i bysgota at ddiwedd y tymor, ac rydym wedi cymryd un cam ymlaen ar hyn gan fod Noel Hulmston, perchennog a threfnydd 'Llyn Guides', wedi cytuno i gydweithio â ni. Mae Noel yn arbenigwr ar y gwaith yma (tarwch olwg ar ei safle we www.llynguides.co.uk) felly cam wrth gam gobeithio fod pethau yn dechrau dod at ei gilydd.

I gadw'r addewid o hen luniau – dyma un arall at eich sylw:-



Huw Williams, Llanberis yn derbyn tarian Cymdeithas Eog a Brithyll Cymru tua 1960. Yn y llun mae Islwyn Jones, Tommy Lovell a Huw Williams. Oes yna rywun yn adnabod y ddau arall?

A dyna ni unwaith eto, gobeithio bydd eog neu wyniedyn neu ddau wedi eu dal erbyn mis nesaf yn 'de.

**Huw Price Hughes**

# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod mis Mai 2022

**1 CROESO:**
Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis nos Fercher yr 11eg o Fai, 2022 am 7.00 PM. Gan mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Cyngor newydd yn dilyn Etholiad ar y 5fed o Fai, estynwyd croeso i'r cyn aelodau a'r rhai newydd gan y Clerc. Nodwyd hefyd y bu newid yn y gynrychiolaeth sirol. Kim Jones oedd wedi ei hethol yn Gynghorydd Sir, dymunodd y Clerc yn dda iddi gan obeithio y byddai aelodau'r Cyngor hwn yn ei chefnogi hyd eithaf eu gallu er lles yr ardal a'i thrigolion. Diolchwyd i'r cyn Gynghorydd Kevin Morris Jones (a oedd wedi penderfynnu rhoi gorau i'r swydd) am ei wasanaeth a'i ymdrechion dros y blynyddoedd y bu'n cynrychioli wardiau Padarn a Nantperis ar Gyngor Gwynedd (CG). Ategwyd hynny gan yr aelodau gan ddiolch i KMJ a dymuno'r gorau i KJ. Wrth groesawu'r aelodau newydd - Emlyn Baylis, Nia Jones a Louise Price gofynnwyd i'r Clerc nodi diolchgarwch i'r cyn aelodau Olwen Gwilym, Beth Holding a Claudia O'Donell am eu gwasanaeth ac anfon gair atynt.

Enwebwyd Llinos Haf Pritchard a Gwilym Evans gyda LlHP yn cael ei hethol yn Gadeirydd a GE yn Is gadeirydd mewn pleidlais gudd. Dymunwyd yn dda i'r ddau.

**3 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Cynghorydd Kim Jones, Nia Jones, Louise Price, Helen Sharp, Trystan Thomas
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard.
***Ymddiheuriadau:*** Pawb yn bresennol.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**6 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Cysgodfan Bws:***
Wedi ei gosod ac yn ei lle ger Dolafon.
***2. Llwybrau:***
Roedd y Clerc wedi cysylltu â dau adeiladwr waliau cerrig mewn perthynas a chael pris i drwsio Pont y Meibion yn y Nant. Un pris yn unig a dderbyniodd y Clerc ar gyfer trwsio un o bileri'r bont, bydd yn pwyso ar yr ail ymgymerwr am bris gyda hawl i ddewis y rhataf.
***3. National Grid - Gwaith Ffordd:***
Cafwyd nifer o gwynion am fod tri set o oleuadau erbyn hyn ar y ffordd rhwng Llanberis a Phenllyn. Holwyd ai dyma fydd y patrwm am yr haf ac fe soniwyd mai am ddau set y bu sôn yn wreiddiol. Yn amlwg mae tri set yn cyflymu'r gwaith ond yn ychwanegu yn arbennig at rwystredigaeth yr ardalwyr, a gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr wrth i'r gwanwyn droi yn haf, mae pethau'n debyg o waethygu. Addawodd KJ a'r Clerc wneud ymholiadau.
***4. CG - Llochesi Bws newydd:***
Roedd y Clerc wedi cysylltu â CG i ddweud nad oedd yn fwriad gan y Cyngor hwn i fabwysiadu'r cysgodfannau newydd y bwriedid eu codi fel rhan o gynllun trafnidiaeth newydd. Mewn ateb dywedwyd fod CG yn parchu barn y Cyngor, ond yn ychwanegu y byddai'n rhaid iddo ddatgelu mai penderfyniad y Cyngor hwn oedd eu gwrthod pe bai ymholiad neu gŵyn.

***5. Llinellau Melyn a Llainwen Uchaf:***
Cafodd y Clerc ateb i'r llythyr yn poeni am barcio bler, llinellau melyn wedi gwisgo a'r ffaith na chafwyd ymateb i'r cais am linellau dwbl yn Llainwen Uchaf. Yn anffodus ni chafwyd cydnabyddiaeth fod unrhyw un o CG wedi edrych nac

ystyried a ddylid gosod rhai yno, er i'r Cyngor hwn holi am hynny flwyddyn union yn ôl. Roedd hyn meddid oherwydd colli aelodau o staff a llwyth gwaith cynyddol ac roedd hynny wedi golygu fod y rhaglen waith wedi llithro. Ychwanegwyd fod pennaeth newydd ar yr adran Parcio a Gwaith Stryd a bod y cais am ail baentio'r llinellau melyn wedi ei drosglwyddo i Beiriannydd Ardal Arfon.

Mynegwyd siom a gofynwyd i'r Clerc gysylltu eto ynglŷn â'r ddau fater.

***6. Siglen Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Cyflwynwyd prisiau gan ddau gwmni ar gyfer trwsio'r siglen plant hŷn, prynu un newydd ac roedd prisiau hefyd ar gyfer newid safle a phrynu un fwy yn lle'r un bresennol. Cytunwyd nad oedd fawr o bwrpas trwsio gan y byddai angen gwneud yr ochr arall yn fuan, felly penderfynwyd prynu un newydd i fynd i'r un safle. Cwmni lleol fydd yn cyflenwi a gosod, a'r pris ychydig dros £3,500. Cynnig ac eilio: RhaG / TT.

Un o flaenoriaethau eleni ydi ychwanegu offer ar gyfer plant bach yn lle'r 'trên coed'. Trafodwyd rhoi sleid yno a gofynnwyd i'r Clerc holi am brisiau. Soniwyd am sleid addas a welwyd yng Nghaernarfon gan rai o'r aelodau. Gofynnwyd i'r Clerc chwilio am gefnogaeth ariannol.

Gan nad oedd y cwmni yswiriant ond wedi rhoi hyd at ganol Mai i adnewyddu'r siglen, bydd rhaid tynnu'r seddi. Awgrymwyd rhoi hysbyseb ar dudalen Facebook y pentref i egluro pam.

**7 MATERION ERAILL:**
***1. Deddf llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021:***
Diolch i HLJ cawsom ein hatgoffa am y newidiadau bydd yn rhaid i'r Cyngor ei wneud yn y dyfodol agos yn unol â'r ddeddf hon. Ymhlith nifer o faterion mae sicrhau fod gwell cysylltiad rhwng y Cyngor a'r cyhoedd o ran mynychu cyfarfodydd a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hawl i fod yn bresennol. Hefyd bydd angen creu cynllun rhaglen hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Cyngor.
***2. Gosod Mainc:***
Cafwyd cais gan deulu o Lŷn am gael gosod mainc yn Y Fynwent i gofio Gavin Carr, gŵr ifanc lleol â fu farw ddeg mlynedd yn ôl. Yn y cyfamser roedd y Clerc wedi cael cais am wybodaeth ynglŷn â meinciau oddi wrth Eglwys Nantperis gan fod yr aelodau yn ystyried gosod mainc yno. Awgrymwyd y gellid o bosib symud un o feinciau Mynwent y plwy a'i chynnig i'r Eglwys er mwyn gwneud lle i'r un newydd i gofio Gavin Carr. Addawodd y Clerc drefnu.
***3. Defaid Crwydrol - cyflogi bugail:***
Yn dilyn trafodaethau rhwng y Clerc a'r Heddlu ynglŷn â defaid crwydrol bu trafodaeth gyda Steven Williams, bugail o Fethel sydd hefyd yn ffermio yn Nantperis ynglŷn â chael rhywun i gasglu defaid yn achlysurol o Lanberis. Cytunodd SW i ystyried hynny ac wedi trafodaeth penderfynwyd rhoi cynnig eto ar gasglu defaid pan mae criw yn bla yn y pentref. Gofynnwyd i'r Clerc drafod ymhellach efo SW a dod i drefniant ffurfiol. Dylai unrhyw gais am symud defaid ddod trwy law'r Clerc, fydd y bugail ddim yn ymateb i gais neb arall. Penderfynwyd holi tybed a fyddai modd gwneud corlan dros dro mewn cornel o Gae'r Ddôl. Cynnig ac eilio: TT / KMJ.

Awgrymwyd hefyd fod y Clerc yn holi Parc Padarn a ellir rhoi ynglŷn â giât yn lle'r un a ddiflannodd yng Nghae'r Ddôl a gofyn hefyd i reolwyr y Parc sicrhau fod arwydd ar giatiau'r cae i atgoffa ymwelwyr o bwysigrwydd eu cau.
***4. Cyfieithu:***
Wrth nodi fod tymor Olwen Gwilym, Bethan Holding a Claudia O'Donnell wedi dod i ben fel cynghorwyr penderfynwyd gofyn i BH barhau gyda'r gwaith cyfieithu cofnodion ag ati i'r Cyngor a'r Clerc i drafod telerau.

**8 GOHEBIAETH:**
***1. Llochesi / Cysgodfannau Bws:***
Adroddwyd eisoes am hyn yn 6.4 uchod.
***2. Nifer o Gylchlythyrau:***

**9 CYNLLUNIO**
- **C22/0005/15/DT -** 33 Dôl Elidir, Llanberis - *cais ar gyfer codi porth to un codiad i du blaen yr eiddo.*
- **C22/0372/15/LL** - DMM Engineering International Ltd, Ffatri Y Glyn, Ystad Ddiwydiannol Y Glyn, Llanberis - *cynnig i godi adeilad diwydiannol (gyda dyluniad diwygiedig yn dilyn caniatâd blaenorol.)*
- **C22/0395/15/DA -** Tir ger 10 Stryd Siarlot, Llanberis - *diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a ganiatawyd o dan ganiatad cynllunio C18/1187/15/LL ar gyfer codi tŷ deulawr teuluol, er galluogi codi uchder y to 0.5m.*
- **NP3/15/LB80N** - Glandŵr, Llanberis, - *Caniatâd Adeilad Rhestredig am estyniad ochr unllawr, ffenestri to, newidiadau mewnol (tynnu partisiynau ac ail-leoli grisiau) a gwaith peirianyddol i'r cefn.*

**Dim sylw ar gyfer unrhyw un o'r ceisiadau yma.**

***2/3***
**10 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Ebrill, 2022**
**Cyfrif Cyfredol**: £11,519.47 **Cyfrif Cadw**: £66.52

**2) Cadarnhawyd y taliadau gwerth:**

**CYFANSWM ... £7,230.26**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/03/2022 a 28/04/2022:**
**CYFANSWM ... £50.00**

**4) Adroddiad Blynyddol**
Cyflwynwyd mantolen y flwyddyn aeth heibio mewn nifer o ddogfennau gan y Clerc. Roedd y Clerc eisoes wedi rhannu ar ebost restri oedd yn

cynnwys Derbyniadau, Gwariant, Cysoni'r Banc a Gwariant yn erbyn y Gyllideb. Y gweddill oedd £11,465.67, ond gan fod dwy siec heb glirio (un am £4,000 oherwydd bai y Banciau gweler eglurhad yng Nghofnodion Mai 2021/8.1) mae'r swm go iawn yn £7,390.67.

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn flwyddyn o wario sylweddol. Cafwyd cwrs antur newydd a siglen plant bach ar y cae chwarae Ger y Llyn a rhoddwyd wyneb newydd ar y Cae Pob Tywydd (UEFA) tu ôl i'r Ganolfan. Rhwng y tri roedd y gwariant yn agos at £45,000, ond llwyddwyd i godi £22,500 o'r swm hwnnw mewn grantiau a rhoddion, diolch i Cist Gwynedd(CG), Ynni Padarn Peris a First Hydro. Yn ogystal a praesebiad o £34,000 eleni roedd £8,485 i ddod yn ôl oddi wrth Gyllid y Wlad fel ad-daliad Treth ar Werth.

Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r Clerc am ei gyflwyniad a'i drylwyredd.

Cynnig ac eilio: HLJ / IW

**11 Y FYNWENT / LLWYBRAU:**

1) Cafwyd cwynynglŷn â pharcio dros y ffordd i'r Fynwent, o flaen yr eglwys. Dywedwyd wrth un oedd yn ymweld ynglŷn â'r Fynwent nad oedd hawl i barcio yno. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu neu gael gair 'ynglŷn â'r sawl a oedd wedi gwneud hynny, a'i atgoffa mai tir cyhoeddus yw'r 'Rheol' ac nad yw wedi ei gofrestru yn enw neb.

**12 ADRODDIADAU ALLANOL:**

**Y Ganolfan:**

Adroddwyd fod Y Ganolfan wedi cynorthwyo criw o bobl oedd am gerdded i gopa'r Wyddfa dros nos i godi arian at Ysbyty Plant Alderhay yn Lerpwl. Llwyddodd y criw i godi dros £60,000. Rhoddwyd caniatad iddynt ddefnyddio'r Ganolfan ar yr amod eu bod yn cerdded yn dawel trwy'r pentref. Gwnaed hynny ac roedd canmoliaeth i'w hymddygiad arbennig.

**Gefeillio Morbegnio:**

Adroddwyd fod bwriad i gynnal cyngerdd yn yr Eglwys ar y 7fed o Orffennaf i groesawu criw o Forbegnio, Yr Eidal, ac mae bwriad i griw oddi yma i fynd allan yno yn yr Hydref.

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o gofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 3ydd Fai

Derbyniwyd llythyr o ymddiheuriad gan Hefin Williams. Fel y gwyddom, ar ôl cyfnod o bron i 40 mlynedd yn gwasanaethu fel Cynghorydd cymunedol, ni fu i Hefin roi ei enw ymlaen i barhau fel cynghorydd. Diolchodd am y fraint ac anrhydedd roedd wedi ei gael yn cynrychioli Rhiwlas ar y cyngor. Byddwn fel cyngor yn gweld colled o wybodaeth, cydweithrediad a chyfeillgarwch Hefin. Roedd yn gynghorydd oedd rhywun yn wastad yn gallu dibynnu arno, ac yn drylwyr ei waith. Diolch Hefin, a phob dymuniad da ar dy ymddeoliad.

Derbyniwyd llythyr hefyd gan Lowri Hughes, Cynghorydd cymunedol yn cynrychioli ardal Dinorwig. Trist hefyd yw nodi nad yw Lowri wedi rhoi ei henw ymlaen i gynrychioli ardal Dinorwig. Roedd gwasanaeth Lowri fel cynghorydd hefyd yn amhrisiadwy mewn ardal ar wasgar, ond prysur. Bydd colled i ni ac i ardal Dinorwig o'i gwybodaeth, cydweithrediad a'i chyfeillgarwch. Diolch a phob dymuniad da iddi hi a'r teulu ifanc, ac efallai bydd cyfle iddi ail ymuno pan fydd amgylchiadau yn caniatau yn y dyfodol.

Nododd Y Cynghorydd Elwyn Jones ei fod yn ddiolchgar o'i waith wedi cyfnod o 40 mlynedd.

**Cofnodion 5ed Ebrill**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

**Materion o'r Cofnodion**

**Cysgodfan Bws Brynr**efail – Y gysgodfan wedi ei archebu, ac yn gobeithio ei gosod yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Tir Ger Ysgol Deiniolen** – Nid ydym wedi cael ymateb gan Y cyngor Sir ar bwy yw perchen y tir erbyn hyn.

**Cynllunio**

Derbyniwyd y ceisiadau canlynnol, ac nid oedd gwrthwynebiad i run cais:

***C22/0358/18/DT – 7 Carreg y Garth, Rhiwlas***

***C22/0386/18/DT – Groeslon Uchaf Lôn Garet, Dinorwig***

***22/0334/18/DT – Gwel yr Wyddfa, Bethel***

**C22/0304/18/DT – 14 Cremlyn, Bethel**

**C22/0274/18/LL – Bronant, Ffordd Bethel**

**C22/0359/18/DT- Elidir, 1 tan y Ffordd, Penisarwaun**

**Llwybrau**

Penderfynwyd canolbwyntio ar y llwybrau canlynol eleni:

LLwybrau rhif: 74, 113, 139, 59 (angen tynnu sylw'r adran at y llechi sydd yn rhydd)

10 – (Y giat - Gwaith cerrig), 35, 34, 37, 91

**O Gwmpas y Bwrdd**

**Lôn Garet, Dinorwig**

Mae Motorhomes yn parcio dros nos yn ben Lôn Garet, yn y man lle troi er mwyn dod yn ôl i lawr. Os byddai ambiwlans neu'r frigâd dân angen gwneud hyn ar frys, byddai yn amhosib. Mae yn rhaid cael arwyddion gwell o lawer yn yr ardal yma. Mae hyn yn digwydd mwy aml mewn llefydd er mwyn osgoi talu am barcio mewn parciau dros nos. Y clerc i yrru llythyr i Gyngor Gwynedd yn gofyn am arwyddion yn atal hyn.

**Wal Pen bont tuag at Rhydfadog**

Cerrig yn rhydd a'r wal yn ansefydlog. Llythyr I'r Cyngor Sir.

**Tir ger Ysgol Gwaun Gynfi**

Mae'r Cynghorydd Elfed Williams yn cyfarfod y Pennaeth Addysg i drafod os oes posib cael tir ychwanegol i barcio ger yr ysgol.

**Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol gan Fudiadau Gwirfoddol**

Ceisiadau i gyrraedd y clerc dim hwyrach na 30ain Medi. Ni fydd ystyriaeth i unrhyw gais os nad yw'n cynnwys Mantolen Ariannol Gyfredol wedi ei ardystio ynghlwm. Ceisiadau i sylw:

Eleri Bean, Bwthyn Isaf, Deiniolen, Gwynedd. LL55 3LS clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk



Resilient Green Spaces Mannau Gwyrdd Gwydn

# Mannau Gwyrdd Gwydn: Ymylon Gwyllt Ymylon Gwell

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, yr elusen sy'n cefnogi cymunedau i ffermio, garddio a thyfu gyda'i gilydd, yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gefnogi cymunedau i reoli ymylon a llefydd gwyrdd cyhoeddus eraill (megis rhannau o dir canolfannau cymunedol neu barciau) fel cynefin gweirglodd. Bwriad hyn yw grymuso cymunedau fel eu bod yn cymryd rheolaeth o'u mannau gwyrdd cyhoeddus er mwyn cysylltu'n well er mwyn natur a phobl. Mae'r alwad yn rhan o linyn 'Ymylon Gwyllt Ymylon Gwell'' eu cynllun £1.27 miliwn Mannau Gwyrdd Gwydn.

Mae Cyngor Gwynedd wedi newid eu trefn torri ar ymylon y tu allan i drefi a phentrefi i ddilyn canllawiau arbenigwyr cadwraeth pan fo'n ymarferol bosib a diogel i wneud hynny. Maen nhw hefyd yn torri 'stribed gweledededd' o 1m yn rheolaidd – sy'n rhoi ymddangosiad mwy cymen i'r ymylon ac mae hefyd yn bwysig ar gyfer diogelwch. Sut bynnag, o fewn trefi a phentrefi mae'r gyfundrefn torri yn wahanol – mae ymylon yn cael eu torri llawer yn fwy aml fel bod pobl yn gallu cerdded arnynt yn ddiogel ac mae'n edrych yn fwy cymen.

Dywedodd y Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd:

"*Mae gwarchod amgylchedd a rhywogaethau arbennig ein sir mor bwysig. Drwy newid y ffordd yr ydym yn rheoli'r tyfiant ar ochr ein ffyrdd, gallwn gael dylanwad bositif ar fioamrywiaeth. Mae'n bosib i ymylon ffyrdd weithredu fel coridorau o gynefinoedd pwysig i gefnogi bob math o greaduriaid; o famaliaid bychain i wenyn a gloÿnnod byw. Fe wnaeth y Cyngor gyflwyno newidiadau positif i'r ffordd mae ymylon ffordd yn cael eu trin rhai blynyddoedd yn ôl, ac mae'r prosiect yma yn gam pellach ymlaen yn ein hymdrechion i hybu bioamrywiaeth ar ochr ein ffyrdd.*"

Mae rhai ymylon a mannau gwyrdd eraill mewn cymunedau sy'n addas i'w rheoli ar gyfer bywyd gwyllt – a dyna eich gwaith chi!

Mae mwy o wybodaeth ar gyfer safleoedd cymunedol neu sefydliadau wedi eu lleoli yng Ngwynedd ar wefan Gerddi a FFermydd Cymdeithasol https://www.farmgarden.org.uk/resilient-green-spaces/ymylon-gwyllt-ymylon-gwell, neu drwy gysylltu â'r arweinwyr llif gwaith:

Arweinydd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol: sarah@farmgarden.org.uk

Arweinydd Cyngor Gwynedd: hywynwilliams@gwynedd.llyw.cymru

*Mae Mannau Gwyrdd Gwydn yn bartneriaeth a arweinir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sy'n llywio systemau bwyd wedi eu hail-leoli gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel grym gyrru ar gyfer newid ar draws Gymru Gyfan tan Fehefin 2023. Ariennir y cynllun drwy Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd.*

Am wybodaeth bellach am gynllun Mannau Gwyrdd Gwydn, ac am gyfleoedd eraill i gymunedau gyfrannu i'r cynllun, ewch i wefan Gerddi a Ffermydd Cymunedol, os gwelwch yn dda:

https://www.farmgarden.org.uk/resilient-green-spaces

Mae'r cynullun wedi derbyn arian drwy Rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

# Am Fannau Gwyrdd Gwydn

Bydd Mannau Gwyrdd Gwydn a arweinir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn llywio systemau bwyd wedi eu hail-leoli gan ddefnyddio cymunedau a'u mannau gwyrdd fel grym gyrru ar gyfer newid ar draws Gymru. Bydd y cynllun cyffroes yma yn grymuso cymunedau ledled Cymru ac yn rhoi arweiniad ar gyfer newid er budd tyfwyr, tyfwyr a'r amgylchedd.

Mae gan y cynllun chwe llinyn o waith arloesol bydd yn profi yr hyn all pobl leol gyflawni gyda'I gilydd gyda chymorth addas, mynediad i dir a rhyddid i wneud beth maen nhw'n ei wneud orau:

1. **Tim Datblygu Rhandiroedd -** Bydd Tim Datblygu Rhandiroedd cyntaf Cymru yn cynnull er mwyn diwallu'r angen cynyddol am ddigonedd o ddarpariaeth rhandiroedd ac i wella mynediad i rhai sy'n aml yn cael eu rhwystro rhag tyfu eu bwyd iachus eu hunain.
2. **Canolfan Bwyd Arloesol** – fe sefydlir pump o ganolfanau bwyd cynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru i ddarparu bwyd iachus, sy'n dda i'r amgylchedd ac yn dda i fusnesau lleol drwy hyrwyddo cadwyn ddarparu fer.
3. **Perllannau Cymunedol Cynhyrchiol -** bydd deg o berllannau cymunedol yn treialu syniadau cynhyrchu, storio a phrosesu mentrol er mwyn darparu buddion ariannol o gynhyrchion newydd Cymreig.
4. **Ymylon Gwyllt Ymylon Gwell** - grymusir cymunedau i reoli eu mannau gwyrdd cyhoeddus er mwyn cysylltu natur a phobl yn well gyda natur ar draws Gwynedd.
5. **Archwilio Mynediad Cyhoeddus i Ffermydd a Thir** – rydym yn archwilio sut gall gymunedau lleol gael mynediad i dir er mwyn datblygu mentrau ffermio sydd o fudd I'r gymuned a'r amgylchedd.
6. **Datblygu Sgiliau Amaethyddol ar gyfer y Dyfodol -** pecyn hyfforddi peilot sy'n rhoi sgiliau I dyfwyr er mwyn rhedeg busnes ffermio amaethyddol.

Am fwy o wybodaeth am Fannau Gwyrdd Gwydn ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun, edrychwch ar ein gwefan: https://www.farmgarden.org.uk/resilient-green-spaces

# Am Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn elusen ledled y DU sy'n cefnogi cymunedau i ffermio, gerddio a thyfu gyda'i gilydd.

Rydym yn:

- Eiriolwyr ac yn ymgyrchwyr dros gwell adnabyddiaeth, ariannu a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau seiliedig ar natur
- Darparu cyngor arbenigol, cefnogaeth a chynllun aelodaeth am ddim i annog cymunedau i dyfu mewn ffyrdd cynaliadwy.
- Cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddi arloesol sy'n grymuso a galluogi cymunedau i ffynnu a thyfu.
- Creu ffyrdd i'n haelodau i gael mynediad i wasanaethau wedi eu comisiynu a dangos eu bod yn rhoi darpariaeth o safon uchel.
- www.farmgarden.org.uk
- **Facebook:** Farmgarden.UK **Trydar:** FCFCGWales
- Noddwr: Ei Fawrhydi Brenhinol Tywysog Cymru
- Llywydd: Yr arglwydd Curry o Kirharle CBE
- Rhif Cwmni: 2011023 & Elusen (Lloegr a Chymru) Rhif: 294494, Elusen (Yr Alban) Rhif: SCO39440

**Am Gyngor Gwynedd:**

- Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am un o'r ardaloedd mwyaf yng Nghymru ac mae'n cynnwys cyfran helaeth o Bac Cenedlaethol Eryri.
- Wedi datgan Argyfwng yr Amgylchedd yn 2019, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gymryd cammau breision i leihau allyriadau carbon ac i chwilio am ffyrdd arloesol i gyrraedd targedau di garbon.
- Oherwydd yr ymdrechion hyn, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu i'r Ymylon Gwyllt Ymylon Gwell fel rhan o'r cynllun
- Bydd y Cyngor ynghyd â Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn anelu at weithio gyda grwpiau cymunedol ac ysgolion i'w hannog i fabwysiadu ymylon lleol a defnyddio dulliau cynaliadwy i sicrhau bod cynnydd mewn coridorau bywyd gwyllt a'u bod wedi eu cysylltu'n well.

# Un funud fach ...

## UN CYFLE

Bron yn ddieithriaid, 'Nac ydyn' fyddai ein hateb i gwestiwn cyntaf pawb ar faes Eisteddfod yr Urdd. Oherwydd hynny châi'r ail gwestiwn ddim hyd yn oed ei ofyn. Eithriadau oedd y blynyddoedd y medrem ateb 'Ydyn' i gwestiwn cyntaf ffrindiau a dieithriaid, 'Ydy'ch plant chi'n cystadlu?' Ar yr adegau prin hynny caem ninnau sôn am y côr neu'r parti yr oedd un neu ragor o'r plant ynddo. Ac ambell waith, caem ateb 'Do' i'r ail gwestiwn anochel, 'Gawson nhw lwyfan?'

Mae'n siŵr gen i fod y cyntaf o'r ddau gwestiwn wedi ei ofyn ganwaith ar faes yr Eisteddfod yn Ninbych yn ddiweddar. Ond doedd dim angen yr ail gwestiwn eleni gan nad oedd ragbrofion am fod pawb a hawliodd le yn Ninbych yn cystadlu ar un o dri llwyfan. Yn ôl y sôn, bu'r arbrawf yn llwyddiant a'r un fydd y drefn o'r herwydd y flwyddyn nesaf. Roedd modd gweld holl gystadlu'r tri llwyfan ar wefan S4C, ac mae'n siŵr fod yna filoedd o bobl wedi gwerthfawrogi a mwynhau hynny gydol yr wythnos.

Gallaf ddychmygu bod y drefn newydd wrth fodd y mwyafrif o'r cystadleuwyr a'u hyfforddwyr a'u cefnogwyr gan nad oedd eisteddfod neb yn gorffen ben bore mewn rhagbrawf heb gynulleidfa gwerth sôn amdani. Pawb yn cael llwyfan; pawb yn cael sylw. Yr unig beth a gollwyd oedd y cyfle i rywrai roi perfformiad gwell fyth ar y llwyfan nag a roed yn y rhagbrawf. Dros y blynyddoedd, clywsom feirniaid yn dweud nad yr un a ddaeth i'r brig yn y diwedd oedd y gorau yn y rhagbrawf. Ond un cyfle oedd i bawb eleni.

Ar un wedd, felly y mae i bawb ohonom: un bywyd a gawn, ac un cyfle i'w fwynhau ac i dreulio'n hamser a defnyddio'n doniau; ac o safbwynt ffydd, un cyfle i fyw'r bywyd hwnnw er clod i'r Arglwydd Dduw. Nid mewn rhagbrawf y mae'r un ohonom. Diolchwn i Dduw am fywyd ei hun a'i fendithion, a gwnawn y gorau o bob munud a phob profiad gan na ellir eu cael yn ôl a'u hail fyw.

Ond ar wedd arall, y mae ail gyfle. A diolch i Dduw am hynny. Yn yr un bywyd hwn, mor dueddol ydym o faglu a syrthio'n fyr o'r nod ac afradu'r cyfleoedd i blesio Duw. Mor dueddol o beidio â gwerthfawrogi bendithion Duw, ac o wrthod hyd yn oed ei gariad yn ei Fab Iesu Grist. Nid bod hynny'n poeni dim arnom yn naturiol wrth gwrs. Ond os a phan ddown yn ymwybodol o'r cefnu hwn ar Dduw, mor werthfawr yw gwybod nad un cyfle sydd wedi'r cyfan. Mae'r Efengyl yn cyhoeddi bod ein Duw sy'n llawn o gariad a thrugaredd yn estyn ail a thrydydd a mynych gyfle i bobl sy'n gwneud llanast o bethau. Mae'n cyhoeddi mai Duw maddeugar yw Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, a'i fod yn edrych heibio i'n beiau a'n methiannau ac yn ein gwahodd i fyw o'r newydd bob dydd yn llawenydd ei faddeuant ac yng ngobaith ei gariad mawr. Ac yn nhrugaredd Duw, mae'r ail gyfle hwnnw'n cael ei estyn drachefn a thrachefn i bwy bynnag sy'n gweld angen amdano.

**JOHN PRITCHARD**

# Cerddi Dathlu'r 500

Fel rhan o ddathliadau 500fed rhifyn Eco'r Wyddfa, bu artistiaid yn cynnal gweithdai creadigol gyda disgyblion ysgolion cynradd y fro. Fe welsoch chi waith celf bendigedig plant ysgolion Bethel, Waunfawr, Penisarwaun, Gwaun Gynfi a Dolbadarn o'u gweithdai gydag Elen Williams yn rhifyn mis Mehefin.

Holi am weithdy gyda bardd wnaeth Ysgol Llanrug a bu Osian Owen gyda phlant blynyddoedd 5 a 6 yn ddiweddar gan gyd-gyfansoddi'r cerddi hyfryd a hapus yma!

**Dyma Lanrug**

Ar gae Llanrug United, ac ar ben Moel Eilio
Ar feic i Cwm, ar wal dal yn dringo.

Mynd am dro i Glegir efo'r ci
Dyma yw bro'r Wyddfa i ni.

Ar Lyn Padarn yn padlfyrddio
Mae 'na bobol, mae'n brysur, mae'n braf cael myfyrio.

Am dro rownd y llyn efo'r ci
Dyma yw bro'r Wyddfa i ni.

Codi den yn Nant y Glyn
Nofio, canŵio ar y llyn.

Yn hapus, wedi blino ar ben y copa
a gweld y byd i gyd o'r Wyddfa.

**"Dewch i fro'r Wyddfa!"**

Llanberis, lle lliwgar.
Llyn, llechi llachar.

Padlfyrddio ar Lyn Padarn
(Padarn prysur!)

Llanrug, lle llawen.
Lle'n llawn lleisiau.
Pêl droed prydferth
yn Nant y Glyn, lle neis.
Neu ar yr astro arbennig.

Yn bendant, ewch i Bethel!
Cwm y Glo cŵl.
Deiniolen, lle disglair.
Penisarwaun, lle perffaith.

Dewch i'n pentra!
Dewch i fro'r Wyddfa!

**Diolch yn fawr i Osian Owen, Elen Williams a phlant bro'r Wyddfa am helpu'r Eco i ddathlu'r 500.**

## Diwrnod hanesyddol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ethol menyw am y tro cyntaf yn Gadeirydd

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod, etholwyd y Cynghorydd Annwen Hughes fel Cadeirydd.

Mae'r Cynghorydd Hughes yn Gynghorydd Gwynedd dros Harlech a Llanbedr ac wedi bod yn Aelod Awdurdod ers pum mlynedd ac yn is-Gadeirydd am ddwy o'r rheini.

Cafodd y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Cynghorydd Gwynedd dros Waunfawr, hefyd ei ethol fel Is-Gadeirydd.

Croesawyd chwe aelod newydd i'r cyfarfod, ac am y tro cyntaf erioed mae nifer hafal o ddynion a merched ar y pwyllgor.

Y Cynghorwyr newydd yw Louise Hughes, June Jones, Kim Jones (Llanberis) a Meryl Roberts o Gyngor Gwynedd a Jo Nuttall a Dilwyn Owain Roberts o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mi fyddant ar yr Awdurdod am 5 mlynedd nes yr etholiadau cyngor lleol nesaf.







# Cyfres Rasys Nos Fawrth yn dirwyn i ben

Roedd un ras o'r deuddeg yn weddill pan aeth yr *Eco* i'r wasg, ac felly nid yw'n bosib adrodd i sicrwydd pwy oedd yr enillwyr yn y gwahanol gategorïau, ac a oedd rhai ohonynt o'r fro hon. Ers yr adroddiad y mis diwethaf, cynhaliwyd pedair ras arall – Y Gogarth, Y Garn, Aber a Thal y Mignedd, a bu llwyddiannau.

Efallai i'r storm o law trwm atal rhai rhag teithio i Landudno a herio'r Gogarth, ond doedd neb o fro'r *Eco* yn amlwg yn y canlyniadau. Roedd y tywydd yn dipyn mwy ffafriol ar gyfer Ras Y Garn yn Rhyd-ddu wythnos yn ddiweddarach, gyda Wil Evans, Llanrug yn 3ydd dros 50 oed, Maggie Oliver, Dinorwig yn 1af dros 70 oed, a Dafydd Thomas, Llanrug yn 1af ac yn torri record oedran dros 75 oed. Roedd Jenny Heming yn ôl ar gyfer Ras Aber, a hynny wedi herio mynyddoedd Ynys Jura yn yr Alban rai dyddiau ynghynt. Mae'r ras yn yr Alban yn cael ei chyfrif fel un o glasuron y calendr rhedeg mynydd yng ngwledydd Prydain, ac yr oedd ymhell dros 500 wedi gwneud cais am ei rhedeg, gyda'r nifer yn cael ei gyfyngu i 200 gan y trefnwyr, a hynny yn ôl eu gallu i ymdopi â garwedd y cwrs. A hithau'n mwynhau un o'i thymhorau gorau yn rhedeg ar y mynyddoedd, doedd hi fawr o syndod mai Jenny enillodd yr adran dros 50 oed yn Aber. Daeth Arwel Lewis, Bethel yn 3ydd dros 60 oed.

Llethrau serth Tal y Mignedd yn Nyffryn Nantlle oedd yr her yn y ras olaf ond un, a gellir dadlau mai hon oedd ras galetaf y gyfres. Roedd Rhodri Owen, Waunfawr yn 3ydd, Phil Jones, Waunfawr yn 3ydd dros 60 oed, a Dafydd Thomas, Llanrug yn 2il dros 75 oed.

**Pedair milltir yr awr**

Swnio'n hawdd? Dyna oedd yr her i fwy na 70 o redwyr ar Fynydd Rhiw ym Mhen Llŷn ddechrau Mehefin. Roedd y ras yn rhan o gyfres 'Lion's Gate Backyard Ultra' sy'n cael ei chynnal ar draws gwledydd Prydain, a hon oedd y gyntaf yng Nghymru eleni. Mae gwobrau unigol i'r enillwyr, ond mae pob rhedwr yn cynrychioli ei wlad, gyda phwyntiau'n cael eu rhoi yn ôl safle pawb ar ddiwedd y ras. Felly, Cymru yn erbyn Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon oedd hi'r mis diwethaf, ac roedd dau redwr lleol yn cystadlu – a hynny dros Gymru.

Ond pa mor hawdd yw hi i redeg pedair milltir mewn awr? Hawdd iawn am yr awr gyntaf. Ond pan fo angen rhedeg pedair milltir bob awr nes i bob ymgeisydd fod yn rhy flinedig i ail-gychwyn, yna mae'n fater gwahanol! Do, fe lwyddodd dau i gwblhau dros 100 milltir, sef pedair milltir bob awr dros gyfnod o 25 awr.

Cwblhaodd Jonathon Will o Lanberis 36 milltir – sef 9 awr o redeg. Aeth Jason Parry Jones, Llanrug gynt, gam (neu lawer cam) ymhellach, gan gwblhau 52 milltir mewn 13 awr: ie, dau farathon. Ein llongyfarchion i'r ddau, a gobeithio i chwi gael noson neu ddiwrnod da o gwsg yn dilyn eich ymdrechion.

**Ras 5k Llanrug**

Eleni, roedd y ras leol wedi ei dewis ar gyfer Pencampwriaeth Gogledd Cymru, arwydd pendant fod y trefniant a'r paratoadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi cyrraedd safon arbennig. Gan hynny roedd disgwyl rhedwyr o safon i gystadlu, ac roedd carfan gref o glybiau rhedeg gogledd-ddwyrain Cymru wedi troi allan ar noson heulog, a'r gwynt hyd yn oed wedi gostegu.

Cyn y brif ras roedd cystadleuaeth i blant yr ardal, ac mae'r ffaith fod bron i gant a hanner wedi troi allan yn dangos fod rhedeg yn cynyddu mewn poblogrwydd.

Roedd 131 yn cystadlu yn y brif ras, a daeth Adam Jones, Llanberis yn 2il. Roedd Arwel Lewis, Bethel yn 2il dros 60 oed a Maggie Oliver, Dinorwig yn 1af dros 70 oed.

# Cynrychioli Cymru

Dymunwn yn dda i Isabelle Shaw (15 mlwydd oed) o Ysgol Brynrefail a Noa Vaughan (16 mlwydd oed) o Ysgol Syr Hugh Owen sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Cymru yng Nghwpan Cenedlaethol Ras Mynydd y Byd dan 18oed yn Saluzzo, Yr Eidal ar yr 26ain o Fehefin.

Mae 4 bachgen a 4 merch wedi cael eu dewis ar draws Cymru i redeg yn y digwyddiad mawreddog yma ar 15fed penblwydd y ras. Pob hwyl iddynt.




# Dewi'n dod i'r brig

Mae gennym bencampwr cenedlaethol eto ym mro'r Eco! Ar 14eg Mai fe enillodd Dewi Williams o Lanrug Bencampwriaeth Karate Cymru yng Nghaerdydd. Dyma'r trydydd tro iddo ennill y bencampwriaeth gyda'i Sensei Reuben Florence o Dragon Karate Cymru. Mae teulu a ffrindiau Dewi i gyd yn falch iawn ohono, ac yn gobeithio am fwy yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr i ti Dewi, a dal ati - edrychwn ymlaen at ddilyn dy hanes.







BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

## COLOFN CHWARAEON

# Beth sydd mewn gair?

*UNDEB* Rygbi Cymru. *CYMDEITHAS* Bêl-droed Cymru. Rwyf wedi pendroni tipyn dros yr wythnosau diwethaf uwch fy nehongliad o'r ddau air yma a'u perthnasedd – onid gwirionedd – yng nghyswllt realaeth cyflwr y Gymru bresennol ym myd chwaraeon. Nid fy mhwrpas yw chwarae'r naill gêm yn erbyn y llall. Yr wyf yn un sy'n credu y dylem gefnogi pob tîm cenedlaethol Cymreig, beth bynnag y gamp. Gwlad fechan ydym ar lefel 'byd eang' ond gwlad mewn rhai campau sydd wedi cyrraedd safonau uchel iawn.

I ni yn ardal y chwareli, mae ystyr benodol i'r term *UNDEB*. O'r Streic Fawr i helbul Ferodo, yr oedd yr 'undeb'' yn chwarae rhan ganolog. Onid meibion ac wyrion cyn-chwarelwyr oedd ar flaen y gad ymhlith gweithwyr Ferodo? 'Undeb' oedd criw unedig. 'Undeb' oedd yn gwarchod, yn trefnu, yn ymladd cornel. Roedd yr arweinwyr i'w parchu. Roeddent wedi eu codi yn y gymuned. Roeddent yn sefyll yn enw a thros eraill i ddwyn y maen i'r wal.

Nid felly sefyllfa'r Undeb Rygbi ar hyn o bryd. Maent yn gorff 'croen elliffant', yn troi eu cefnau ar unrhyw farn neu drafodaeth sy'n peryglu eu tŵr ifori. Nid oes unrhyw ymateb pendant i gyflwr a strwythr y gêm. Mae'n parhau i daflu arian prin at strwythr ranbarthol sy'n amlwg yn fethiant ar y lefel broffesiynol Ewropeaidd a chynghreiriol. Dyma strwythr ranbarthol nad yw'n cynnig llwybr pendant o ddatblygiad dawn ieuenctid, sy'n eistedd ar y fainc yn gwylio 'tramorwyr' a welodd ddyddiau gwell yn llenwi'r safleoedd. Er y prisiau afresymol am docynnau rhyngwladol, mae'r Undeb yn barod i bregethu mai 'achlysur' yw gêm ryngwladol, fel rhyw gyngerdd roc. Dewch yn eich gwisg ffansi, ac yfwch o'i hochor hi. Does dim rhaid i chi fod yn rhywun sy'n sefyll yn y glaw yn cefnogi'ch tîm pentref neu ardal o Sadwrn i Sadwrn. Dewch â'ch plant, a phrynwch y crys! Mwynhewch yr 'anthem'.

Y gŵyn fwyaf sydd gennyf yw'r 'pellter' cynyddol rhwng yr 'Undeb' a'r cefnogwyr a charwyr y gêm. Maent yn mynnu dal gafael ar hen draddodiadau. 'Ich Dien' sydd o dan y plu estronol. Teg gofyn pwy maent yn ei wasanaethu bellach dan nawddogaeth y Tywysog William. Y mae'r pellter yma bellach wedi arwain at ddirywiad yn rhifau a safonau'r gêm yn ei chadarnleoedd – y Gwendraeth, Syhowi, y Rhondda, gyda gemau'n cael eu gohirio oherwydd diffyg chwaraewyr. Roedd clybiau fel Caernarfon, Bethesda, Llangefni, Nant Conwy … yn ddigon parod, er y gost a'r blinder, i deithio i'r De bob pythefnos i gystadlu yng ngwahanol adrannau'r Gynghrair Genedlaethol. Undeb De a Gogledd. Clybiau'n ffynnu yn ariannol. Bethesda, Llangefni ac eraill yn datblygu cyfleusterau a ddaeth yn bwynt ymgynnull i ardal. Ond na, roedd y Gogledd yn rhy bell o'r De i dimau deithio unwaith y flwyddyn. Nid oes yr un tân bellach gyda'n clybiau lleol yn wynebu ei gilydd o dymor i dymor.

Y mae cryn bwysau ar y rheolwyr a'r garfan ryngwladol sy'n teithio I Dde'r Affrig yr haf yma. Fe fydd y daith yma'n diffinio'r 'ffordd ymlaen' hyderus neu'n amlygu ymhellach y dirywiad. Fe fydd yn diffinio a ydym, ar y llwyfan mawr, 'yma o hyd'.

Yn y rhifyn nesaf byddaf yn ceisio dehongli perthnasedd y gair CYMDEITHAS yn nghyd-destun Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Ac yna, i orffen y gyfres, edrych ar unrhyw ddylanwadau tu hwnt i'r maes chwarae – yn wleidyddol efallai – y bydd y cyfnod diwethaf yma yn eu sbarduno.


SIÂN GWENLLIAN

AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076

8 Stryd y Castell Caernarfon

sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus


**Ar rediad**

Daeth 132 o blant oed cynradd, yn cynrychioli 10 ysgol wahanol i dwrnamaint Criced Pêl-feddal Dwyrain Arfon yn ddiweddar. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar faes eang Clwb Bangor, a bu cystadlu brwd o 9am i 3pm. O wylio'r cyfan, deuai'n amlwg fod yma dalentau coll sy'n cael eu boddi oherwydd hyd tymhorau a sylw i bêl-droed a rygbi yr ardal. Y mae cryn bwyslais ar y cynllun 'Dynamo' i blant rhwng 8 ac 11 oed. Y ganolfan hyfforddi leol i'r ardal yma yw Clwb Criced Bangor. Cynhelir y sesiynau o dan ofal hyfforddwyr profiadol rhwng 10 ac 11 o'r gloch ar fore Sul. Mae rhai plant o Fro'r Eco eisoes yn mynychu'r sesiynau. Os oes gan blentyn ddiddordeb, gall droi fyny ar gyfer y sesiwn. Bydd pawb sy'n ymuno'n cael crys-T llachar gyda'u henw a rhif ar y cefn, am ddim. Croeso i unrhyw blentyn, bachgen neu ferch, yn ddechreuwr neu sy'n aelod o glwb yn barod.

Yn y gystadleuaeth, roedd un tîm o Ysgol Waunfawr a dau dîm o Ysgol Llanrug. Gemau cynghreiriol oedd yn y bore. Ail yn eu grŵp, ond wedi mwynhau'n arw oedd criw Waunfawr. Enillodd dau dîm Llanrug eu grwpiau, a mynd trwodd felly i'r rownd gyn-derfynol, lle roedd dau dîm Llanrug yn wynebu dau dîm Ysgol y Faenol, Bangor. Dwy gêm dda, a Llanrug 2 yn wynebu Faenol 1 yn y ffeinal. Chwaraeodd Llanrug yn wych yn y gêm 8 pelawd bob tîm gan fwrw'r bêl yn lân, ac roedd eu sgiliau maesu – yn enwedig y daliadau – yn wych. Yn haeddiannol, Llanrug enillodd o 107 i 75. Dyfarnwyd Ilan Stokes yn 'seren' carfan Llanrug gan ei gyd chwaraewyr. Pa well enw na Stokes am 'seren' griced! Llongyfarchiadau hefyd i hyfforddwr Llanrug, Catrin 'Klopp' Jones.

Bydd tîm cymysg Llanrug yn dychwelyd i Tŷ Newydd ddiwedd y mis i ymgiprys am Bencampwriaeth Gwynedd. Byddant yn wynebu enillwyr cylchoedd Môn, Bethesd a Phen Llŷn. Bydd yr enillwyr o'r pedwar yn ymgiprys am Bencampwriaeth Gogledd Cymru. Pob lwc iddynt.



# Cymru yn mynd i Qatar!



Na, nid breuddwydio mohonoch. Mae Cymru wedi cyrraedd Cwpan y Byd. Hir yw pob ymaros medden nhw; a do, mae hi wedi bod yn gyfnod hir iawn o ddisgwyl. Mae 64 blynedd wedi mynd heibio ers i Gymru fod yng Nghwpan y Byd. O'r diwedd, mae Cymru yn nôl ar lwyfan mwyaf y byd pêl-droed.

Tachwedd yr 21ain. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur nawr gan mai dyna pryd fydd Cymru'n chwarae eu gêm gyntaf o'r gystadleuaeth, yn erbyn yr UDA.

Ond cyn edrych ymlaen i'r dyfodol, beth am edrych yn ôl yn sydyn ar y gêm honno yn erbyn Yr Wcráin yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar Fehefin y 5ed? Y noson fydd pob cefnogwr Cymru yn cofio ble a gyda phwy oedden nhw. Y noson y daeth breuddwydion nifer fawr iawn yn wir.

Yn dilyn ein buddugoliaeth yn erbyn Awstria ym mis Mawrth, roedd tipyn o ddisgwyl nes ein ffeinal yn y gemau ail-gyfle. Roedd Yr Alban yn disgwyl chwarae yn erbyn Yr Wcráin, ac am resymau amlwg cafodd y gêm honno ei gohirio tan fis Mehefin, a hynny'n golygu y byddai rhaid i Gymru ddisgwyl ychydig yn hirach i ddatgelu eu tynged. Fe chwaraeodd Yr Alban yn erbyn Yr Wcráin ar Fehefin y 1af, a'r Wcráin ddaeth yn fuddugol o dair gôl i un. Roedd Cymru felly'n gwybod pa dîm fyddai rhyngddyn nhw a lle yng Nghwpan y Byd. Byddai nifer o gefnogwyr Cymru dwi'n tybio yn falch iawn gyda hynny o gofio'r hanes dadleuol iawn rhwng y ddwy wlad ar y cae pêl-droed. Does dim ond angen crybwyll yr enw Joe Jordan ac mae'n ddigon i dorri calonnau Cymry drosodd a throsodd.

Wrth gwrs, roedd hi am fod yn gêm anodd iawn yn erbyn tîm cryf iawn. Roedd tocynnau fel aur prin gyda phawb a'i gi yn ceisio cael tocyn! Roedd pawb eisiau bod yn rhan o'r Wal Goch a fyddai gobeithio'n tystio i hanes. Roedd hi'n gêm eithriadol o bwysig i'r ddwy wlad am resymau amlwg - roedd yn golygu lle yng Nghwpan y Byd. Ond roedd hi hefyd yn bwysig mewn ffyrdd gwahanol iawn oddi ar y cae. Mae'r erchyllterau sydd yn mynd ymlaen yn Yr Wcráin yn dorcalonnus, ac mae angerdd a dewrder y bobl a'r tîm pêl-droed yn hollol ysbrydoledig. Drwy gyfnod mor anodd maent dal i gredu ac yn dal i gwffio. Roedd y parch rhwng y ddau dîm a'r cefnogwyr yn amlwg o'r cychwyn. Fe ganodd Dafydd Iwan 'Yma o Hyd' ar ddechrau'r gêm gyda chefnogwyr Cymru'n bloeddio canu gydag o. Tra digwyddai hyn, roedd cefnogwyr Yr Wcráin yn dal eu baneri a'u sgarffiau i fyny i'r awyr, bron fel petaent yn ceisio canu gyda ni. Mae rhywun yn meddwl am eiriau'r gân ac yn teimlo fod rhywfaint o berthnasedd yno i'r cefnogwyr oddi cartref: "Er gwaethaf pawb a phopeth ry'n ni yma o hyd".

Ar y cae pêl-droed roedd gan Gymru waith i'w wneud. Doedd dim ots pwy oedd y tîm arall. Y nod oedd cyrraedd Cwpan y Byd. Fe gychwynnodd y gêm yn eithaf blêr i Gymru gyda Joe Allen a Daniel James yn derbyn cardiau melyn o fewn y munudau cyntaf. Roedd Yr Wcráin yn gweld llawer mwy o'r bêl na Chymru ac yn cael y cyfleoedd gorau. Fe sgoriodd Zinchenko gôl ar ddechrau'r hanner cyntaf ond nid oedd yn cyfrif am ei fod wedi cymryd y gic rydd cyn i'r dyfarnwr chwibanu. Lwcus i Gymru, roedd Wayne Hennessey yn cael gêm gorau ei fywyd gan wneud sawl arbediad gwych. Roedd Cymru'n lwcus i beidio ildio gôl, a hyd yn oed yn fwy lwcus i fynd fewn ar hanner amser ar y blaen. Fe enillodd Cymru gic rydd wedi ychydig dros hanner awr o chwarae. Roedd y llwyfan yn barod i Gareth Bale. Gareth Bale fyddai'n rhoi gobaith i Gymru! Fe aeth y gic rydd i mewn i'r gôl gydag allwyriad yn dod oddi ar chwaraewr Yr Wcráin, Yarmolenko. Tor-calon i'r tîm mewn glas. Gorfoledd i'r tîm mewn coch. Am unwaith, roedd lwc ar ochr Cymru. Cafodd y ddau dîm sawl cyfle yn yr ail hanner, ac unwaith eto'r Wcráin oedd yn cael y cyfleoedd gorau. Ond gyda pherfformiad arwrol gan Hennessey, doedd dim am fynd heibio iddo.

Pawb yn edrych ar y cloc, a dim ond ychydig o eiliadau wedi mynd heibio ers yr edrychiad diwethaf. Roedd amser yn mynd yn araf. 90 munud ar ben. 5 munud ychwanegol i'w chwarae. Artaith. Ond fe ddaeth y chwiban olaf. Gwaedd gan Y Wal Goch. Roedd Cymru wedi ennill o un gôl i ddim. 64 mlynedd o ddisgwyl wedi dod i ben. Mi fydd Cymru'n chwarae yng Nghwpan y Byd ym mis Tachwedd. Ar ôl boddi wrth y lan sawl gwaith mae cyfle Cymru wedi dod O'R DIWEDD.

Felly, mis Tachwedd mi fydd llygaid y byd ar Gymru yng nghystadleuaeth fwyaf y byd ble byddwn ni'n chwarae yn erbyn yr UDA, Iran a Lloegr yn rownd y grwpiau. Cyfle euraidd i roi ein gwlad arbennig ni ar y map. Mi fydd y gefnogaeth yn angerddol yn sicr, boed hynny yn Qatar neu gartra yng Nghymru. 1958 a 2022. Dyddiadau fydd yn aros yn hanes Cymru am byth.

**Mared Rhys Jones**



## Hogyn o Lanrug – efo hogia o Lanrug (a Llanberis)

Mae cefnogwyr o Lanrug wastad yn cario baner 'Kieffer Moore – Hogyn o Lanrug' tra'n rhan o'r Wal Goch yng ngemau Cymru. Ond yn dilyn buddugoliaeth Cymru yn erbyn Wcráin sy'n golygu y byddant yn rhan o gystadleuaeth Cwpan y Byd yn Qatar yn ddiweddarach eleni, cafodd yr 'Hogyn o Lanrug' gyfarfod hogia o Lanrug a Llanberis a fu yng Nghaerdydd ar y noson fythgofiadwy honno. Ac y mae sôn fod ar yr 'Hogyn o Lanrug' awydd dychwelyd i'r pentref. Bydd croeso cynnes iddo pan ddaw.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >